



Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 25AIN IONAWR, 2022**

Lleoliad

**Zoom**

**\*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni\***

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 18 Ionawr 2022)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Beca Brown  
Alan Jones Evans  
Judith Mary Humphreys  
Olaf Cai Larsen

Elwyn Edwards  
Aled Ll. Evans  
Elin Walker Jones  
Elfed Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Eric M. Jones  
John Pughe Roberts

Kevin Morris Jones  
Eirwyn Williams

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN ADDYSG

10 - 19

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

20 - 27

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN TAI AC EIDDO

28 - 35

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd

## 8. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: CYNLLUN TAI CYMUNEDAU CYMRAEG

36 - 66

Cyflwyno papurau'r Ymgynghoriad a gwahodd sylwadau gan yr aelodau ar gynnwys y ddogfen. Bydd yr Uned Iaith yn llunio ymateb i'r ymgynghoriad ar sail y sylwadau a dderbynnir.

## 9. YMCHWIL TAI NEWYDD YNG NGWYNEDD

67 - 243

Cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil er gwybodaeth i'r aelodau.

---

## PWYLLGOR IAITH DYDD MAWRTH, 19 HYDREF 2021

---

**YN BRESENNOL:** Elin Walker Jones (Cadeirydd)  
Olaf Cai Larsen (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, Beca Brown, Alwyn Gruffydd, Judith Mary Humphreys a Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg). Ffion Bryn Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Eitem 5: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd).

Eitem 7: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth).

Eitem 9: Meirion MacIntyre Huws (Swyddog Gwarchod Enwau Lleoedd).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr Elwyn Jones, Kevin M Jones, John Pughe Roberts ac Eirwyn Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Mehefin 2021 fel rhai cywir yn amodol ar ychwanegu ym mhwynt 11.2 bod aelod wedi mynegi siom nad yw'r ysgolion yn medru cynnal y Canolfannau Iaith.

### 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Amlygwyd her o allu staff rheng flaen i ymateb i'r arolwg staff hunanasesiad iaith Gymraeg oherwydd nad oes

ganddynt fynediad rhwydd i gyfrifiaduron personol. Ategwyd fod yr adran yn gweithio a'r Swyddog Dysgu a Datblygu i geisio dod o hyd i ffyrdd addas i wella'r ymateb.

Tynnwyd sylw yn ogystal i'r prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd fod yr holl brentisiaethau yn yr adran yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a bod hysbysiadau Cymraeg ar gyfer y cyfleodd hyn bellach i'w gweld ar y teledu.
- Mynegwyd awydd i ddatblygu mwy o derminoleg Cymraeg o fewn yr adran ac i sicrhau defnydd ohonynt yn y gweithlu yn ogystal â chynnal hyfforddiant iaith i'r staff.
- Gobeithir annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg y staff, yn enwedig yn yr ardaloedd ble mae llai o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio megis Meirionnydd. Pwysleisiwyd fod hyn yn flaenoriaeth fel gall staff rheng-flaen roi'r argraff gorau o ddefnydd yr iaith i drigolion Gwynedd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor i holi cwestiynau-

- Holwyd pa mor gynrychiadol oedd y cyfranogwyr a ymatebodd i'r holiadur dynodiadau iaith. Nododd fod trefniadau i edrych ar yr holiadur i sicrhau ei fod yn syml, a drwy hyn gobeithir y bydd cyfranogiad ehangach. Holwyd hefyd pa mor debygol oedd o fod unigolion Cymraeg wedi ei lenwi'n Saesneg. Eglurodd nad oedd modd o wirio hyn.
- Gofynnwyd pa mor aml mae pethau'n cael eu cyfieithu'n allanol. Mynegwyd nad oedd angen defnyddio cwmnïau allanol gan eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu mewnol o fewn y Cyngor a nodwyd yr her o gael mwy o ddefnydd o derminoleg Cymraeg gan staff.
- Holwyd beth oedd y drefn arferol pe bai rhaid cyflogi rhywun di-gymraeg. Cadarnhawyd y byddai hyfforddiant addas yn cael ei gynnig. Eglurwyd hefyd fod cefnogaeth a hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r staff presennol sydd ddim yn hyderus efo'u Cymraeg.

## **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## **6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: AMGYCLHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr adran Amgylchedd. Nododd addasiad i'r adroddiad sef bod 67.8% o'r adran wedi llenwi'r holiadur hunanasesiad iaith Gymraeg a bod 93% o'r rhai ymatebodd yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Cyfeiriodd at y pwyntiau canlynol yn yr adroddiad:

- Nodwyd ei bod yn anodd cael unigolion gyda'r arbenigedd cywir i ddod i weithio yn y maes cynllunio a gwarchod y cyhoedd. Eglurodd bod cyrsiau cynhwysu yn cael eu trefnu i gynorthwyo gyda hyn.
- Mynegodd bod y gallu i weithredu'n rhithiol wedi newid systemau gweithiol yr adran a bod nifer o staff wedi gadael yr adran i geisio swyddi mewn lleoliadau eraill. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod gweithio'n rhithiol yn golygu y gall y Cyngor annog unigolion i ddod i weithio gyda nhw. Adnabuwyd bod angen hyfforddi a buddsoddi yn y swyddogion er mwyn eu hannog i aros yn eu swyddi.
- Nodwyd angen i ddatblygu'r maes recriwtio ac i greu a chynnal cyswllt ysgolion a cholegau yn ôl i'r arfer ar ôl cyfnod COVID

- Eglurwyd bod cyfyngiadau ieithyddol wrth greu dogfennau rhwng yr adran a chwmnïau allanol a bod sicrhau nad oes cam camddehongli rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Pwysleisiwyd fod llawer o gwmnïau yn gweithredu yn wirfoddol ar argymhellion yr adran i enwi datblygiadau yn Gymraeg er nad oes deddfwriaeth i'w gorfodi

Rhoddyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau pellach -

- Holwyd pam fod nifer wedi gadael yr adran ac os oedd rheswm dros hyn. Gofynnwyd, yn ogystal, am ddiweddariad am y newidiadau yn yr adran. Nodwyd eu bod yn buddsoddi mewn hyfforddi staff yr adran er mwyn eu datblygu ymhellach. Ychwanegodd fod cyfnod hir o sefydlogrwydd wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf, ond yn dilyn newid mewn ffordd o weithio dros y pandemig fod hyn wedi rhoi mwy o gyfleon tu hwnt i'r Cyngor i unigolion
- Gofynnwyd a oedd bwriad cael cyswllt gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu ysgolion a cholegau i annog pobl ifanc ymrwymo i'r swyddi sydd ar gael efo Cyngor Gwynedd. Amlygwyd yr angen i ddatblygu'r maes recriwtio, ac yn anffodus fod cynlluniau oedd ganddynt wedi ei dal yn ôl gan y pandemig ond eu bod yn gobeithio ailgychwyn yn fuan. Er hyn, eglurwyd fod llawer o waith wedi ei wneud i hyrwyddo swyddi yn lleol.
- Holwyd a oedd bwriad i ddatblygu terminoleg Cymraeg o fewn yr adran. Eglurwyd fod y derminoleg yn un anodd a'i bod yn ofynnol i'r gwasanaeth gynrig gwahoddiad tendro'n ddwyieithog. Nodwyd yr angen i fod yn ofalus efo'r cytundebau a chontractau ac nad oes camddehongli i'w weld rhwng y ddwy iaith. O ganlyniad i hyn, y cyngor cyfreithiol mae'r adran wedi ei dderbyn yw cyflwyno cytundebau a chontractau mewn un iaith, a bod yr iaith felly'n amrywio o gwmni i gwmni.
- Mynegwyd siom nad oedd Deddf i sicrhau fod enwau gwreiddiol Cymraeg sydd yn cael ei defnyddio yn lleol yn cael eu blaenoriaethu, ond pwysleisiwyd fod yr adran yn annog defnydd o'r Gymraeg gyda chanran uchel o gwmnïau yn derbyn argymhellion yr Uned Iaith.

## **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## **7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: CYLLID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Cyllid a chyfeiriodd yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Datblygiad yn yr adran dros y blynyddoedd o fod yn bennaf Saesneg o ran arferion gwaith, i fod gyda chanran uchel o staff yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg.
- Nodwyd fod yr adran yn unigryw yn y modd ei mae'n cynhyrchu cyfrifon drwy gyfrwng y Gymraeg a'u cyfieithu i'r Saesneg, yn annhebyg i unrhyw Gyngor arall.
- Cyfeiriwyd at y staff rheng flaen sy'n cyfathrebu a'r cyhoedd o fewn yr adran a'u bod yn cwrdd â'r gofynion ieithyddol.
- Manteisiwyd ar ddeunydd Cymraeg Clir er mwyn symleiddio'r eirfa a ddefnyddiwyd o fewn gwaith yr adran fel bod pobl gyffredin yn eu deall. Ategodd y Pennaeth bod cynghorau eraill yn efelychu'r gwaith hwn ar gyfer safoni

terminoleg gan fod yr adran wedi gweithio efo Canolfan Bedwyr i sicrhau defnydd o ffurf geiriau cywir.

- Ategydd bod yr adran wedi arloesi gyda'u defnydd o Zoom ar gyfer hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd allanol er enghraifft i sicrhau bod ansawdd a gweithrediad dwyieithog yng nghyfarfodydd gronfa bensiw. Ychwanegodd bod egwyddorion Ffordd Gwynedd yn cael eu hallforio drwy hyn.
- Nododd bod y systemau rhithiol wedi amddiffyn y drefn ddwyieithog a bod yr adran wedi llobio Microsoft drwy ysgrifennu llythyr atynt i fabwysiadu system sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag yn absenoldeb hyn mae Zoom wedi caniatáu hyn ddiwydd yn rhwydd.
- Ategodd Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth mwy o wybodaeth am y systemau gwe iaith a ddefnyddiwyd mewn ysgolion yn llwyddiannus yn y gorffennol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Diolchwyd am yr adroddiad difyr a holwyd pa mor debygol yw'r ddarpariaeth cyfieithu mewn cyfarfodydd ar y cyd gyda sefydliadau allanol.
- Nododd aelod ei fod yn synnu nad oes cyfieithu ar Teams gan fod Microsoft yn gwmni byd-eang a holwyd a oes rheswm pam nad yw'n cael ei gynnig.
- Gofynnwyd a oes gan Gyngor Gwynedd le i fynnu bod darpariaeth a chyfleuster cyfieithu fel bod mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfarfodydd.
- Holwyd os daeth unrhyw ateb o'r llythyr a ysgrifennwyd at Microsoft.
- Croesawyd y trafodaethau efo'r adrannau, gan ei fod yn gyfle da iddynt hunan-arfarnu am sefyllfa'r iaith Gymraeg wrth lunio eu hadroddiadau. Ategodd bod heriau adrannol yn cael eu hamlygu wrth iddynt adrodd yn ôl i'r Pwyllgor iaith.
- Gofynnwyd a yw'n amser i edrych ar flaenoriaethau'r Pwyllgor iaith ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid:

- Nad oes llawer o Gymraeg o fewn y cyfarfodydd gyda swyddogion ar draws Cymru. Fodd bynnag o fewn cyfarfodydd cyhoeddus mae cyfleuster cyfieithu ar gael bob tro.
- Bod Microsoft wedi canolbwyntio ar gyfieithu mecanyddol a heb rannu eu sianel sain yn Teams yn ddwy i alluogi cyfieithu ar y pryd fel mae Zoom wedi ei wneud. Ategodd bod Microsoft yn y broses o newid hyn.
- Nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod y mater cyfieithu ar y pryd yn cael ei drafod yn yr adroddiad sicrwydd Comisiynydd Y Gymraeg sy'n atodol i'r agenda heddiw. Ategodd bod y Comisiynydd yn pwysu ar Awdurdodau i sicrhau'r ddarpariaeth.
- Atebodd nad oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Microsoft, fodd bynnag gan fod y ddarpariaeth ar y gweill does dim pwrpas i lythyru ar y pwynt yma.
- Ategodd y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith bod llawer o gydweithio wedi bod yn fewnol ac yn rhanbarthol i ddylanwadu ar awdurdodau eraill i gynyddu eu defnydd.

- Yn ychwanegol, nododd bod y gwasanaethau cyfieithu llawer haws i'w drefnu yn rhithiol ac o ganlyniad mae gwaith y tîm cyfieithu wedi cynyddu.
- Cytunodd y byddai edrych ar flaenoriaethau yn helpu llywio cyfeiriad ar gyfer y cyfarfodydd yn y dyfodol.

#### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

### **8. CAMU YMLAEN: ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd yr adroddiad er gwybodaeth gan yr Ymgynghorydd Iaith. Nodwyd fod yr adroddiad yn adrodd ar ganfyddiadau'r Comisiynydd o'r arferion ieithyddol yn Genedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn Covid.

#### **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

### **9. PROSIECT GWARCHOD ENWAU LLEOEDD CYNHENID**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Prosiect a'r Ymgynghorydd Iaith.

Nodwyd yn ôl yn 2018, fod adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iaith, oedd yn amlinellu cyfrifoldebau a phwerau'r Cyngor yn y maes enwi lleoedd. Eglurwyd fod yr adroddiad yn ffrwyth gwaith ymchwil ac wedi ei greu mewn ymateb i bryderon gan aelodau'r Pwyllgor ar y pryd am Seisnigeiddio enwau neu fathu enwau newydd ar nodweddion daearyddol a thai. Eglurwyd o ganlyniad i rwystrau megis Covid nad oedd modd symud y prosiect yn ei flaen nes mis Medi eleni ble penodwyd Swyddog Prosiect i ddechrau ar y gwaith. Bellach, nodwyd fod y cynllun hwn yn un o flaenoriaethau gwella'r Cyngor, ac o ganlyniad wedi derbyn arian ychwanegol i wthio'r cynllun yn ei blaen.

Mynegwyd nad oedd eglurdeb ar y drefn o newid enwau ac ail enwi tai a strydoedd. Pwysleisiwyd fod hyn yn bennaf oherwydd yr angen i foderneiddio deddfau a pholisïau i sicrhau fod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth ar enwau tai a busnesau.

Eglurwyd fod cyfle gyda'r cynllun hwn i adrannau o fewn y Cyngor gydweithio gyda'i gilydd a bod cyfarfod cychwynnol i sefydlu Grŵp Prosiect wedi ei gynnal. Nodwyd y bydd modd bwrw ymlaen gweithdrefnau pendant ac sydd yn ateb yr angen am eglurdeb yn y maes. Nodwyd y bydd gwaith yn cael ei wneud gydag ysgolion a'r cyhoedd i ennyn diddordeb hirdymor i'r cynllun.

Adnabuwyd fod lle i gydweithio efo Cyngorau Cymuned a Chynghorau Tref i weld camau maent wedi ei wneud yn flaenrol neu beth sydd angen ei wneud yn y cymunedau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi ymhellach-

- Holwyd pa mor hawdd oedd hi i gysylltu â chyfathrebu efo busnesau a chymdeithasau tai. Nodwyd eu bod yn y broses o ddatblygu ffurflen wybodaeth i fusnesau a chymdeithasau tai fydd yn rhoi gwybodaeth glir o'r broses o enwi tai a busnesau. Mynegwyd nad oedd gan y Cyngor lawer o ddylanwad yn y maes y trydydd sector ond nodwyd awydd i ddatblygu perthynas o fewn y maes a drwy hyn y gallu i ddylanwadu ymhellach.
- Tynnwyd sylw at lwyddiant mae Cyngor Plwyf Llanystumdwy wedi cael i roi



arwyddion enwau ar bontydd a ger afonydd o fewn eu hardal, a gofynnwyd a oes modd datblygu'r cynllun gyda'r adran Amgylchedd. Cytunwyd fod angen trafodaeth gyda'r adran a bod angen parhau gyda chynlluniau o'r math hwn.

- Gofynnwyd pa rôl sydd gan Gynghorwyr i gefnogi'r cynllun hwn, nodwyd y bydd cyfarfodydd cyson yn cael ei gynnal gyda'r Cynghorwyr ac y bydd diweddariadau yn cael ei rannu. Nodwyd y bydd hyn yn gyfle i Gynghorwyr i herio perfformiad y cynllun ynghyd a rhannu eu syniadau hwythau.

## **PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3:20pm

---

**CADEIRYDD**

<b>CYFARFOD</b>	PWYLLGOR IAITH
<b>DYDDIAD</b>	25 Ionawr 2022
<b>TEITL</b>	Adroddiad ar weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd gan yr Adran Addysg
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd
<b>AWDUR</b>	Debbie Anne Williams Jones, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg

### 1. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad Polisi Iaith y Cyngor a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio drwy holl waith yr Adran ac ysgolion, a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau iaith, meithrin hyder a hybu'r Gymraeg, yn ogystal â chydabod rhai heriau sydd yn ein hwynebu mewn rhai meysydd penodol.

Rydych eisoes yn ymwybodol o'r gwaith manwl sydd wedi ei gyflawni gennym dros y flwyddyn ddiwethaf yn paratoi ar gyfer cynllun 10 mlynedd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Mae cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y ddogfen CSGA drafft newydd ddod i ben cyn y Nadolig, a byddwn yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan addasu'r CSGA fel y gwelwn orau cyn ei gyflwyno am sêl bendith y Cabinet a Llywodraeth Cymru, er mwyn iddo ddod yn ddogfen weithredol erbyn Medi 2022. Wrth gwrs, mae'r CSGA yn greiddiol i'r modd yr ydym yn cynllunio ym maes addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd, gan gynnwys defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, hyrwyddo manteision y Gymraeg a dwyieithrwydd, yn ogystal â chefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg. Gwelir perthynas agos felly, rhwng yr adroddiad hwn a'r CSGA.

### 2. YMATEB YR ADRAN ADDYSG I GYNLLUN HYBU'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD

1.	Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?
	1. IAITH Y TEULU a) Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol

Mae'r Adran Addysg yn cydweithio gyda'r Adran Plant a Theuluoedd yn y maes Blynyddoedd Cynnar. Yn unol â'r hyn a nodir yn y CSGA, sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, gan sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

Ardal	Nifer Cylchoedd Meithrin	Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg	
Arfon	28	834	99.3%
Dwyfor	18	301	100%
Meirionnydd	19	346	100%

Yn ein CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gydag un ysgol gynradd ym Mangor er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin yn Arfon sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.

**b) Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.**

Mae adnoddau ar fanteision dwyieithrwydd wedi eu rhannu gydag ysgolion ac ar gael ar Hwb Siarter Iaith at ddefnydd pawb.

**2. IAITH DYSGU**

**a) Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd**

Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddysgwyr y sir, ym mhob un o'n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae'r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2018-19, bu i 98.5% o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**b) Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol sef 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn sgil pandemig Covid-19, nid oes data ar gael ar gyfer 2019-20 a 2020-21, felly data 2018-19 yw'r data mwyaf cyfredol sydd gennym o safbwynt dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall, fel y dengys y tabl isod:

2018-19	Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (laith Gyntaf)	84.5%
2018-19	Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro)	78.8%
2018-19	Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg laith Gyntaf (asesiadau athro)	86.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg laith Gyntaf (asesiadau athro)	91.9%
2018-19	Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail laith (asesiadau athro)	77.1%

Yn yr un modd, dengys y tabl isod ddata 2018-19 mewn perthynas â rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

2018/19	Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.	78.1%
2018/19	Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.	64.2%
2018/19	Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg laith Gyntaf	70.7%

**c) Ymateb i effaith y pandemig ar y Gymraeg**

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi casglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ein plant a'n pobl ifanc. Mae'r dystiolaeth o'r holiaduron yn dangos mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir, ac mae pob ysgol wedi mynd ati i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa. Mae'r Cydlynnydd Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cydlynnydd Siarter Iaith wedi trefnu cyfarfod dilynol gyda phob ysgol i drafod yr adroddiad a hwyluso unrhyw gefnogaeth all fod ei hangen arnynt, boed hynny drwy swyddogion yr Awdurdod, y Cydlynwyr Iaith neu GwE. Mae bwriad ail-gyflwyno'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn mesur effaith unrhyw weithredu. Mae'r Cydlynnydd Siarter Iaith a'r Cydlynnydd Strategaeth Iaith uwchradd bellach yn cefnogi rhai ysgolion unigol i weithredu eu cynlluniau i ddatblygu sgiliau llafaredd a chodi hyder dysgwyr yn y Gymraeg.

Hefyd, mae cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn galluogi ysgolion i gyd-gynllunio ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chydlynwyr iaith y sir er mwyn sicrhau bod cynlluniau clwstwr Grant y Gymraeg ymhob dalgylch yn ymateb i'r anghenion a amlygwyd, megis codi hyder a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr yn y Gymraeg a amlygwyd yn sgil y pandemig. .

**d) Canolfannau iaith**

Yn sgil y pandemig bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar newydd-ddyfodiaid, ac mae'r arfer o ddysgu cyfunol, sef sesiynau wyneb yn wyneb a dysgu o bell yn parhau'n rhan allweddol o ddarpariaeth y Canolfannau Iaith gyda'r ysgolion. I ategu'r ffordd newydd hwn o gefnogi newydd-ddyfodiaid, ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Gobeithir y bydd y gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023. Hefyd, cawsom gadarnhad yn ddiweddar fod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais grant o £154,000 i wireddu dau brosiect i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi i adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru a'r Strategaeth Addysg Ddigidol, ynghyd ag arfogi ymarferwyr ysgolion Gwynedd yn egwyddorion ac arferion trochi iaith.

**3. IAITH GWAITH A GWASANAETHAU**

**a) Gwasanaethau Cymraeg**

Yr ydym yn falch o fedru adrodd bod holl wasanaethau'r Adran Addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**b) Dynodiadau iaith**

Mae 96.2% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Mae Tîm Rheoli'r Adran wedi ymrwymo i gefnogi staff sydd angen dysgu neu loywi iaith i fynychu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i wneud hynny. Mae egwyddorion a gweithdrefnau'r Dynodiadau Iaith hefyd wedi'u cynnwys yn Neilliant 7 o'r CSGA.

Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau gofynion ieithyddol (Dynodiadau iaith) swyddi ar draws holl adrannau'r Cyngor (gan gynnwys ysgolion), mae'r Swyddogion Addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Adnoddau Dynol, Swyddogion Democratiaeth ac Iaith, a Swyddogion Dysgu a Datblygu ar y gwaith o bennu ein disgwyliadau o ran gofynion ieithyddol ar gyfer penodi gweithlu ein hysgolion. Mae Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion yn nodi disgwyliadau gofynion ieithyddol yr Adran Addysg yn glir i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwranddo a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu. Rydym wedi mynd ati i addasu Swydd Ddisgrifiadau, Manylion Person, Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ein hysgolion i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y Dynodiadau Iaith. O ganlyniad, wrth benodi i'r gweithlu addysg, disgwylir i'r Dynodiad Iaith gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â disgwyliadau'r Adran Addysg.

**c) Hunanasesiad Iaith Gymraeg**

Mae 75.9% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) wedi cwblhau hunanasesiad iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 24.1% o staff canolog yr Adran Addysg heb gwblhau'r hunanasesiad, ac mae'r dasg o sicrhau bod staff cyfredol a staff newydd yn cwblhau'r hunanasesiad yn waith parhaus.

**d) Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg**

Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith gweithlu ein hysgolion uwchradd er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir. Ar sail data'r Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg diweddar, rydym hefyd yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol.

Yn ein Cynllun Busnes sy'n cyd-fynd gyda'n CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gyda rhai ysgolion penodol er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin fydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, a chynnydd yn y % o ddisgyblion uwchradd fydd yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn y Gymraeg.

**e) Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel**

Prif nod Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ysgolion yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisiau hyn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.
- bod y Gymraeg yn cael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwranddo a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.

**4. IAITH Y GYMUNED****a) Siarter Iaith / Strategaeth Iaith Uwchradd:**

- Cefnogi ysgolion i weithredu prif flaenoriaethau'r Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Pob disgybl cynradd ac uwchradd yn llenwi'r Gwe Iaith er mwyn cael gosod gwaelodlin. Ail-ymweld â'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn cael profi effaith unrhyw weithredu.
- Canlyniadau Holiaduron Sgiliau'r Gymraeg wedi eu rhaedru gyda'r ysgolion a chynlluniau gweithredu wedi eu llunio ar y cyd gyda'r ysgolion mewn ymateb i'r canfyddiadau.

**b) Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg:**

- Rydym wedi ail-ddiffinio rolau a rhaglenni gwaith cydlynwyr iaith pob dalgylch yng Ngwynedd i sicrhau eu bod yn ymateb i ddeilliannau CGSA Gwynedd.
- Mae pob ysgol ym mhob dalgylch yng Ngwynedd wedi llunio'u cynlluniau clwstwr ar gyfer Y Gymraeg gan ymateb ac anelu i gyflawni deilliant 3 a 5 o'r CSGA. Ar ôl derbyn grant Y Gymraeg ym mis Rhagfyr mae'r ysgolion yn mynd ati i roi pob cynllun ar waith.
- Cydlynnydd Siarter a Strategaeth Iaith Uwchradd yn gwirio cynlluniau clwstwr Grant y Gymraeg i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda deilliannau'r CSGA, yn cryfhau'r cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd, ac yn ymateb i anghenion lleol fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Gwynedd gael defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

### c) **Moderneiddio Addysg**

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gynnal asesiad o'r effaith fyddai'r cynnig/cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, y gymuned ac ar gydraddoldeb. Er mwyn gwneud asesiad cynhwysfawr o effaith unrhyw gynig arfaethedig, fel rhan o'r broses ymgynghori, mae'r awdurdod yn cynnal yr asesiadau effaith canlynol:

- Asesiad effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad effaith ieithyddol
- Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant, ac
- Asesiad Cydraddoldeb

Yn 2021, cynhaliwyd y broses hon wrth i'r awdurdod adolygu dyfodol Ysgol Abersoch yn sgil nifer o heriau a oedd yn wynebu'r ysgol. Bydd yr Adran Addysg yn gweithio'n draws-adrannol, gyda hunaniaith, yr Adran Economi a Chymuned, ynghyd â'r gymuned leol i hybu'r Gymraeg yn gymunedol ym mhentref Abersoch.

## 1. **YMCHWIL A THECHNOLEG**

**a) Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes.**

**b) Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.**

Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn. Mae digon o *ipads* wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau



	<p>o ddysgu digidol ar draws y sectorau. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.</p> <p>Fe fydd pob dyfais yn cael eu gosod i fod yn Gymraeg yn gyntaf lle bod modd gwneud hynny. Bydd yn agos i 10,000 o ddyfeisiadau yn gwneud defnydd o Windows ac Office 365 drwy'r Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal mae'r strategaeth yn gosod uchelgais hir dymor i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i swyddi gwerth uchel yn y maes digidol.</p>
<b>2.</b>	<p><b><i>Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</i></b></p> <p>Mae'r adran yn cynnwys gofynion iaith ar bob cytundeb trydydd parti a chaiff bob cytundeb ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr. Darperir nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan amrywiol adrannau'r Cyngor ar gyfer ein hysgolion megis cynnal a chadw adeiladau gan yr Adran Tai ac Eiddo, cynnal tiroedd gan yr Adran Amgylchedd, a chefnogaeth fusnes a gweinyddiaeth i'r ysgolion cynradd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Fusnes Ysgolion.</p> <p>Mae gan y Gwasanaeth ADY a Ch gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Therapi iaith a Lleferydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r cytundeb yma ar gyfer darpariaeth Therapyddion iaith a Lleferydd sydd yn cefnogi dysgwyr o fewn Ysgolion Prif Lif Gwynedd a Môn. Mae'n cael ei fonitro ar lefelau gwahanol (rheolaethol a gweithredol) er mwyn adrodd i'r Bwrdd Rheoli ADY a Ch. O fewn y gytundeb yma mae gofyn i'r gwasanaeth ddarparu yn ddwyieithog ar gyfer yr ysgolion, ond gall hyn fod yn heriol iawn o ran recriwtio Therapyddion dwyieithog ac ymateb i'r angen yn amserol. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau o gwmpas hyn.</p>
<b>3.</b>	<p><b><i>Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</i></b></p> <p><b>Recriwtio</b> Mae problemau recriwtio athrawon uwchradd hyfedr yn y Gymraeg mewn pynciau penodol mewn rhai ardaloedd o'r sir yn her anferthol ac yn fater sy'n peri pryder i'r Adran a'r ysgolion a effeithir.</p> <p>Mae gan y gwasanaeth ADY a Ch anawsterau recriwtio gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn meysydd arbenigol megis seicolegwyr addysg a chwyselwyr, a gwyddwn nad yw'r garfan bresennol sydd yn cymhwyso ar y cwrs i ddod yn seicolegwyr addysg er enghraifft yn debygol o arwain at ragor o seicolegwyr addysg i Wynedd. Ar hyn o bryd, mae seicolegwyr addysg yr Adran yn darparu gwasanaeth gyda llai o adnoddau. Er mwyn</p>

ymateb yn rhagweithiol i'r sefyllfa yma, rydym yn codi'r materion hyn mewn trafodaethau ADY yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r gwasanaeth Arlwygo a Glanhau wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae heriau staffio yng nghyd-destun salwch tymor hir, effeithiau Covid ac anawsterau recriwtio yn effeithio'n ddyddiol ar y gwasanaeth yma, ac mae heriau i sicrhau gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi manteisio ar gynllun Kickstart, Llywodraeth Cymru i gynnig lleoliadau gwaith o fis Ionawr ymlaen ar gyfer pobl ifanc oedran 16-24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir. Fel rhan o becyn penodi staff rydym yn gofyn i bob aelod o staff y gwasanaeth Arlwygo a Glanhau gwblhau holiadur asesiad iaith er mwyn gweld eu lefel o ddealltwriaeth yn yr iaith ac os oes angen cymorth arnynt i wella ei sgiliau. Bydd y gwasanaeth yn cydweithio gyda Dysgu a Datblygu i ganfod darpariaeth addas i wella sgiliau iaith y staff.

Ar hyn o bryd, ceir rhai enghreifftiau o staff y gwasanaeth yn dewis dilyn unedau hunan-astudio ar lein i wella eu sgiliau Cymraeg.

Rydym hefyd yn ymwybodol o anawsterau recriwtio yn yr Uned Gyfreithiol yn y Cyngor, ac yn ddiweddar mae hynny wedi golygu mai gwasanaeth cyfreithiol cyfrwng Saesneg yn unig sydd ar gael i'r Adran Addysg, ac mae hynny'n peri rhwystrau ymarferol i'r Adran o ran rhannu dogfennaeth, a gallu trafod materion cyfreithiol yn Gymraeg.

### **Cyfarfodydd**

Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phartneriaid yn gallu bod yn heriol mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae darpariaeth cyfieithu ar Zoom yn hawdd ac yn ddi-drafferth iawn i'r rhai sydd ei angen, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd er enghraifft wedi medru ei ddefnyddio hyd at yn ddiweddar iawn.

### **Apiau**

Schoolcomms

Mae'r Adran Addysg wedi bod yn galw ers blynyddoedd bellach i'r ap Schoolscomms fod ar gael yn Gymraeg, er mwyn hwyluso gallu rhieni i ddefnyddio'r ap i dalu am ginio ysgol. Nid ydym wedi gallu hyrwyddo defnydd o'r ap ymysg rhieni gan nad oedd ar gael yn Gymraeg. Erbyn hyn, a gyda chymorth gennym ni i gyfieithu'r ap, mae'r ap Schoolscomms bellach ar gael yn Gymraeg.

4. ***Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?***

Fel y gwyddoch mae'r CSGA yn ddogfen statudol 10 mlynedd ar gyfer yr Awdurdod Lleol, ac un o'r rhwystrau o ran ein gallu i weithredu ein gweledigaeth a'n hymrwymadau yn ein CSGA newydd, yw nad yw'r Awdurdod yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i'n cynorthwyo i weithredu a chyflawni'r deilliannau a ddymunir.

### **3. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	25 Ionawr 2022
<b>TEITL</b>	Cynllun Hybu'r Gymraeg – Cefnogaeth Gorfforaethol
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Hysbysu'r Aelodau o ymdrechion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
<b>AWDUR</b>	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
<b>GWEITHREDIAD</b>	Derbyn yr adroddiad a chynnig sylwadau

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hon yn cael ei chyflwyno er mwyn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r Cyngor.
- 1.2 Mae gweithrediad Polisi Iaith y Cyngor yn ffurfio rhan greiddiol o waith dydd i ddydd gwasanaethau'r Adran gyda'r Gymraeg yn unig iaith gyfathrebu holl weithgaredd mewnol yr Adran ac hefyd mewn cyfran helaeth o'n gwaith gydag adrannau eraill, y cyhoedd yn ogystal a sefydliadau ac asiantaethau allanol.
- 1.3 Mae'r Adran yn arwain ar y blaenoriaeth corfforaethol o fewn Cynllun y Cyngor sy'n ymwneud a "Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor" gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith o fewn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn gyrru ein hymdrechion yn y cyswllt hwnnw. Byddwch yn ymwybodol, fel aelodau'r Pwyllgor Iaith, o gynnydd y gwaith hwnnw a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei gael ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adrannau.
- 1.4 O fewn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, gellir cadarnhau bod gofynion ieithyddol pob swydd wedi'i hadolygu fel rhan o'r Cynllun hwn a bod 92% o staff wedi cwblhau hunan-asesiad o'u gallu i gyrraedd y gofynion hynny (byddai hyn yn ganran uwch oni bai am drosiant staff uwch na'r arfer o fewn dau Wasanaeth yn ystod yr Hydref). O'r staff sydd wedi cwblhau hunan-asesiad, mae 99% ohonynt yn cyrraedd, neu'n mynd tu hwnt i'r gofyn ieithyddol ar gyfer cyflawni dyletswyddau eu swydd.
- 1.5 Mae ymwneud y Cynllun ei hun efo'r Adran wedi dod i ben erbyn hyn gan bod derbyniad i'r Adran ddynodi'r gofynion gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifenedig ar gyfer pob swydd a bod asesiad o anghenion unrhyw aelod o staff yn erbyn y gofynion hynny yn ffurfio rhan barhaus o werthusiad a pherfformiad personol. Er hynny, mae nifer o staff yr Adran yn parhau i fod yn awyddus i finiogi eu sgiliau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac yn manteisio ar y cyfleon i loywi iaith a ddarperir gan y Cyngor.
- 1.6 Mae'r Uned Iaith (sy'n cynnwys Hunaniaith) wedi'i lleoli o fewn y Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith yn yr Adran ac mae'r swyddogion o fewn yr Uned yn flaenllaw yn gyrru amcanion Cynllun Hybu'r Gymraeg. Mae'r Adran Cefnogaeth

Gorfforaethol yn arwain ar naw o'r blaenoriaethau corfforaethol yn y Cynllun Cyngor presennol ac mae tri o'r blaenoriaethau hynny yn ymwneud yn benodol ag amcanion o fewn Cynllun Hybu'r Gymraeg h.y.

- Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p>	<p><b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b></p> <p><b>i)</b> Mae'n waith parhaus i <b>Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor</b>, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.</p> <p>Mae'r gwaith o gasglu hunanasesiadau gallu ieithyddol gan staff, i raddau helaeth, yn hunangynhaliol erbyn hyn. Mae hyn oherwydd ein bod wedi rhoi systemau a threfniadau ar waith, er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yr holiadur ar gael i'w gwblhau trwy'r system Hunanwasanaeth</li> <li>• neges yn cael ei hanfon at staff sy'n cael eu penodi trwy'r drefn ganolog</li> <li>• yr holiadur yn rhan o broses anwytho staff gofal.</li> </ul> <p>Tra bod y prif sylw hyd yma wedi'i roi i gasglu'r hunanasesiadau, y teimlad bellach yw y dylid rhoi mwy o sylw i'r cam dilynol, sef ymateb i anghenion ac ehangu'r ddarpariaeth. Yn ystod 2022/23 bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymateb i anghenion y staff nad ydynt yn cyrraedd holl ddynodiadau iaith eu swyddi yn llawn</li> <li>• ymateb i anghenion yr aelodau eraill o staff sydd wedi nodi yr hoffent hyfforddiant iaith</li> <li>• marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yn fwy cyson</li> <li>• ehangu'r ddarpariaeth fewnol o hyfforddiant iaith.</li> </ul> <p>Bydd y gwaith o gasglu hunanasesiadau hefyd yn parhau ond yn canolbwyntio ar :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• barhau â'r ymgyrch bresennol gyda staff yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol</li> <li>• barhau i weithio gyda chartrefi gofal</li> <li>• ddatblygu'r gwaith o gydweithio gyda staff gofal cymunedol.</li> </ul> <p><b>ii)</b> Mae'r <b>Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus</b> yn brosiect sy'n ceisio cyfarch yr anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd, sy'n golygu nad yw hi bob amser yn</p>

<p>bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.</p> <p>Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn yn amau bod llai yn dewis defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg na sydd o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir. Drwy gydweithio efo partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, 'rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyried sut y gallwn annog mwy o bobl i ymwneud â ni yn y Gymraeg, ac i fod yn gyfforddus wrth wneud hynny ar sail casgliadau'r astudiaeth yn y lle cyntaf</li> <li>• gweithredu cynlluniau ar sail yr ystyriaethau hynny.</li> </ul> <p><b>iii) Fel y gwyddoch, mae'r gwaith yn ymwneud ag Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig</b> wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth gwella o'r newydd yn yr adolygiad diweddaraf o Gynllun y Cyngor ac hynny er mwyn;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg</li> <li>• sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sydd yn cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol</li> <li>• ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid</li> </ul> <p>Penodwyd swyddog prosiect i weithredu ar lunio rhaglen waith a chyflawni ar y cerrig milltir allweddol. Mae'r cerrig milltir yn gyfuniad o faterion o fewn rheolaeth y Cyngor (egwyddorion y gall y Cyngor eu pasio) a materion sydd angen sylw pellach drwy gyd-weithio gydag eraill. Mae'r swyddog newydd wedi cychwyn yn ei waith ers dechrau mis Medi.</p> <p>Yn y lle cyntaf mae'r sylw wedi bod ar faes enwau tai ac ar sefydlu rhestr o enwau safonol ar gyfer y Cyngor. Mae nifer o gamau pendant eisoes wedi'u cymryd, yn benodol wrth gyd-weithio gyda'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu. Mae'r system gyfrifiadurol wedi'i haddasu sydd am arwain at ofyn safonol awtomatig ar gyfer enw Cymraeg ar eiddo newydd, newid ein ffordd o gasglu data am geisiadau i newid enwau tai yn ogystal a gwella rhannu gwybodaeth rhwng y ddau Wasanaeth.</p> <p>Yn sgîl trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor, mae bwlch wedi ei adnabod rhwng y ddelwedd gyhoeddus o newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'r data sydd yn cael ei gasglu gan y Cyngor ar gyfer newid enwau tai. Mae gwaith ar droed i fapio newidiadau ar lefel leol er mwyn mesur gwir faint y broblem. I gyd-fynd â'r cyfan mae cymalau newydd wedi eu drafftio ar gyfer y Polisi Iaith, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ac arddel enwau Cymraeg.</p>
---

	<p><b>iv)</b> Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod yna gydnabyddiaeth o sefyllfa ieithyddol arbennig Gwynedd a chefnidir sefydlu <b>Hunaniaith</b> fel uned strategol o fewn Cyngor Gwynedd, mae'r brif ffynhonnell incwm – Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru – wedi canolbwyntio'n bennaf ar ariannu gweithgaredd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn unol â Thema 2 y strategaeth iaith genedlaethol, Gymraeg 2050, 'Cynyddu'r Defnydd o Gymraeg'. Mae pwyslais y cynllun grant hwnnw ar weithredu ar lawr gwlad i hyrwyddo a hwyluso cynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg.</p> <p>Atgyfnerthir y ffocws cymunedol hwnnw gan raglen waith cyfredol Hunaniaith a'r blaenoriaethau gweithredol a nodir dan amodau'r grant presennol, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dylanwadu ar iaith y teulu</li> <li>• cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned</li> <li>• cynnig gweithgareddau i ystod eang o drigolion, gan gynnwys grŵp oedran 16-24 oed</li> <li>• datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol trigolion Gwynedd</li> </ul> <p>Fodd bynnag, gyda cydweithrediad Cadeirydd Grwp Strategol Hunaniaith ac ar gais y Cabinet, mae swyddogion yr Adran wedi bod yn ystyried sut y gellir cryfhau rôl Hunaniaith yn y gymuned a'i allu i ddenu arian grant ychwanegol i'r dyfodol. Mae hyn wedi arwain at benderfyniad gan Cabinet y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 30 o Dachwedd, 2021, i fuddsoddi £203,880 er mwyn cyflogi pen swyddog i arwain datblygiad pellach Hunaniaith am gyfnod o 4 blynedd gyda'r gofyn penodol iddo/iddi ganolbwyntio ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol.</p>
<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p> <p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Prin yw'r cytundebau y mae'r Adran yn eu gosod yng nghyswllt gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt ond mae'r arweiniad arbenigol ar faterion caffael yn cael ei gynnig yn gorfforaethol gan ein Gwasanaeth Caffael sy'n cynghori yr Unedau Rheolaeth Categori a leolir o fewn yr adrannau Amgylchedd, Oedolion Iechyd a Llesiant a Prifffyrdd a Bwrdeistrefol. Yr Unedau hynny sy'n uniongyrchol gyfrifol am wahodd, gosod a monitro cytundebau gyda'r gwasanaethau perthnasol ar draws y Cyngor.</li> <li>• Bydd y Pwyllgor eisoes wedi derbyn manylion ynglyn a sut y mae'r Gymraeg yn cael ei phriod le o fewn cytundebau a osodir</li> </ul>

	<p>gan y Cyngor, o’r adroddiadau a gyflwynwyd gan yr adrannau ple lleolir yr unedau rheolaeth categori, ond byddwn yn dymuno tynnu sylw at gynllun peilot yr ydym yn bresennol ymgymryd ag o yng nghyswllt cyflwyno “<b>gwerth cymdeithasol</b>” fel maen prawf ychwanegol pan yn ystyried gosod contractau i’r dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydym yn treialu’r fethodoleg newydd yma i asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol, ochr yn ochr a’r meini prawf hanesyddol o bris ac ansawdd ac hynny efo tri cytundeb sydd angen eu hadnewyddu yn bresennol. Mae’r broses gaffael ar gyfer gosod cytundeb Taliadau Uniongyrchol Gwasanaeth Oedolion eisoes wedi’i chwblhau ac mae’r buddion ychwanegol a ddeilliodd o ddefnyddio’r fethodoleg newydd wedi cynnwys ymrwymadau gan y cwmni buddugol i ddarparu swyddi i bobl leol, profiadau gwaith, hyfforddiant, cefnogi elusennau lleol a datblygu sgiliau Cymraeg ei gweithlu.</li> <li>Mae treialu’r fethodoleg newydd yn parhau, gyda’r ail dendr peilot wedi’i gwblhau ym maes cynnal a chadw adeiladau. Nid yw ymateb y farchnad wedi bod cystal â’r peilot gyntaf ac mae hyn wedi amlygu’r angen i wneud gwaith pellach i annog a chefnogi’r farchnad. Fel rhan olaf o’r gwaith treialu’r fethodoleg byddwn yn cynnal un peilot arall yng nghyswllt cytundeb darparu peiriannau ar gyfer gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda golwg wedyn i ddod i gasgliad terfynol ynglyn a chyflwyno’r fethodoleg newydd i drefniadau caffael sefydlog y Cyngor.</li> </ul>
<p><u>Gweithredu’n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni’n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau’r Gymraeg?</p>	<p><b>3. Oes yna unrhyw rwystrau i’ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae’r Gwasanaeth Cefnogol, sydd yn darparu gwasanaethau gweinyddol i adrannau, ym maes cyflogaeth a cyllid yn bennaf, yn gyfrifol am gydgorio trefniadau <b>gwirio cofnodion troseddol</b> y staff hynny sy’n cyflawni gwaith ym meysydd plant ac oedolion. Mae’r system newydd ar-lein gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer cyflawni’r gwaith hwn yn uniaith Saesneg yn bresennol ond yn ddiweddar, yn dilyn pwysau a roddwyd gan y Cyngor hwn a’r Comisiynydd Iaith, mae gwaith ar y gweill i sicrhau y bydd y ddarpariaeth ar gael yn y Gymraeg o fewn y misoedd nesaf. Mae’r Cyngor hefyd wedi gofyn i’r cwmni sicrhau bod modd i’r system, ar ei newydd wedd, adnabod dewis iaith defnyddwyr i’r dyfodol.</li> <li>Mae yna ddiffyg darpariaeth hyfforddiant dwyieithog o ansawdd ar gyfer ein <b>Prentisiaethau</b>, yn enwedig felly ar gyfer prentisiaethau uwch. Byddwch yn ymwybodol bod y Cynllun</li> </ul>



lleol o fewn y Cyngor yn un hynod lwyddiannus, yn darparu cyfleon o brofiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o'r Cynllun, mae'r swyddogion o fewn y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad wedi dwyn perswad ac annog darparwyr hyfforddi i gynnig y rhan fwyaf o'u darpariaeth perthnasol trwy gyfrwng y Gymraeg. I'r perwyl yma, rydym wedi cyflwyno'r "Datganiad o Uchelgais yr Iaith Gymraeg" ar gyfer prentisiaethau Cyngor Gwynedd sy'n amlinellu'r disgwyliadau ieithyddol sydd ar y prentis, y Cyngor a'r darparwr hyfforddiant. Mae pob darparwr hyfforddi a ddefnyddir a'r 30 prentis hyd yma wedi arwyddo'r datganiad yn ymrwymo i'r disgwyliadau hynny.

- Mae'r Ymgynghorydd Iaith wedi bod yn cydweithio gyda'r Ymgynghorydd Cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn diwethaf ar gyfer datblygu templed o'r newydd ar gyfer **asesu effaith cydraddoldeb** o fewn y Cyngor. Mae'r asesiad yn awr yn cynnwys ystyriaeth o'r gofynion iaith ac mae'r swyddogion o fewn yr Adran hon wedi llwyddo i sicrhau bod yr elfen iaith wedi ei gynnwys yn y templed asesu effaith ar draws y rhanbarth (sef rhywbeth na fyddai wedi digwydd oni bai am fewnbwn swyddogion Gwynedd).
- Nid oes modd yn bresennol i unigolion **gofrestru genedigaethau** yn ddwyieithog os yw'r plentyn yn cael ei eni yn Lloegr. Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Cofrestru yma yng Ngwynedd yn cyd-weithio efo Cyngor Sir Gaerfyrddin a'r Swyddfa Gofrestru Cyffredinol ar gyfer Cymru a Lloegr i unioni hynny gan hefyd bwysu am yr hawl i weinyddu cofrestriad yn y Gymraeg yn unig i'r dyfodol.
- Mae'r cyfnod clo, ers mis Mawrth, 2020, wedi cyflwyno nifer fawr o heriau. Un o'r rhai hynny, i'r Cyngor yma ac awdurdodau lleol eraill, oedd y gallu i gynnal ein trefniadau democrataidd. Rydym wedi hen ymgylfarwyddo bellach efo cyfarfodydd rhithiol ac, o fewn y Cyngor yma, wedi gallu cymryd yn ganiataol bod y **ddarpariaeth cyfieithu** ar gael fel rhan o'r trefniadau. Defnyddir llwyfan "Zoom" i gyflawni'r gofyn hwnnw yn bresennol er mai dewis lwyfan y Cyngor ar gyfer ei gyfarfodydd mewnol ydi "Microsoft Teams". Nid oes modd darparu'r Gwasanaeth Cyfieithu yn effeithiol ar Teams yn bresennol ond mae addewidion gan Microsoft y bydd hynny yn derbyn sylw, eto yn dilyn pwysau a roddwyd yn ystod 2020 ar y cwmni gan y Cyngor hwn a nifer o sefydliadau eraill. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig nodi yma bod Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad yn darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar Zoom ac wedi hyfforddi a tywys staff mewn sefydliadau cyhoeddus eraill i ymgylfarwyddo a darparu'r un gwasanaeth. Yn hyn o beth, byddwn yn dymuno llongyfarch yr Arweinydd Tim

	<p>Cyfieithu ac aelodau yr Uned am eu gwaith yn hyrwyddo a sicrhau nad oedd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn llithro oherwydd yr amgylchiadau a wynebwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae swyddogion y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn darparu <b>hyfforddiant i reolwyr sy'n arwain at gymhwyster ffurfiol y Sefydliad ar gyfer Iechyd a Diogelwch (IOSH)</b>. Mae hwn yn gymhwyster y disgwylir i bob rheolwr ar draws y Cyngor feddu arno. Er bod y swyddogion wedi cynnal y sesiynau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant yn fewnol yn y Cyngor, roedd yn rhaid i'r deunyddiau swyddogol (a sylweddol) gael eu darparu trwy'r Saesneg. Yn dilyn cyfres o geisiadau i gael yr hawl i gyfieithu'r deunyddiau (a sawl gwrthodiad) mae'r ddogfenaeth yn awr ar gael yn dilyn cytundeb Bwrdd Rheoli IOSH i ganiatau hynny.</li> </ul>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Un o'r heriau mwyaf un sydd wedi amlygu ei hun dros y ddwy flynedd diwethaf yw yr un sy'n ymwneud a'n gallu i recriwtio a phenodi i swyddi allweddol ar draws y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol ynghyd a'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn arwain ar y blaenoriaeth gwella corfforaethol sy'n ymwneud a "<b>Cynllunio'r Gweithlu</b>" ac er bod llwyddiannau i'w hadrodd yng nghyswllt y gwaith yma yn barod, mae'r her i sicrhau parhad ein gwasanaethau, ac hynny yn newis iaith ein trethdalwyr, yn un real. Mae'r gallu i weithio'n rhithiol (yn aml o'r cartref) efo'r potensial i roi llawer mwy o ddewis cyflogaeth i unigolion lleol a fyddai cyn hyn efallai wedi rhoi y pwyslais ar allu byw yn agos i'w man gwaith. Ar y llaw arall, mae yma gyfle hefyd i ddenu unigolion i weithio i'r Cyngor ple nad oedd hynny yn ystyriaeth cyn y pandemig. Yn hyn o beth, byddwn yn anelu i adeiladu ar y sylfaen cadarn sydd ganddom eisoes trwy'r cynllun prentisiaethau, cynllun rheolwyr ac arbenigwyr yfory yn ogystal a'r rhaglen datblygu potensial mewnol sydd ganddom tra'n cryfhau ein cysylltiadau a'r cydweithio rhyngddom a gwasanaethau cyflogaeth o fewn y Cyngor ac yn ehangach er mwyn sefydlu'r Cyngor yn gadarn fel cyflogwr o ddewis.</li> <li>• Darparwyd enghreifftiau yn yr adroddiad i'r hyn y bu i ni ei ddatblygu a dylanwadu arno yng nghyd-destun gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac hynny trwy gydweithrediad sefydliadau eraill yn aml. Bydd y buddsoddiad diweddar i geisio ymestyn gwaith <b>Hunaniaith</b> o fewn ein cymunedau a cheisio</li> </ul>

	<p>ennyn mwy o gyfranogiad cymunedol i'r gwaith hwnnw yn allweddol tra bydd ymdrechion yr Is-Grwp o fewn y <b>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r sefydliadau cyhoeddus yn hynod bwysig.</p>
--	--

# Eitem 7

CYFARFOD	<b>Pwyllgor Iaith</b>
DYDDIAD	<b>25 Ionawr, 2022</b>
TEITL	<b>Adroddiad yr Adran Tai ac Eiddo ar Weithrediad y Polisi Iaith a Gweithgareddau Hybu'r Gymraeg</b>
PWRPAS	<b>Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg</b>
AWDUR	<b>Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo</b>

## 1. Cefndir a chyd-destun

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i'r Polisi Iaith.
- 1.2. Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau rheng-flaen (megis Digartrefedd, Ffoaduriaid, Cyflenwad Tai), corfforaethol (megis Stadau, Diogelwch Eiddo, Swyddfeydd a Glanhau) a masnachol (Difa Pla).
- 1.3. Golyga hyn bod yr Adran yn ymdrin â nifer o gwsmeriaid a budd-ddeiliaid, sy'n cynnwys staff Cyngor Gwynedd, busnesau a thrigolion Gwynedd.
- 1.4. Yn sgil hynny, credwn ei bod yn hynod bwysig gallu cynnig ein gwasanaethau yn ddwyieithog, a pharchu dewis iaith y cwsmer.
- 1.5. Dangosa natur sensitif rhai o'r achosion a wyneba'r adran bwysigrwydd gweithredu yn y Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth.
- 1.6. Er enghraifft, pan fo'n staff yn ymdrin ag unigolion sy'n wynebu bod yn ddigartref, sydd eisoes mewn sefyllfa o straen eithriadol, mae ymdrin â'r unigolion hyn yn sensitif yn allweddol. Rhan amlwg a phwysig o hynny yw siarad gyda'r unigolyn yn eu dewis iaith.
- 1.7. Mae staff yr Uned Grantiau Tai yn ymdrin ag oedolion a phlant anabl wrth gynnig cymorth iddynt allu byw yn eu cartref trwy osod cyfarpar megis rampiau, neu wneud addasiadau i dai megis estyniadau neu ystafelloedd gwlyb. Mae'n eithriadol o bwysig gallu cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg wrth ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn hefyd.
- 1.8. Mae'r Adran hefyd yn ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth sy'n dod i Wunedd o'r tu hwnt i Gymru a Phrydain, ac sy'n siarad ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg.

- 1.9. Mae'r Uned Ailsefydlu Ffoaduriaid yn gweithio'n agos i helpu ffoaduriaid a ddaw i Gymru i geisio lloches. Yn gyffredinol, mae'r unigolion hyn yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrlon i'r gymdeithas sy'n eu derbyn, gyda nifer yn dysgu Cymraeg wrth ymsefydlu ac yn plethu i'w cymunedau newydd yn dda.
- 1.10. Yn sgil hyn, rydym yn aml yn cyflogi cyfieithwyr er mwyn gallu cyfathrebu gyda ffoaduriaid o Syria ac Afghanistan.

## **2. Sgiliau iaith Gymraeg ein gweithlu**

- 2.1. Rhoddwn bwys mawr ar sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Pholisi iaith y Cyngor, a'n gallu i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth, boed fewnol neu allanol.
- 2.2. Yn ôl yr Adroddiad Chwarterol Dynodiadau iaith diweddaraf, mae **95%** o'n staff yn cyrraedd neu basio Dynodiadau iaith eu swyddi, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Cyngor (92%).
- 2.3. O'r 95% hynny, mae gan **95%** ohonynt sgiliau uwch na'r gofynion iaith sydd ynghlwm â'u swyddi.
- 2.4. Hyd at 22/12/2021, mae 67% o staff wedi cwblhau hunanasesiad, ac rydym yn parhau i annog rhagor o staff i'w gwblhau er mwyn cael y darlun llawnaf posib o sefyllfa sgiliau iaith ein gweithlu.

## **3. Ymateb i'r materion yr hoffai'r aelodau eu trafod**

- 3.1 Ymatebir i'r materion ar y tudalennau nesaf

*Cwestiwn 1: Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?*

**Cyffredinol**

Mae'r Adran yn rhoi pwys mawr ar weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg, nid yn unig oherwydd ein teimlad o falchder a pharch tuag at yr iaith a'r hyn y mae'n ei olygu i'r Cyngor, ond hefyd oherwydd ein bod yn ymdrin ag unigolion

- Polisi Gosod – person lleol
- Partneriaeth Tai Gwynedd – cynnwys holl gymdeithasau tai, cyfarfodydd yn Gymraeg gyda chyfieithydd

Gohebu gydag asiantaethau Cymreig yn Gymraeg

**Digartrefedd**

Wrth ymateb i sefyllfaoedd ble mae unedau teuluol yn cael eu gwneud yn ddigartref, mae'r Uned yn gwneud eu gorau i gadw'r teulu hwnnw gyda'i gilydd wrth ei adleoli. Ar wahân i fanteision amlwg i les y teulu wrth eu cadw ynghyd, mae'n diogelu'r iaith fel iaith y teulu, ac yn lleihau'r risg y bydd unigolion yn colli'r iaith wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu teulu.

Nid gweithio'n ymatebol i sefyllfaoedd o ddigartrefedd yn unig mae'r Uned Digartrefedd – mae rhan allweddol o'u gwaith yn canolbwyntio ar atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd. Mewn rhai achosion fel hyn, golyga ladmeru rhwng aelodau o deulu er mwyn cadw'r teulu hwnnw dan yr un to, a all arwain at ddiogelu aelwyd Gymraeg a fyddai wedi'i cholli fel arall.

**Grantiau i addasu tai i bobl anabl**

Mae nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn tai sy'n anaddas ar gyfer eu hanghenion. Gall hynny olygu nad yw trigolyn yn gallu dringo'r grisiau i'r llawr cyntaf, neu ei chael hi'n anodd ymolchi oherwydd nad yw ystafell ymolchi bresennol yr adeilad yn addas i bwrpas. Mae'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn tywys yr unigolion trwy'r broses ar y cyd â Therapyddion Galwedigaethol, ac yn sicrhau bod rhaglen waith yn ei lle sy'n cyfateb i anghenion yr unigolyn. Trwy'r addasiadau hyn, mae posib i bobl Gwynedd aros yn eu cartref a thrwy hynny gadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymunedau.

Mae'n braf nodi bod yr Uned yn cael ei gweithredu yn gwbl ddwyieithog, gyda phob swyddog yn gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg. Mae canran uchel iawn o'r cyfathrebu yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg (os nad oes angen/cais am gyfathrebu yn Saesneg yn unig yn ein cyrraedd) ac mae'r Therapyddion Galwedigaethol yr ydym yn cydweithio â hwy yn siaradwyr Cymraeg hefyd, ynghyd â'r ffurflenni cyfeirio.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n rhaglenni gwaith a'n dogfennau technegol yn Saesneg gan mai dyna iaith arferol dogfennau a manylebau adeiladu yn y maes adeiladu/pensaernïol. Serch hynny, mae'r gallu gennym i ddarparu'r rhain drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn ôl yr angen.

## Prosiectau'r [Cynllun Gweithredu Tai](#)

Mae Cynllun Gweithredu Tai yr Adran, Cynllun o 33 o brosiectau gwerth £77 miliwn dros gyfnod o 6 blynedd, yn amlinellu ein hamcanion wrth fynd i'r afael ag anghenion tai pobl Gwynedd. Bydd y Cynllun yn manteisio nifer o feysydd allweddol, ac un o'r rheiny yw'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg. Bydd prosiectau megis y rhai a enwir isod yn rhoi cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael mynediad at gartref addas a fforddiadwy:

Cynllun	Disgrifiad	Gwybodaeth bellach
<b>Datblygu tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai.</b>	Datblygu ein tai ein hunain a fydd yn cynyddu'r stoc o dai yn y cymunedau hynny lle mae'r galw yn bodoli ar gyfer prynu neu rentu ar rent canolraddol.	Rydym yn bwriadu gosod amod fel bod rhaid i unrhyw berchennog fod yn berson lleol.
<b>Prynu tai preifat</b>	Defnyddio stoc barod o dai fyddai'n addas ar gyfer cartrefu pobl leol, tra'n ystyried prynu tai a'u gosod i bobl leol ar rent canolraddol.	Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth osod y tai hyn
<b>Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn-“dai Cyngor”</b>	Ystyried bod yn fwy heriol gyda cheisiadau i dynnu 'amod person lleol' oddi ar gyn-dai Cyngor a glynu at bwrpas gwreiddiol cymalau o'r fath, Ni fyddwn yn codi'r amod oni bai fod amgylchiadau eithriadol o anarferol.	Bwriedir mabwysiadu polisi mewnol sy'n gwarchod yr amod hon i'r dyfodol
<b>Plotiau hunan-adeiladu</b>	Manteisio ar gynllun Llywodraeth Cymru i baratoi safleoedd yn barod ar gyfer datblygu tai drwy fodel "hunan adeiladu".	
<b>Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag</b>	Ymestyn y cynllun blaenorol, sydd wedi helpu tua 70 o brynwyr tro cyntaf i adnewyddu tai gweigion a thrwy hynny wedi dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd i bobl leol.	
<b>Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf</b>	Ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag (prif neu unig gartref) gan roi blwyddyn ychwanegol i brynwyr tro cyntaf gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ.	
<b>Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol</b>	Defnyddio rhai safleoedd datblygu sydd eisoes yn ein perchnogaeth i ddechrau ar ein cynlluniau mewn rhai ardaloedd lle mae'r angen gan drigolion lleol yn glir. Ond os am barhau wedi hynny, byddwn angen bod yn barod i ymateb yn gyflym i brynu tir adeiladu pan fydd y cyfle'n codi yn y lleoliadau cywir.	

Nodwyd yn ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun hwn y byddai'n cael effaith bositif ar y Gymraeg:

*“Amcangyfrifir fod 60% o brynwyr wedi eu prisio allan o'r farchnad leol. Gall cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy, yn ogystal â'r pecynnau cefnogaeth arfaethedig o ran benthyciadau a rhyddhad trethi, olygu fod mwy o bobl leol yn dewis / gallu aros yng Ngwynedd.”*

**Ymgynghoriadau ar y gweill a “Pheilot Dwyfor”**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad yn ddiweddar, sef [Ymgynghoriad ar Gymunedau Tai Cymraeg](#) ac [Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gwyliau Tymor Byr](#). Bydd yr Adran Amgylchedd yn paratoi ymateb ar ran y Cyngor ar gyfer yr ymgynghoriad ar faterion Cynllunio, a ninnau yn paratoi ymateb i'r Ymgynghoriad Cymunedau Tai Cymraeg. Bydd yr ymgynghoriadau yn cau ar 22 Chwefror, 2022 ac rydym wrthi'n casglu ymatebion gan wahanol adrannau'r Cyngor ar hyn o bryd.

Ym mis Tachwedd, 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu bwriad i gynnal cynllun peilot i fynd i'r afael â'r broblem dai yn ardal Dwyfor. Mae'r Cyngor wedi bod yn arwain y gad yn y maes hwn yn y blynyddoedd diwethaf, ac rydym fel Adran yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar, ac yn edrych ymlaen at gyfrannu sut bynnag y gallwn i'r cynllun hwn. Rydym ar hyn o bryd yn disgwyl rhagor o wybodaeth gan y Llywodraeth cyn gallu symud ymlaen.

### **Systemau a Thechnoleg**

Mae'r Adran yn gwneud defnydd helaeth iawn o systemau, gan gynnwys systemau i ddal a dadansoddi gwybodaeth am eiddo'r Cyngor megis cynnal a chadw, Clefyd y Lleng Filwyr a defnydd a gwariant ynni; ac yn y maes tai i gadw cofrestrau tai a gwybodaeth am sefyllfa ddiartrefedd y Sir, a systemau y mae'r Uned Gorfodaeth Tai a'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn ei defnyddio i hwyluso eu gwaith hwythau.

Rydym hefyd wedi datblygu ein systemau ein hunain yn ddiweddar yn yr Uned Diartrefedd a'r Uned Cynnal a Chadw. Mae'r naill a'r llall wedi'i datblygu ar y cyd â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth mewnol, ac ar gael yn gyfan gwbl Gymraeg. Credwn fod hynny'n bwysig gan ei fod yn caniatáu i ni gynnal ein gweithrediadau mewnol yn Gymraeg heb orfod cyfieithu, dehongli neu rannu gwybodaeth yn Saesneg.

Er bod nifer o'r systemau eraill yn cael eu darparu yn Saesneg (oherwydd iaith y cyflenwyr), mae'r gallu gennym i greu neu addasu elfennau o fewn rhai o'r systemau hyn, a chreu a chynhyrchu ein hadroddiadau ein hunain, a wneir naill ai yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:</b>	<b><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></b>
---	--

*Cwestiwn 2: Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?*

Mae'r Adran yn ymwneud â nifer o gytundebau a chontractwyr yn sgil gwaith a wneir ar eiddo'r Cyngor yn ogystal ag yn y maes tai.

### **Gwasanaethau Eiddo**

Ar y cyfan, gosodir gwaith yn allanol ar gytundeb gan y Gwasanaethau Datblygu Eiddo, Cynnal a Chadw a'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai. Er enghraifft, bydd y Gwasanaeth Datblygu Eiddo'n gosod tendrau ar gyfer gwaith adeiladu o bob math, a'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw yn chwilio am gwmnïau arbenigol i osod cytundebau ar gyfer gwaith megis larymau tân y Cyngor. Wrth wneud hyn, defnyddiwn brofiad helaeth ein swyddogion ynghyd ag arbenigedd y Tîm Categori Corfforaethol i sicrhau ein bod yn cwblhau'r gwaith i'r safon briodol.



Teimlwn fod arfer dda yn cael ei amlygu pan osodir contractau lle ymdrechir i sicrhau bod safon y gwasanaeth Gymraeg yn cael ei sicrhau a'i gynnal. Caiff copi o'r Polisi Iaith ei gynnwys yn y dogfennau tendro, a gofynnir i bob ymgeisydd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth yw'r gofynion (megis os oes angen iddynt ddefnyddio arwyddion, bod y rheiny'n ddwyieithog), ond hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg i Gyngor Gwynedd.

Yn ogystal â hynny, mewn tendrau gwerth uchel, gofynnir i gwmnïau ddarparu Ymateb Buddion Cymdeithasol sy'n cwmpasu'r Ddeddf Llesiant 2015. Golyga hyn ofyn i ddarpar contractwyr ystyried sut gallant gyfrannu at y gymdeithas yn lleol, trwy gamau megis creu swyddi'n lleol neu gynnig cyfleoedd profiad gwaith. Sgil-effaith hynny, wrth gwrs, yw creu cyfleoedd i bobl Gwynedd aros yn eu hardal, a thrwy hynny gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith waith a byw yn y Sir.

### **Contractau Adeiladu**

Gan fod rheidrwydd i hysbysebu contractau adeiladu yn ehangach na ffiniau Gwynedd, ac er mwyn mynediad i'r farchnad ehangach, mae hysbysebion am dendrau yn cael eu cyhoeddi yn y Saesneg.

I gcontractau mwy, lle mae rheidrwydd i hysbysebu yn genedlaethol, mae rheidrwydd cyfreithiol i hysbysebu yn y Saesneg (neu un o ieithoedd Swyddogol yr U.E.) Bu i ni arbrofi drwy roi teitl a disgrifiad byr o'r gwaith yn ddwyieithog, ond roedd hyn yn achosi peth dryswch gan mai dim ond y Gymraeg oedd yn dangos gyntaf ar y sistemau, ac roedd nifer o contractwyr yn methu neu'n anwybyddu'r hysbyseb.

Mae holl ddogfennaeth y contract yn y Saesneg. Mae hyn yn cyd-fynd â:

- Y ddogfen contract safonol sydd yn cael ei defnyddio
- Mwyafrif y contractwyr sy'n cael eu cyflogi yn gweithio drwy gyfrwng y Saesneg
- Saesneg yw'r iaith dechnegol yn y byd adeiladu
- Gall cyfieithu dogfennaeth dechnegol / contractau arwain at gam ddehongli ystyron

Mae cymalau yn ein cytundebau yn sicrhau bod unrhyw arwyddion, byrddau gwybodaeth, neu gylchlythyrau y mae'r contractwyr yn eu defnyddio yn sgil y prosiect yn gorfod bod yn ddwyieithog. Ni chaniateir arwyddion uniaith Saesneg. Os oes ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r prosiect, mae disgwyl i'r contractwyr ei gynnal yn y Gymraeg/dwyieithog neu, os nad yw hynny'n bosib, ddarparu cynrychiolwyr sydd yn siarad Cymraeg, neu ddarparu cyfieithydd.

### **Ymgynghorwyr allanol adeiladu/datblygu eiddo**

Yn gyffredinol y mae'r amodau'r un peth ag i'r contractwyr (uchod) dogfennaeth, contractau safonol ac ati. Os oes angen darparu dyluniadau, neu adroddiadau byr ar brosiect er pwrpas ymgynghoriad gyda'r cyhoedd, yna mae disgwyl iddynt fod ar gael yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Yr unig

eithriad i hynny yw dogfennaeth hynod dechnegol sydd at ddefnydd y dylunwyr yn unig. Mae disgwyl i unrhyw ymgynghorydd a all gymryd rhan mewn ymgynghoriad gyda rhan ddeiliaid neu'r cyhoedd fod â siaradwr Cymraeg, neu ddarparu cyfleusterau cyfieithu.

### **Gwasanaethau Tai: Grantiau a Phrosiectau Tai**

Mae'r Uned Grantiau a Phrosiectau Tai yn delio â chontractwyr yn aml wrth gomisiynu gwaith ar ran rhai o unigolion mwyaf bregus y Sir. Contractwyr lleol sy'n ymgymryd y gwaith adeiladol, gyda'r mwyafrif helaeth ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn bwysig iawn i ni, gan fod y gallu i gyfathrebu gydag ymgeiswyr (yn enwedig yr henoed) yn y Gymraeg yn gallu cynnig cysur a sicrwydd i bobl sy'n aml iawn mewn sefyllfaoedd anodd a thrist iawn.

Mae'r Gwasanaeth Stadau yn gyfrifol am holl eiddo'r Cyngor, ac yn ddiweddar wedi penderfynu allanoli rheolaeth ein Stad Fanddaliadau. Wrth ystyried y broses hon, nodwyd y gofyn i'r gwasanaeth gael ei ddarparu'n ddwyieithog er hwyluso perthynas gyda'n tenantiaid - y rhan helaeth ohonynt yn Gymraeg iaith gyntaf.

<b>Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:</b>	<b><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></b>
---	--

*Westiwn 3: Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?*

On gyffredinol, nid oes rhwystrau i'n gallu i gynnig gwasanaeth llawn yn Gymraeg. Mae'n gweinyddiaeth fewnol yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i gynnig cymorth i'n defnyddwyr gwasanaeth, nifer ohonynt yn rhai o unigolion mwyaf bregus ein cymdeithas, trwy gyfrwng eu mamiaith. Anogwn aelodau o staff sydd ychydig yn fwy dihyder yn eu sgiliau Cymraeg neu sy'n dymuno/angen gwella eu sgiliau iaith i chwilio am gyfleoedd i ddysgu/datblygu eu sgiliau (manylir ar hynny isod).

### **Cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol**

Nodwyd eisoes ein bod fel Adran yn llwyddo i gynnig ein gwasanaethau i gyd yn Gymraeg a dwyieithog, ond mae'r darlun yn wahanol iawn wrth edrych y tu allan i'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol ar y cyfan yn Saesneg, ac er bod cyfieithu ar gael mewn rhai ohonynt, ynghyd â deunydd Cymraeg ar gael, mae hynny'n gallu bod yn rhwystr pan mae'n dod i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'n defnyddwyr Gwasanaeth.

### **Sgiliau Iaith ein staff – cyrsiau Gloywi Iaith**

Yn ystod 2020 a 2021, bu 26 o staff yr Adran ar gyrsiau Gloywi Iaith yn Nant Gwrtheyrn, ac mae 3 arall wedi trefnu i fynychu dros y misoedd nesaf. Mae'n braf gweld bod aelodau o staff yr adran yn chwilio am gyfleoedd i wella a/neu gadw safon eu hiaith ac yn cymryd perchnogaeth dros hynny er budd ein defnyddwyr gwasanaeth.

Rhaid cydnabod y gall y galw sydd ar ein gwasanaethau rheng-flaen sy'n ymateb i alwadau ac ymholiadau'r cyhoedd fel y maent yn codi, er enghraifft Digartrefedd ac Opsiynau Tai, olygu ei bod yn anodd i rai aelodau o staff ymrwymo i gyrsiau dysgu neu ddatblygu Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro'r cyfleoedd dysgu/datblygu, dim ond golygu bod rhaid ystyried patrymau gwaith gwahanol o bryd i'w gilydd wrth gynllunio darpariaeth hyfforddi ar y cyd â'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad – rhywbeth a ddigwydd yn effeithiol bob amser.

**Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:** **Datblygu cyfleoedd newydd**

*Cwestiwn 4: Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?*

- Mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth i ddarparu llety â chefnogaeth, byddwn yn gosod amod bod rhaid i'r darparwyr gwasanaeth/cefnogaeth fod yn gallu siarad Cymraeg. Enghraifft o hyn yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Tŷ Adferiad, Porthmadog, 137 Stryd Fawr Bangor, a 35 Ffordd y Coleg, Bangor
- Wrth gyfrannu'n helaeth at brosiect 'Bwyd Da Bangor' (menter sy'n cyfuno rhaglen aelodaeth rhannu bwyd, aiddosbarthu stoc dros ben gan archfarchnadoedd gyda chaffi o ansawdd uchel sydd hefyd yn cynnig hyfforddiant) anogid i staff y caffi yn gallu cyfathrebu gyda chwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg. Teimlwn fod hyn yn enghraifft o arfer dda yn y math hwn o brosiect, ac yn rhywbeth y byddwn yn ei ailadrodd mewn cynlluniau tebyg eraill os bydd y cyfle'n codi
- Teimlwn y dylid datblygu rhagor o hyfforddiant penodol yn y Gymraeg yn y maes tai – mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant yn digwydd yn y Saesneg, ac er nad yw hynny'n rhwystro nac yn atal ein gallu i weithredu, byddai'n dda gallu derbyn yr hyfforddiant yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog o leiaf.

# Eitem 8

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>25 Ionawr 2022</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Williams</b> Ymgynghorydd Iaith
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Cyflwyno papurau'r Ymgynghoriad a gwahodd sylwadau gan yr aelodau ar gynnwys y ddogfen. Bydd yr Uned Iaith yn llunio ymateb i'r ymgynghoriad ar sail y sylwadau a dderbynnir. Dogfennau'r ymgynghoriad i weld drwy'r linc isod:  <a href="#">Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg   LLYW.CYMRU</a>

## 1. Cefndir

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddogfen sydd yn nodi eu bwriadau ar gyfer mynd i'r afael a'r sefyllfa dai yng nghadarnleoedd y Gymraeg.
- 1.2 Mae'n adeiladu ar ganfyddiadau gwaith a wnaed yng Ngwynedd a Mon ac hefyd ar ganfyddiadau adroddiad Dr Simon Brooks a gyhoeddwyd yn 2021, *Ail Gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru*.
- 1.3 Mae hefyd yn fodd o gyflawni'r ymrwymïadau sydd wedi eu gwneud yn y Cytundeb Cydweithredu rhwng y Llywodraeth a Phlaid Cymru a gyhoeddwy'r ddiwedd y llynedd ac fel rhan o Raglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru - [Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU](#)
- 1.4 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwmo i bedwar cam allweddol sy'n ymwneud â fforddiadwyedd:
  - Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
  - Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
  - Cadw'r cynnydd o 1% yn y Dreth Trafodiadau Tir a godir ar bryniannau ail gartrefi.
  - Archwilio a datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol – a allai gynnwys cyfraddau lleol i'r Dreth Trafodiadau Tir – i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.

1.5 Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi nifer o ymyraethau posib, dan y teitlau canlynol:

- Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned
- Busnesau cymdeithasol: y sector twristiaeth
- Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai
- Llysgenhadon Diwylliannol
- Comisiwn ar gymunedau Cymraeg
- Ardaloedd o ddiddordeb a sensitifrwydd sylweddol
- Tai, Gwaith ac Iaith
- Ymyriadau Presennol Llywodraeth Cymru
  - Rhaglen Arfor
  - Bwrdd Crwn Economi a'r Iaith
- Enwau Lleoedd

## **2. Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Mae nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn o dan y penawdau uchod, ac i'w gweld ar y ffurflen ymateb sydd i'w gweld ar wefan y Llywodraeth [Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg | LLYW.CYMRU](#)

## **3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?**

Gofynnir i'r aelodau ddarllen dogfennau'r ymgynghoriad a chynnig unrhyw farn a sylwadau fyddai yn helpu'r Ymgynghorwyr Iaith lunio ymateb i'r ymgynghoriad.



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Ymgynghoriad ar y  
Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2021  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022

# Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg sy'n cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi.

## Sut i ymateb

Dylid ebostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **22 Chwefror 2022** hwyraf.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [lyw.cymru/ymgyngoriadau](http://lyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Doc Fictoria  
Caernarfon  
Gwynedd  
LL55 1TH

<https://lyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

ebost:

[UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales](mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

## **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.



## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## Rhagair y Gweinidog

Mae niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers cryn dipyn o flynyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, ceir ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai leol gan y rheiny sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr. Rydym ni'n benderfynol o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn aml, lleolir ail gartrefi yn y cymunedau Cymraeg ac o'u cwmpas, a gall hyn arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau sy'n greiddiol i ffyniant hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach eraill, yn effeithio ar fforddiadwyedd ac argaeledd tai i bobl leol ac yn codi prisiau yn y farchnad dai leol, weithiau yn ddramatig

Nid yw'n anodd gweld y gall patrwm lle bydd pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn benodol yn gadael eu cymunedau er mwyn dod o hyd i dai fforddiadwy mewn ardaloedd eraill yn gallu bygwth dyfodol yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gadael.

Ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom ni groesawu adroddiad Dr Simon Brooks, [‘Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru’](#)<sup>1</sup>. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yng Ngwynedd ac Ynys Môn, sef [‘Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau’](#)<sup>2</sup>, ac mae'n ystyried effaith bosibl niferoedd anghymesur o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar gymunedau, yn enwedig yng nghyd-destun y Gymraeg. Mae'r argymhellion wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol fel sylfaen i'r camau y byddwn yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael yn gadarn â'r heriau hyn.

Mae sicrhau y gall pobl leol fforddio byw yn y cymunedau lle cawsant eu magu, a bod y Gymraeg yn ffynnu fel iaith gymunedol yn yr ardaloedd hynny, yn nodau strategol allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae ein [Rhaglen Lywodraethu](#)<sup>3</sup> yn cynnwys nifer o ymrwymadau yn hyn o beth, ac yn arbennig yr addewid i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel ychwanegol i'w rhentu ledled Cymru a chreu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Ar 6 Gorffennaf, amlinellodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, [ein dull gweithredu tair haen uchelgeisiol](#)<sup>4</sup>, sy'n cynnwys pecyn o ymyraethau. Er mwyn mynd i'r afael â fforddiadwyedd, byddwn yn targedu ac yn teilwra ein rhaglenni tai presennol ym mhob deiliadaeth. Wrth wneud hyn, byddwn yn defnyddio ein profiad o gyflwyno rhaglenni megis Prynu Cartref, ac yn hyrwyddo atebion creadigol yr ydym wedi eu gweld mewn sawl rhan o Gymru. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau i'r system a'r fframwaith rheoleiddio. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n codi yn sgil ail gartrefi, ein nod yw gwella'r ffordd y caiff llety gwyliau tymor byr a chartrefi ychwanegol eu rheoli. Credwn y dylai ein systemau trethu cenedlaethol a lleol gael eu dylunio i sicrhau bod perchenogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad ariannol teg ac effeithiol i'r cymunedau y maent yn prynu tai ynddynt.

Ochr yn ochr â hyn, yn y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol i'r gymuned, bydd ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn chwarae rhan hollbwysig yn ein hymateb. Byddwn yn datblygu pecyn o ymyraethau a fydd yn gweithio gyda'n dull gweithredu ar y cyd er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg. Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn cydnabod pwysigrwydd y cymunedau hyn fel manau sy'n hwyluso defnyddio'r iaith fel

<sup>1</sup> [Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> <https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s27926/Atodiad%202.pdf?LLL=1>

<sup>3</sup> [Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU](#)

<sup>4</sup> [Cyfarfod Llawn 06/07/2021 - Senedd Cymru \(cynulliad.cymru\)](#)

rhan naturiol o fywyd bob dydd. Felly, mae angen inni lunio cynlluniau economaidd, cymunedol ac ieithyddol yn ofalus er mwyn galluogi cymunedau Cymraeg i fod yn hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol. Rhaid sicrhau bod modd i bobl, yn enwedig ein pobl ifanc, allu fforddio byw a gweithio yn y cymunedau Cymraeg hyn, a gwneud cyfraniad gwerthfawr atynt.

Mae hwn yn faes cymhleth, a bydd gan bobl amrywiaeth eang o safbwyntiau ar sut ddylai Llywodraeth Cymru ymateb. Rydym felly yn annog pawb yn y cymunedau yr effeithir arnynt a thu hwnt ledled Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, p'un a ydynt yn byw, yn rhedeg busnesau, yn berchen ar eiddo, neu'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau hyn i'n cynorthwyo i ffurfio ein Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## Y Cyd-destun

### Fforddiadwyedd, Ail Gartrefi a'r Gymraeg

Mae cryn dipyn o sylw wedi bod ledled Cymru, y DU a thu hwnt, i'r anawsterau y gall pobl – yn enwedig pobl ifanc – eu cael wrth geisio prynu neu rentu tai fforddiadwy o ansawdd. Yn aml, mae'r anawsterau hynny ynghlwm wrth faterion sy'n ymwneud ag ail gartrefi. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd ein gwasanaethau cymunedol yn ogystal â'r ffaith nad yw cartrefi gwag yn ychwanegu dim at gymunedau.

Mae ail gartrefi yn cyfrannu at yr her o ran fforddiadwyedd ac ynghlwm wrthi, ond ni ellir dweud mai ail gartrefi yw'r *unig* 'broblem'. Wrth geisio datrys materion ynghylch fforddiadwyedd, nid ydym, drwy wneud hynny, am greu heriau o'r newydd.

Rydym yn cynnig ffordd o weithio sy'n ceisio mynd i'r afael â materion craidd fforddiadwyedd mewn cymunedau gwledig ac ar hyd yr arfordir, drwy gyfrwng gweithredu gennym ni yn Llywodraeth Cymru a chan yr awdurdodau lleol. Mae prif elfennau'r cynllun fel a ganlyn:

- **Cymorth:** targedu a theilwra ein rhaglenni tai presennol, ym mhob deiliadaeth, yn ogystal â datblygu a threialu dulliau newydd o weithredu.
- **Y system a'r fframwaith rheoleiddio:** rheoli llety gwyliau tymor byr ac ail gartrefi ychwanegol yn well, ynghyd â rheoli safonau llety gwyliau tymor byr sydd eisoes yn bodoli a rhai ychwanegol, drwy newid y system a'r fframwaith rheoleiddio.
- **Cyfraniad tecach:** ceisio gwneud yn siŵr bod y systemau trethu cenedlaethol a lleol yn sicrhau y gall perchenogion ail gartrefi gyfrannu'n deg ac yn effeithiol at y cymunedau y maent yn prynu tai ynddynt.

At hynny, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i bedwar cam allweddol sy'n ymwneud â fforddiadwyedd:

- Adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
- Creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.
- Cadw'r cynnydd o 1% yn y Dreth Trafodiadau Tir a godir ar bryniannau ail gartrefi.
- Archwilio a datblygu mesurau treth, cynllunio a thair effeithiol – a allai gynnwys cyfraddau lleol i'r Dreth Trafodiadau Tir – i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.

Ym mis Awst, gwnaethom lansio ymgynghoriad ar newidiadau posibl i drethi lleol a allai helpu awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr. Rydym hefyd wedi comisiynu darn o waith yn edrych ar sefydlu cynllun cofrestru neu drwyddedu statudol ar gyfer gweithredwyr llety gwyliau yng Nghymru. I atgyfnerthu ein sail dystiolaeth, rydym wedi comisiynu [astudiaeth ddesg](#)<sup>5</sup> o dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ymyraethau a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid sy'n berthnasol i'r materion sy'n gysylltiedig ag ail gartrefi. Rydym hefyd wrthi'n ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r system sy'n rheoli datblygiadau a pholisi cynllunio yng Nghymru er mwyn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol i reoli ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Byddwn yn mynd ati i dreialu nifer o'r ymyraethau a nodir fel rhan o'n dull gweithredu tair haen ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn yr ardaloedd pilot a thu hwnt er mwyn

---

<sup>5</sup> [Ymchwil i ddatblygu sylfaen dystiolaeth ar ail gartrefi | LLYW.CYMRU](#)

meithrin gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg, a chreu sail dystiolaeth gryfach yn seiliedig ar hynny.

Mae heriau o ran fforddiadwyedd yn bodoli ar hyd a lled Cymru. Ond mae llawer o'r trafod wedi canolbwyntio ar yr effaith ar gadarnleoedd y Gymraeg, yn enwedig mewn rhai cymunedau gwledig ac arfordirol. Yn y cymunedau hyn, ac mewn rhai tebyg, mae cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol yn un gwahaniaeth allweddol a dyna pam ein bod yn datblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, sy'n adeiladu ar y ffyrdd o weithio a gynigir uchod ac yn eu hategu.

## Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae paratoi Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn ein *Rhaglen Lywodraethu 2021-2026*. Mae'r cynllun drafft hwn yn ystyried sut y gallai'r ymyraethau cenedlaethol gael eu cefnogi gan fentrau eraill er mwyn gweithio gyda'i gilydd fel pecyn cytbwys i ddiogelu cymunedau Cymraeg ac i sicrhau eu bod yn gymunedau cynaliadwy a hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle gall y Gymraeg ffynnu.

Yn ei adroddiad, a gomisiynwyd gan Academi Hywel Teifi, '*Ail Gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru*,' darparodd Dr Simon Brooks ddatdarsoddiad cytbwys o effeithiau posibl niferoedd mawr o ail gartrefi ar ein cymunedau. Amlinellodd hefyd yr heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg a'r angen i gynnal y cymunedau hynny.

Mae Dr Brooks hefyd yn cydnabod gwerth yr economi ymwelwyr yng Nghymru ac rydym ninnau'n cydnabod y cyfraniad pwysig y gall perchenogion ail gartrefi a busnesau llety gwyliau tymor byr ei wneud i'r economi honno, ac i elfennau eraill o'n heconomïau lleol. Mae Cymru wastad wedi cal ei hadnabod fel gwlad groesawgar. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr effaith y gall niferoedd uwch o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ei chael ar farchnadoedd tai lleol.

Mae gan dargedau *Cymraeg 2050*<sup>6</sup> i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg naratif clir ynghylch cyfeiriad polisi iaith. Mae hefyd yn cynnig cyd-destun i'r nod llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>7</sup>, sef *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, mae angen inni gydweithio ar draws y llywodraeth a hynny ar lefel leol a chenedlaethol. Bydd gofyn mynd i'r afael yn holistaidd â materion polisi sydd o bwys strategol i'r iaith, sef:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith a siaredir mewn cymunedau yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin.
- Mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion ddysgu ac i'r rhai sydd eisoes yn dysgu neu sydd eisoes yn siarad yr iaith, ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

Heb ddiogelu cymunedau daearyddol sy'n ieithyddol hyfyw yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin, bydd llai o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol pob dydd. Mae hynny yn ei dro yn bygwth siglo sylfeini'r gwaith o greu siaradwyr newydd ledled Cymru. Felly mae angen inni ganolbwyntio ar gynnal gwead cymdeithasol y cymunedau Cymraeg hyn ac osgoi sefyllfa lle nad yw'r ddysgl yn wastad lle bydd yr iaith gymunedol yn newid ar gyfradd uwch o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Ar 23 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd fod ardal Dwyfor wedi cael ei dewis fel lleoliad i dreialu a gwerthuso nifer o ymyraethau a'u heffaith cronus. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio y tu hwnt i'r ardal beilot i ddatblygu a rhannu'r hyn a ddysgir o bob cwr o Gymru. Mae Dwyfor yn un o gadarnleoedd y Gymraeg – yma, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd beunyddiol.

<sup>6</sup> [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)

<sup>7</sup> [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 \(legislation.gov.uk/cy/\)](https://legislation.gov.uk/cy/)

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried sut y gallai'r pecyn cyfan o ymyraethau, gan gynnwys y rheiny y byddwn yn eu treialu yn Nwyfor, gael eu hategu ar lefel gymunedol er mwyn cefnogi a diogelu'r Gymraeg, tra hefyd yn osgoi unrhyw ganlyniadau annisgwyl. Mae'n ceisio barn ar ba fentrau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl, yn enwedig pobl ifanc, fforddio byw a gweithio yn ein cymunedau Cymraeg. Mae cyfiawnder cymdeithasol wrth wraidd ein hymyraethau arfaethedig. Mae'n bosibl y byddai rhai o'r ymyraethau a gynnigir yn yr ymgynghoriad hwn yn elwa ar gael eu cynnwys ym mheilot Dwyfor.

## **Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg: ymyraethau arfaethedig**

### **Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned**

Yn ystod hydref 2020 cafodd adolygiad o effeithiau COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith. Tynnodd canfyddiadau'r arolwg, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, sylw at y cyfleoedd newydd y gwnaeth sawl grŵp achub arnynt i sicrhau bod modd i'w gweithgareddau barhau. Ond, mae hefyd yn nodi'r heriau a oedd yn wynebu rhai sefydliadau yn sgil y cyfyngiadau.

Mae grwpiau cymunedol Cymraeg yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi defnydd dyddiol o'r Gymraeg, ond rydym yn cydnabod bod COVID-19 wedi effeithio ar fusnesau, gwasanaethau hanfodol a sefydliadau cymunedol eraill yng nghefn gwlad ac ar hyd yr arfordir.

Gwnaeth Is-grŵp Cymunedau Cymraeg y Cyngor Partneriaeth, a oedd yn gyfrifol am arwain yr adolygiad, argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru. Un o'r argymhellion oedd cefnogi'r gwaith o sefydlu mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol cymunedol.

Mae cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol eisoes yn rhan bwysig o'r dirwedd gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Rydym wedi hen arfer â chymunedau yn dod ynghyd i ddiogelu amwynderau a gwasanaethau lleol, yn ogystal ag elwa ar adnoddau naturiol sy'n dod â buddion economaidd i gymunedau lleol. Ceir enghreifftiau o fentrau cymdeithasol cymunedol: Cwmni Bro Ffestiniog, Partneriaeth Ogwen a Galeri yng Nghaernarfon, er enghraifft, yn dangos sut y gall mentrau cymdeithasol gefnogi a darparu gwasanaeth gwerthfawr i ardal leol. Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'u sefydliadau ac yn cynnig cyfleoedd gwaith o ansawdd da, sy'n cefnogi'r economi leol. Byddwn yn annog cymunedau eraill i ddilyn eu hesiampl drwy gynnig cymorth ac arweiniad er mwyn helpu i sefydlu cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol cymunedol. Bydd y Gymraeg yn rhan annatod o'r busnes cymdeithasol, a'r nod fydd mynd y tu hwnt i'r ardaloedd hynny. Roedd yr adroddiad [Marchnad Lafur Cymraeg](#)<sup>8</sup> hefyd yn cynnwys argymhellion ynghylch y cyfleoedd ar gyfer modelau mentrau cymunedol.

Nid yw tai cydweithredol yn fodel newydd o ran deiliadaeth tai. Ceir enghreifftiau helaeth ledled Ewrop ac America o sut y gall amrywiol fodelau o dai cydweithredol sicrhau bod tai fforddiadwy yn parhau i fod ar gael i'r gymuned leol. Serch hynny, mae'r mudiad yng Nghymru yn parhau ar lefel gymharol fach ar hyn o bryd.

Gall tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned helpu cymunedau, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i ddatblygu atebion wedi'u teilwra'n

---

<sup>8</sup> [Argymhellion Marchnad Lafur Cymraeg - Arsyllfa](#)

arbennig i ddiwallu eu hanghenion. Gallant arwain at greu cymunedau fforddiadwy, cydlynus a chydnerth drwy gyfrwng cartrefi sy'n eiddo i'r gymuned leol ac a arweinir gan y gymuned. Gallai'r model tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned nid yn unig ddarparu tai newydd, ond hefyd fod yn gyfrwng i brynu a datblygu eiddo o fewn y stoc dai bresennol – yn enwedig eiddo gwag neu dai nad oes fawr o alw amdanynt, a thrwy hynny, eu cyflwyno i farchnad newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cefnogaeth i grwpiau tai a arweinir gan y gymuned drwy gyfrwng y rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi ac yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned ac ymddiriedolaethau tir cymunedol fel sydd wedi'i nodi yn ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>100.0</b>

## O ble mae pobl yn symud

Roedd 72% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd. Roedd 9% wedi symud o Ynys Môn / Conwy, 11% o Loegr, ac 8% o weddill Cymru neu wledydd eraill.

Tabl 155: Cam 1 – O ble mae pobl yn symud

O lle	Nifer	%
O fewn Gwynedd	641	71.9%
Lloegr	100	11.2%
Conwy a Môn	77	8.6%
Gweddill Cymru	4	0.4%
Arall	69	7.7%
	<b>891</b>	<b>100.0%</b>



## 4. Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Crynhair isod y prif ymatebion i'r cwestiynau mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Roedd rhesymau'r ymatebwyr yn eithaf amrywiol ond nododd dros 20% mai lleoliad y tŷ newydd oedd y rheswm dros symud, gyda nifer hefyd wedi symud oherwydd eu bod eisiau tŷ mwy, eisiau tŷ eu hunain neu o'r farn bod tŷ newydd o safon uchel ac yn rhoi gwerth am arian.

Tabl 16: Rhesymau dros symud

	Nifer	%
Lleoliad y tŷ	100	20.2%
Angen tŷ mwy	40	8.1%
Eisiau eiddo ei hun / eu hunain	39	7.9%
Tŷ o safon / gwerth am arian	37	7.5%
Angen eiddo llai	32	6.5%
Wedi hoffi'r tŷ	31	6.3%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	28	5.7%
Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd	27	5.5%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	26	5.3%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefel trosedd a sŵn	24	4.9%
Addasrwydd y tŷ i anghenion personol	22	4.5%
Ar gyfer ein ymddeoliad	19	3.8%
Rhent/prisiau fforddiadwy	14	2.8%
Angen mwy o le parcio/garej	11	2.2%
Nabod y person oedd yn rhentu'r tŷ	7	1.4%
Wedi cael ein gorfodi o'r tŷ blaenorol	6	1.2%
Eisiau ail gartref	3	0.6%
Heb ateb / Ddim eisiau dweud	28	5.7%
	<b>494</b>	

*allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)*

### Pam symud i'r ardal yma?

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr wedi symud o dŷ arall yn yr un ardal. O'r gweddill, y prif reswm dros symud oedd lleoliad gwaith / bod yn agosach at waith, gyda nifer hefyd yn nodi eu bod eisiau bod yn agosach at deulu / ffrindiau neu'n agosach at gyfleusterau a chysylltiadau trafndiaeth yn yr ardal.

Tabl 17: Pam symud i'r ardal?

	Nifer	%
Byw yn yr un ardal yn barod – aros o fewn yr ardal	174	35.7%
Lleoliad gwaith / agosach at gwaith	79	16.2%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	60	12.3%
Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal	37	7.6%
Er mwyn ysgol i'r plant - safon addysgu / clybiau cyn ac ar ôl ysgol	35	7.2%
I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd brafiach	24	4.9%
I fynychu'r brifysgol	21	4.3%
Rhywle lle'n gallu fforddio prynu / rhentu	11	2.3%
Lle addas i fagu plant	6	1.2%
Llai o drosedd yn yr ardal	4	0.8%
Ardal Gymreig	4	0.8%
Arfer rhentu - wedi gallu prynu tŷ	2	0.4%
Heb ateb	31	6.4%
	<b>488</b>	

allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam dewis tŷ newydd?

Yr ateb mwyaf cyffredin oedd oherwydd nad oes gwaith ar dŷ newydd, a'r gwarant / llai o gostau cynnal ynghlwm â thŷ newydd. Nododd bron draean yr ymatebwyr nad oeddent wedi chwilio am dŷ newydd fel y cyfryw (h.y. eu bod un ai wedi'u lleoli yno gan Gymdeithas Dai ayb, mai'r lleoliad oedd yn bwysig yn hytrach na'r ffaith ei fod yn dŷ newydd, neu fod y rhent yn is). Nododd cyfran hefyd ei bod yn haws neu'n rhatach cael plot o dir i adeiladu arno yn hytrach na phrynu tŷ adeiladwyd eisoes.

Tabl 18: Pam dewis tŷ newydd?

	Nifer	%
Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd	125	31.9%
Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai	57	14.5%
Lleoliad, nid tŷ newydd oedd y prif reswm	46	11.7%
Wedi medru cael plot i adeiladu arno	35	8.9%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	25	6.4%
Tŷ y gallem fforddio	23	5.9%
Cost y rhent oedd y rheswm a dim oherwydd mai tŷ newydd oedd o	20	5.1%
Cynllun Cymorth i Brynu Cymru	20	5.1%
Heb ateb	41	10.5%
	<b>392</b>	

allan o 351 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

## Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

Ar gyfer y cwestiwn yma fe welwyd rhywfaint o wahaniaeth yn yr ymatebion, yn dibynnu ar p'run ai oedd yr ymatebydd wedi symud i'r tŷ newydd o fewn yr un ardal neu wedi symud yno o ardal arall.

O'r rhai oedd yn byw yn weddol agos i'r tŷ newydd o'r blaen, byddai tua 80% ohonynt wedi symud i dŷ arall yn yr un ardal pe bai'r tŷ newydd heb fod ar gael. Ni fyddai tua 10% wedi symud tŷ o gwbl.

Ymhlith ymatebwyr oedd wedi symud ardal wrth symud i'r tŷ newydd, roedd y darlun ychydig yn fwy cymysg gyda tua'u hanner yn nodi y byddent wedi symud i dŷ arall o fewn yr un ardal leol, ond tua 15% yn fwy hyblyg o ran ardal ac yn meddwl y byddent wedi symud i ran arall o Wynedd neu o ogledd Cymru. Dywedodd tua 15% arall na fyddent wedi symud o gwbl.

Tabl 19: Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

	Nifer
<b><i>Pobl oedd yn byw yn weddol agos i'r tŷ newydd o'r blaen:</i></b>	
Symud i dŷ arall o fewn yr un ardal leol	124
Symud i ardal arall yng Ngwynedd	6
Symud i ran arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd	4
Symud tu allan i ogledd Cymru	1
Ni fyddem wedi symud tŷ	18
Ddim yn siŵr	6
	<b>159</b>
<b><i>Pobl oedd wedi symud i'r tŷ newydd o'r tu allan i'r ardal leol:</i></b>	
Symud i dŷ arall yn yr un ardal leol	68
Symud i ardal arall yng Ngwynedd	10
Symud i ran arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd	10
Symud tu allan i ogledd Cymru	2
Heb symud (wedi aros mewn ardal arall o Wynedd)	8
Heb symud (wedi aros mewn rhan arall o ogledd Cymru, tu allan i Wynedd)	4
Heb symud (wedi aros yn rhywle tu allan i ogledd Cymru)	6
Ddim yn siŵr	14
	<b>122</b>
Heb ateb	70
	<b>351</b>

## 5. Dilyn y 'gadwyn' tai ymlaen

Lle roedd ymatebwyr 'Cam 1' uchod wedi nodi eu bod wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd, fe wnaed gwaith maes pellach wedyn gan fynd i'r tŷ hwnnw i holi cwestiynau tebyg i 'Cam 1' (ond gan eithrio'r cwestiynau oedd yn ymwneud yn benodol â'r rhesymau dros symud i dŷ newydd). Dyma 'Gam 2' yr ymchwil.

Wedyn os oedd preswylwyr tai 'Cam 2' wedi symud yno o rywle arall yng Ngwynedd, aed i'r tŷ hwnnw wedyn fel 'Cam 3', ac yn y blaen.

### Ystadegau Cam 2

Bu i 44 tŷ ymateb allan o 136 y bu i ni holi (32%), gyda 120 o unigolion yn byw yn y tai yma.

Tabl 20: Cam 2 – O ble mae pobl yn symud

O lle	Nifer unigolion	%
O fewn Gwynedd	86	71.7%
Lloegr	19	15.8%
Conwy a Môn	8	6.7%
Gweddill Cymru	2	1.7%
Arall	5	4.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>120</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r patrwm yn debyg iawn i ganlyniadau Cam 1 gyda 72% wedi symud o fewn Gwynedd yng Ngham 1 a Cam 2. Mae ychydig mwy wedi dod o Loegr i dai yng Ngham 2 (16%, o'i gymharu â 11% yng Ngham 1).

Tabl 21: Cam 2: Gallu siarad Cymraeg

Gallu siarad Cymraeg	Nifer unigolion	%
Ydi	80	66.7%
Nac ydi	39	32.5%
Heb ateb	1	0.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>120</b>	<b>100.0%</b>

Eto, mae'r patrwm yn debyg iawn o ran y canran sy'n gallu siarad Cymraeg (67% yn Cam 2, o'i gymharu â 69% yng Ngham 1).

Tabl 22: Cam 2: Iaith yr aelwyd / iaith gyntaf

Iaith y Cartref	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	18	40.9%
Saesneg	24	54.5%
Arall	1	2.3%
Heb ateb	1	2.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>44</b>	<b>100.0</b>

Eto, mae'r patrwm yn debyg iawn o ran y canran sy'n nodi mae Cymraeg yw prif iaith y cartref, gyda 41% yng Ngham 2 a Cham 1 fel ei gilydd.

### Ystadegau Cam 3

Bu i 10 tŷ ymateb allan o 22 y bu i ni holi (45%), gyda 28 o unigolion yn byw yn y tai yma.

Tabl 23: Cam 3 – O ble mae pobl yn symud

O lle	Nifer unigolion	%
O fewn Gwynedd	19	67.9%
Lloegr	1	3.6%
Conwy a Môn	4	14.3%
Heb ateb	4	14.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>28</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r patrwm yn debyg iawn i ganlyniadau Camau 1 a 2 gyda 72% wedi symud o fewn Gwynedd yng Ngham 1 a Cham 2 a 68% yng Ngham 3. Yng Ngham 3, 4% ddaeth o Loegr, sydd yn llai nag yng Ngham 1 (11%) a Cham 2 (16%).

Tabl 24: Cam 3: Gallu siarad Cymraeg

Gallu siarad Cymraeg	%
Ydi	46.4%
Nac ydi	53.6%
Heb ateb	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn Cam 3 yn gostwng i 46%, sydd yn sylweddol is na'r canran oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngham 1 (69%) a Cham 2 (67%).

Tabl 2516: Cam 3: Iaith yr aelwyd / iaith gyntaf

<b>Iaith y Cartref</b>	<b>Nifer Cartrefi</b>	<b>%</b>
Cymraeg	0	0.0%
Saesneg	9	90.0%
Arall	1	10.0%
Heb ateb	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10</b>	<b>100.0</b>

Erbyn Cam 3 nid oedd yr un o'r 10 tŷ ymatebodd wedi nodi mai Cymraeg yw prif iaith y cartref.

### Camau dilynol

Fel nodwyd ym mhennod 2 nid oeddem yn gallu dilyn y 'gadwyn' ymhellach ar ôl Cam 3; 4 cyfeiriad yng Ngwynedd oedd ar ôl ar gyfer Cam 4 ac ni chawsom ymateb o'r rheiny.

## 6. Datblygiadau o 5 tŷ neu fwy

Mae'r bennod yma yn dadansoddi ar wahân y canlyniadau ar gyfer datblygiadau 'mawr' sef 5 tŷ neu fwy (defnyddir y trothwy yma er mwyn cysondeb â'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar Gymunedau Nodedig a Chynaliadwy). Drwy hyn gellir gweld a oes gwahaniaeth o sylwedd yn y canlyniadau rhwng datblygiadau 'mawr' a datblygiadau 'bach' (llai na 4 tŷ).

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 238 (68%) ohonynt yn rhan o ddatblygiad 'mawr'. Roedd 604 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 66% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 26: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy

	Nifer Tai	Nifer Pobl	% pobl gallu siarad Cymraeg
Rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy	238	604	66%
Ddim yn rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy	113	287	74%
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>891</b>	<b>69%</b>

Prin iawn oedd y gwahaniaethau o ran lle roedd pobl yn byw cyn symud i'r tai newydd. Roedd 72% o breswylwyr datblygiadau 'mawr' wedi symud yno o fewn Gwynedd, sef yn union yr un canran ag yn y tai newydd mewn datblygiadau 'bach'. Yr un oedd y patrwm o ran y rhai symudodd o Lloegr (10% yn y datblygiadau 'mawr', o'i gymharu ag 14% yn y datblygiadau 'bach').

Tabl 27: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – o ble mae pobl wedi symud

	Datblygiad 5 tŷ neu fwy	Datblygiad sy'n llai na 5 tŷ	Gwynedd
O fewn Gwynedd	71.9%	72.1%	71.9%
Lloegr	9.8%	14.3%	11.2%
Conwy a Môn	10.9%	3.8%	8.6%
Gweddill Cymru	0.3%	0.7%	0.4%
Arall	7.1%	9.1%	7.7%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

O ran yr iaith Gymraeg, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau ‘bach’ (74% yn gallu siarad Cymraeg) a’r rhai mewn datblygiadau ‘mawr’ (66% yn gallu siarad Cymraeg).

*Tabl 28: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – gallu i siarad Cymraeg*

Gallu siarad Cymraeg	Datblygiad 5 tŷ neu fwy	Datblygiad sy’n llai na 5 tŷ	Gwynedd
Ydi	66.2%	74.2%	68.8%
Nac ydi	32.9%	24.4%	30.2%
Heb ateb	0.8%	1.4%	1.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau ‘bach’ (46% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a’r rhai mewn datblygiadau ‘mawr’ (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref).

*Tabl 29: Tai newydd yn rhan / ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – prif iaith y cartref*

Prif iaith y cartref	Datblygiad 5 tŷ neu fwy	Datblygiad sy’n llai na 5 tŷ	Gwynedd
Cymraeg	37.0%	46.0%	40.5%
Saesneg	52.9%	49.6%	51.0%
Arall	8.8%	3.5%	7.4%
Heb ateb	1.3%	0.9%	1.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>



## 7. Tai Rhent Cymdeithasol newydd

Yn yr un modd mae'r bennod yma yn rhannu'r canlyniadau rhwng tai newydd rhent cymdeithasol a thai newydd eraill, er mwyn gweld a oes unrhyw wahaniaethau o sylwedd yn y canlyniadau.

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 60 (17%) ohonynt yn rhai Rhent Cymdeithasol. Roedd 177 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 74% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 30: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol

	Nifer Tai	Nifer Pobl	% pobl gallu siarad Cymraeg
Tŷ newydd rhent cymdeithasol	60	177	74%
Ddim yn dŷ rhent cymdeithasol	291	714	68%
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>891</b>	<b>69%</b>

Roedd y symudiadau i dai newydd rhent cymdeithasol yn fwy "lleol" eu natur, ar y cyfan, na symudiadau i dai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol. Roedd 92% o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol wedi symud yno o fewn Gwynedd (o'i gymharu â 67% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol). Tua 2% oedd wedi symud o Loegr (o'i gymharu ag 13% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol).

Tabl 31: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – o ble mae pobl wedi symud

	Rhent Cymdeithasol	Ddim yn Rhent Cymdeithasol	Gwynedd
O fewn Gwynedd	91.5%	67.1%	71.9%
Lloegr	2.3%	13.4%	11.2%
Conwy a Môn	4.5%	9.7%	8.6%
Gweddill Cymru	0.0%	0.6%	0.4%
Arall	1.7%	9.2%	7.7%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (74% o'i gymharu â 68%).

Tabl 32: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – gallu i siarad Cymraeg

Gallu siarad Cymraeg	Rhent Cymdeithasol	Ddim yn Rhent Cymdeithasol	Gwynedd
Ydi	74.0%	67.5%	68.8%
Nac ydi	25.4%	31.4%	30.2%
Heb ateb	0.6%	1.1%	1.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (41% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a'r rhai oedd mewn datblygiadau rhent cymdeithasol (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref).

*Tabl 33: Tai newydd oedd yn / ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – prif iaith y cartref*

<b>Prif iaith y cartref</b>	<b>Rhent Cymdeithasol</b>	<b>Ddim yn Rhent Cymdeithasol</b>	<b>Gwynedd</b>
Cymraeg	36.7%	41.2%	40.5%
Saesneg	60.0%	49.1%	51.0%
Arall	3.3%	8.2%	7.4%
Heb ateb	0.0%	1.4%	1.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

## 8. Prif gasgliadau

### Pwy sy'n symud i dai newydd, ac o lle

- Mewn cyfanswm, roedd 72% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yng Ngwynedd. Roedd y ganran yma yr un fath ar gyfer tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy, ond yn sylweddol uwch ar gyfer tai rhent cymdeithasol newydd gyda 92% o'r preswylwyr wedi symud o dŷ arall yng Ngwynedd.
- Mewn cyfanswm roedd 9% wedi symud o Ynys Môn / Conwy, 11% o Loegr, ac 8% o weddill Cymru neu wledydd eraill. Eto mae'r canrannau ar gyfer tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiad 5 tŷ neu fwy yn eithriadol o debyg, gyda llai o du allan i Wynedd yn symud i'r tai rhent cymdeithasol (2% o Loegr a 5% o Ynys Môn / Conwy).
- Roedd y canran uchaf o'r rhai symudodd yn y grŵp oedran 25 – 44 oed, sef 34%. Dim ond 10% o'r bobl symudodd i'r tai newydd oedd dros 65 oed. Roedd ychydig dros chwarter (27%) preswylwyr y tai newydd yn blant dan 18 oed.

### Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen

- Mae'r dystiolaeth ynglŷn â symudiadau eraill yn y "gadwyn" tai – h.y. pwy oedd yn symud i dai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd – yn fwy amwys oherwydd nifer fychan yr ymatebion.
- Ond at ei gilydd, mae yna awgrym fod y symudiadau hynny yn cael eu cadw yn lleol gan mwyaf, gyda tua 60% o'r rhain yn cael eu cadw o fewn yr un ardal leol.
- Roedd tua 10% arall o'r symudiadau "pellach" yma o ardaloedd eraill o Wynedd, a tua 8% o Ynys Môn. Tua 13% oedd wedi symud o Loegr.
- At ei gilydd felly, mae yna awgrym bod y farchnad ar gyfer y tai yn y "gadwyn" (h.y. y tai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd) yn debyg i'r farchnad ar gyfer y tai newydd eu hunain, drwy bod cyfran uchel o'r tai yn mynd i bobl leol yn hytrach nag i bobl tu allan i'r sir. Ond unwaith eto rhaid pwysleisio ei bod yn anodd dweud i sicrwydd oherwydd niferoedd isel yr ymatebion.

### Iaith

- Roedd y cyfran o breswylwyr y tai newydd oedd yn siarad Cymraeg (sef 68%) yn debyg iawn i'r cyfran ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol yn y Cyfrifiad diwethaf (sef 65%).
- Mae'r patrwm fesul grŵp oedran yn dangos fod preswylwyr ieuengach tai newydd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na rhai hŷn, gyda 91% o blant 3 – 11 oed a 68% o bobl 25-44 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfran isaf (sef 47%) ymhlith y grŵp oedran 65 – 84 oed.

- Roedd preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau “bychan” (4 tŷ neu lai) ychydig yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr datblygiadau mwy (74% o’i gymharu â 66%). Hefyd roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o’i gymharu â phreswylwyr tai newydd eraill (74% o’i gymharu â 68%).

### **Pam fod pobl yn symud i dŷ newydd**

- Roedd y rhesymau pam roedd pobl wedi symud i dŷ newydd yn eithaf amrywiol – lleoliad y tŷ oedd y rheswm roddwyd amlaf, gyda’r angen am dŷ mwy o faint, yr angen i gael tŷ eu hunain a’r syniad bod tŷ newydd o ‘safon’ well ac yn rhoi gwell gwerth-am-arian yn ystyriaethau pwysig hefyd.
- O’r bobl oedd wedi symud ardal er mwyn symud i dŷ newydd, y prif reswm dros symud oedd lleoliad gwaith / bod yn agosach at waith, gyda nifer hefyd yn nodi eu bod eisiau bod yn agosach at deulu / ffrindiau neu’n agosach at gyfleusterau a chysylltiadau trafndiaeth yn yr ardal.
- O ran y rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol, cyfleustra (dim costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd) oedd yr ateb mwyaf cyffredin. ‘Doedd tua traean yr ymatebwyr ddim wedi chwilio am dŷ newydd fel y cyfryw (y lleoliad oedd yn bwysig, neu’r ffaith fod y rhent yn is neu y cawsant eu lleoli yno gan gymdeithas dai). Nododd cyfran hefyd ei bod yn haws neu’n rhatach cael plot o dir i adeiladu arno yn hytrach na phrynu tŷ adeiladwyd eisoes.
- Roedd tua 80% o’r bobl oedd wedi symud i dŷ newydd o dŷ arall yn yr un ardal yn nodi y byddent wedi chwilio am dŷ arall yn yr ardal honno pe bai’r tŷ newydd heb fod ar gael.
- Ymhlith pobl oedd wedi symud o ardaloedd eraill roedd y darlun yn fwy cymysg; roedd gan tua’u hanner awydd penodol i symud i’r ardal honno, ond byddai eraill wedi chwilio mewn ardaloedd / siroedd cyfagos fel arall.

I’r dyfodol, byddai’n ddefnyddiol cadw llygad ar dueddiadau prynu a rhentu tai newydd i weld a fydd y patrymau uchod yn parhau’n gyson neu a fyddent yn newid mewn ymateb i ffactorau fel newid ym math / lleoliad y tai fydd ar gael, tueddiadau yn y farchnad dai yn lleol ac yn genedlaethol, newid yn y boblogaeth ac yn nyheadau prynwyr, ayb. I’r perwyl yma efallai fod lle i edrych ar y posibiladau ar gyfer cydweithio efo datblygwyr tai, cymdeithasau tai ayb i geisio casglu gwybodaeth o’r math yma wrth i dai newydd gael eu prynu a’u rhentu.

## Atodiad – Cwestiynau a holwyd

### Am y tŷ

1. Chi ydi perchennog/tenant cyntaf y tŷ?  
- Ia / Na
2. Perchen neu rentu y tŷ?  
- Perchen / Rhentu preifat / Rhentu cymdeithasol / Rhan-berchnogi
3. Blwyddyn prynu/rhentu i ddechrau?  
\_\_\_\_\_
4. Math o dŷ?  
- Ar wahân / Semi / Teras / Byngalo / Fflat neu maisonette / Arall
5. Sawl ystafell wely?  
\_\_\_\_\_

### Amdanoch chi + eraill sy'n byw yn y tŷ

1. Faint o bobl sy'n byw yma fel arfer?  
\_\_\_\_\_

Am y bobl sy'n byw yma fel arfer:

	2. Oedran (0-2)(3-11)(12-17) (18-24)(25-44)(45-64)(65-84)(85+)	3. Gallu siarad Cymraeg?	4. Lle yn byw fel arfer cyn symud i'r tŷ yma? (+ manylion e.e. gwerthu? symud o adref?)
Person 1		Ydi / Nac ydi	
Person 2		Ydi / Nac ydi	
Person 3		Ydi / Nac ydi	
Person 4		Ydi / Nac ydi	
Person 5		Ydi / Nac ydi	
Person 6		Ydi / Nac ydi	
Person 7		Ydi / Nac ydi	
Person 8		Ydi / Nac ydi	

*laith y cartref*

Os oes 2+ o bobl yn byw yn y tŷ:

Pa iaith sy'n cael ei siarad fwyaf yn y cartref? - Cymraeg / Saesneg / Arall (bocs i sgwennu pa un) / Mwy nag un iaith yn gyfartal (bocs i sgwennu pa rai)

Os oes 1 person yn byw yn y tŷ:

Pa iaith yw eich iaith gyntaf? – Cymraeg / Saesneg / Arall (*bocs i sgwennu pa un*)

*Rheswm dros symud yma*

Pam wnaethoch chi symud yma?

Pam symud i'r ardal yma?

Pam dewis tŷ newydd?

Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

Os wedi symud o ardal arall – cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

# Ymchwil Tai Newydd yng Ngwynedd

## Adroddiad Canlyniadau



**Dyddiad Cyflwyno:** Awst 2019 (drafft terfynol)

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

## Cynnwys

1	Cyflwyniad.....	1
2	Methodoleg.....	3
3	Ystadegau am yr ymatebion gan breswylwyr tai newydd (Cam 1).....	7
4	Ardal BANGOR.....	11
5	Ardal CAERNARFON.....	24
6	Ardal DOLGELLAU.....	38
7	Ardal DYFFRYN NANTLLE.....	51
8	Ardal DYFFRYN OGWEN.....	64
9	Ardal FFESTINIOG.....	77
10	Ardal LLŶN.....	86
11	Ardal PENLLYN.....	98
12	Ardal PORTHMADOG.....	109
13	Ardal TYWYN.....	121
14	Mathau o ddatblygiadau.....	133
15	Prif gasgliadau.....	143
	Atodiad – Cwestiynau a holwyd.....	146



# 1 Cyflwyniad


Caiff rhwng tua 100-300 o dai newydd eu hadeiladu yng Ngwynedd bob blwyddyn, gyda'r niferoedd wedi bod ar gynydd ychydig yn ddiweddar (gweler Tabl 1 isod).

Tabl 1: Anheddau newydd a gwblhawyd yng Ngwynedd (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)

Blwyddyn	Nifer anheddau newydd
2008/09	206
2009/10	148
2010/11	169
2011/12	123
2012/13	160
2013/14	131
2014/15	189
2015/16	141
2016/17	213
2017/18	243
2018/19	277

O'i gymharu â'r nifer tai sydd yma eisoes, yn gyffredinol mae'r nifer tai newydd yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf wedi bod yn is na'r patrwm cyffredinol yng Nghymru ac yng nghynghorau eraill cyfagos, er y bu cynnydd yn y niferoedd dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf (**Ffigur 1**).

Ffigur 1: Nifer tai newydd fel canran o'r holl stoc tai, 2008/09 i 2018/19



(Ffynhonnell: cyfrifiadau Tîm Ymchwil a Dadansoddeg ar sail data Tai Newydd ac Amcangyfrifon Stoc Anheddau; Ll. Cymru)

Er hynny, mae tai newydd, a'u heffaith ar y cymunedau lle maent wedi'u lleoli, yn gallu bod yn fater cynhennus sy'n pegynnu barn. Un rheswm am hyn ydi bod yna "fwlch gwybodaeth" ynglŷn â thai newydd (yng Ngwynedd ac yn ehangach) – 'does dim gwybodaeth ddibynadwy am pa grwpiau o bobl sy'n tueddu i symud i dai newydd, o lle mae'r bobl yma yn symud, a pam eu bod yn dewis symud i dŷ newydd; mae'r ychydig wybodaeth sydd ar gael yn tueddu i fod yn dameidiog ac anecdotaidd iawn. Mae hyn yn broblem i'r Cyngor hefyd wrth lunio polisiau ym maes tai a chynllunio ac wrth ymateb i ofynion statudol, er enghraifft wrth baratoi yr Asesiad Marchnad Tai Lleol.

Ein bwriad ni yn yr ymchwil yma felly, oedd llenwi rhywfaint ar y "bwlch gwybodaeth" drwy geisio holi preswylwyr pob tŷ sydd wedi'i godi yn ddiweddar yng Ngwynedd.

Mae'r ymchwil yma wedi mynd gam ymhellach hefyd, drwy geisio dilyn y "gadwyn" tai ymlaen i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i'r tŷ newydd, wedyn i'r tŷ ddaeth yn wag wrth i bobl symud i hwnnw, ac yn y blaen. Nodwedd allweddol arall yr ymchwil yma oedd ein bod yn mynd i siarad efo'r preswylwyr i gael eu "stori" nhw, eu rhesymau nhw dros symud yno, ac ati, mor llawn â phosib, yn hytrach na dibynnu ar anfon holiadur 'ticio bocs' amhersonol.

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno canlyniadau'r gwaith ymchwil. Er na all yr un darn o ymchwil o'r math yma roi'r darlun llawn (mwy am hyn ym mhennod 2 isod), 'rydym yn ffyddiog bod yr hyn a wnaed yn helpu i daflu peth goleuni ar faes lle bu gwybodaeth bendant yn eithaf prin.

Ni fyddem wedi gallu gwneud y gwaith yma heb gymorth a chefnogaeth nifer o adrannau a gwasanaethau eraill y Cyngor ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am hynny; diolch hefyd i'r ymchwilwyr fu wrthi'n gwneud y gwaith holi a chofnodi. Ac yn bennaf oll diolch i drigolion Gwynedd fu'n fodlon rhannu eu storïau efo ni; mae pob ymateb wedi bod yn werthfawr i ni wrth roi'r darlun at ei gilydd.

## 2. Methodoleg

### Ardaloedd

Er mwyn gallu adnabod unrhyw wahaniaethau daearyddol o fewn Gwynedd rydym wedi dadansoddi holl ganlyniadau'r ymchwiliad fesul 10 o ardaloedd lleol (sy'n cyfateb i'r 8 ardal llesiant a ddefnyddir gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn, ond gydag ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle wedi'u gwahanu o weddill ardaloedd Bangor / Caernarfon).

Dangosir ffiniau'r ardaloedd yma isod.

*Ffigur 2: Ardaloedd lleol*



### Tai newydd i'w holi

Er mwyn sicrhau bod gennym restr mor gywir a chyflawn â phosib o ddatblygiadau tai newydd yng Ngwynedd, fe wnaethom waith cywiro / cysoni ar wybodaeth o nifer o wahanol ffynonellau, sef:

- Tai newydd a gwblhawyd yn dilyn ceisiadau cynllunio (gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd, a gan y Parc Cenedlaethol ar gyfer ardal y Parc)
- Tai newydd a brisiwyd ar gyfer y Dreth Gyngor (gan y Gwasanaeth Trethi a Budd-dal)
- Tai a werthwyd (gan y Gofrestrfa Tir)
- Unedau tai cymdeithasol newydd yng Ngwynedd (gan y Gwasanaeth Tai)

Er mwyn gallu dygymod â maint y dasg penderfynwyd yn y lle cyntaf y byddem yn cyfyngu'r ymchwiliad i dai newydd feddiannwyd dros y 3 neu 4 blynedd diwethaf (h.y. o'r flwyddyn 2015 ymlaen). Ond wrth edrych ar y niferoedd fesul ardal fe ddaeth i'r amlwg nad oes llawer o dai newydd o gwbl yn

rhai rhannau o dde'r sir; fe aethom felly yn ôl ymhellach (tai a feddiannwyd o 2012 ymlaen) yn rhai o'r ardaloedd.

Penderfynwyd **peidio cynnwys** rhai mathau o dai newydd oedd ar gyfer grwpiau penodol o bobl (ac felly byddai gwahanol farchnad i'w prynu / rhentu o'i gymharu â mwyafrif tai newydd Gwynedd), sef:

- llety gwyliau / chalets ayb
- tai gofal ychwanegol
- llety / neuaddau preswyl a adeiladwyd yn benodol ar gyfer myfyrwyr

Ond roedd y rhestr **yn cynnwys**:

- tai cymdeithasol a thai fforddiadwy, yn ogystal â thai werthwyd ar y farchnad agored
- tai ag 'amod person lleol' arnynt, yn ogystal â rhai heb amod
- datblygiadau yn y Parc Cenedlaethol
- trosi adeiladau dibreswyl (siopau, beudai, capeli ayb) yn unedau preswyl
- rhannu tŷ yn fwy o unedau preswyl (er mae'n anodd weithiau gwybod pa rai yw'r tai 'newydd' yn yr achosion yma)
- stadau mawr, yn ogystal â datblygiadau bychain a rhai tai unigol.

Roedd y rhestr derfynol yn cynnwys 1,015 o dai newydd, gyda'r dosbarthiad fesul ardal fel a ganlyn:

*Tabl 2: Nifer tai newydd fesul ardal leol*

<b>Ardal</b>	<b>Nifer tai newydd (2015 ymlaen)</b>	<b>Ychwanegu tai 2012-2014 yn rhai ardaloedd i gael mwy o sampl</b>	<b>Cyfanswm nifer tai newydd ar gyfer yr ymchwil</b>
Bangor	418	-	418
Caernarfon	129	-	129
Dolgellau	47	31	78
Dyffryn Nantlle	35	-	35
Dyffryn Ogwen	47	-	47
Ffestiniog	7	14	21
Llŷn	119	-	119
Penllyn	10	13	23
Porthmadog	50	32	82
Tywyn	35	28	63
	<b>897</b>	<b>118</b>	<b>1,015</b>

## Holi preswylwyr tai newydd (Cam 1)

Anfonwyd llythyr at breswylwyr yr holl dai newydd ar y rhestr, yn egluro pwrpas yr ymchwil ac y byddai ymchwilydd o'r Cyngor yn galw draw yn fuan i holi ychydig o gwestiynau. Rhoddwyd gwybod i holl aelodau etholedig y Cyngor am yr ymchwil hefyd.

Aeth yr ymchwilwyr o amgylch y tai yn ystod min-nosau ym Mehefin-Gorffennaf 2018. Roeddent yn holi rhai cwestiynau safonol am y tŷ, nifer ac oedran y preswylwyr, iaith y preswylwyr / aelwyd, a lle oedd y preswylwyr yn byw cyn symud i'r tŷ newydd. Hefyd roedd yna gwestiynau mwy penagored oedd yn holi am "stori" y preswylwyr (cwestiynau fel pam roeddent wedi dewis symud i'r ardal / y tŷ, a lle fydden nhw'n debygol o fod wedi symud pe bai'r tŷ hwnnw heb fod ar gael).

Roedd yr holiadur a'r cwestiynau wedi eu profi o flaen llaw drwy holi rhai o staff y Cyngor; gweler copi o'r cwestiynau yn **Atodiad A**.

Yn anochel, mewn nifer o dai 'roedd y preswylwyr allan, neu'n rhy brysur i ateb ar y noson y gwnaethom alw draw; yn yr achosion hynny fe adawyd cerdyn gyda manylion gwefan y gallai'r preswylwyr fynd iddi i ymateb yn eu hamser eu hunain. 'Doedd hyn ddim yn ddelfrydol gan mai holl fwriad anfon ymchwilwyr allan oedd gallu siarad â phobl i egluro'r cwestiynau yn iawn a chael eu "stori", ond roedd yn fodd o gynyddu'r ymateb a sicrhau bod pawb oedd wedi cael llythyr yn cael cyfle i gymryd rhan.

Llwyddodd yr ymchwilwyr i gyrraedd **967 o dai** (sef dros 95% o'r rhestr – methwyd rhai oherwydd problemau gyda'r cyfeiriadau neu nad oedd neb yn byw ynddynt eto). O'r rhain, fe gafwyd ymateb o **351 (36.3%)** o dai, gyda'r raddfa ymateb yn gwahaniaethu fesul ardal fel ddangosir yn y tabl isod.

*Tabl 3: Nifer atebion fesul ardal*

Ardal	Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
Bangor	418	408	136	33.3
Caernarfon	129	124	58	46.8
Dolgellau	78	73	23	31.5
Dyffryn Nantlle	35	33	21	63.6
Dyffryn Ogwen	47	47	19	40.4
Ffestiniog	21	21	4	19.0
Llŷn	119	109	28	25.7
Penllyn	23	18	8	44.4
Porthmadog	82	76	31	40.8
Tywyn	63	58	23	39.7
	<b>1,015</b>	<b>967</b>	<b>351</b>	<b>36.3</b>

### Holi preswylwyr y tai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i'r tai newydd (Cam 2, 3 a 4)

Lle roedd ymatebwyr 'Cam 1' uchod wedi nodi eu bod wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd, fe wnaed gwaith maes pellach wedyn gan fynd i'r tŷ hwnnw i holi cwestiynau tebyg i 'Cam 1' (ond gan eithrio'r cwestiynau oedd yn ymwneud yn benodol â'r rhesymau dros symud i dŷ newydd). Dyma 'Gam 2' yr ymchwil.

Wedyn os oedd preswylwyr tai 'Cam 2' wedi symud yno o rywle arall yng Ngwynedd, aed i'r tŷ hwnnw wedyn fel 'Cam 3', ac yn y blaen.

Gwnaed y gwaith maes pellach yma gyda'r nosau yn ystod Medi-Hydref 2018, gyda threfn debyg i 'Cam 1' ar gyfer rhoi cyfle i breswylwyr ymateb ar-lein os nad oeddent adref ar y noson.

Dangosir isod y niferoedd tai holwyd / ymatebodd yn y camau pellach yma. (Roedd yna nifer o achosion lle nodwyd bod rhywun wedi symud i dŷ newydd o rywle arall yng Ngwynedd ond bod dim tŷ wedi dod yn wag o ganlyniad i hyn – e.e. symud o dŷ rhieni, gwahanu ayb – yn amlwg nid oeddem yn mynd i'r tŷ blaenorol yn yr achosion yma).

Tabl 4: Nifer atebion fesul cam ymchwil

Cam	Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	Nifer o'r rhain o Wynedd gynt, ac wedi rhoi cyfeiriad llawn i allu holi ymhellach
1 (tai newydd)	1,015	967	351	136
2	136	136	44	22
3	22	22	10	4
4	4	4	0	-

## Dehongli'r canlyniadau

Wrth edrych ar y niferoedd uchod gellir gweld bod hwn wedi bod yn ymarferiad ymchwil sylweddol a'i fod, mae'n debyg, yn rhoi darlun mwy cynhwysfawr nag a fu gennym erioed o dai newydd yng Ngwynedd a'r patrymau mudo sy'n deillio ohonynt.

Er hyn mae'n bwysig peidio gorddibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil yma gan gymryd ei fod yn dweud y cyfan wrthym. Cynhaliwyd yr ymchwil yma ar bwynt penodol mewn amser; mae'n anodd cymryd yn ganiataol y byddai yr un patrymau yn union yn cael eu hailadrodd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol ble gallai niferoedd / mathau / union leoliadau'r tai newydd, a chyflwr y farchnad dai yn lleol / yn gyffredinol, fod yn wahanol.

Yn ogystal, er y cafwyd nifer fawr o ymatebion mewn cyfanswm, mae'r niferoedd yn mynd yn llai wrth edrych ar rai ardaloedd unigol, ac yn enwedig wrth ddilyn y gadwyn tai ymlaen (Camau 2, 3 a 4). Mae hyn yn rheswm ychwanegol dros beidio â chymryd pob canlyniad fel un manwl gywir.

## Gweddill yr adroddiad hwn

Mae **Pennod 3** yn rhoi ychydig o ystadegau am yr ymatebion ddaeth o dai newydd (Cam 1) ar draws Gwynedd, yn cynnwys y mathau o dai, nifer o bobl yn y tai, a'r ieithoedd maent yn eu siarad.

Er mwyn gallu adnabod patrymau ar lefel leol mae **Penodau 4-13** wedyn yn rhoi'r canlyniadau manwl fesul y 10 ardal ar wahân, yn cynnwys dilyn y 'gadwyn' tai ymlaen (Camau 2-4).

Mae **Pennod 14** yn ystyried p'run ai ydi'r canlyniadau yn wahanol ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiadau.

Mae **Pennod 15** wedyn yn bwrw golwg ar draws yr holl ganlyniadau gan amlygu'r prif gasgliadau.

### 3. Ystadegau am yr ymatebion gan breswylwyr tai newydd (Cam 1)

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd bron 34% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 5: Cam 1 – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	227	64.7
Rhan-berchnogi	3	0.9
Rhentu preifat	59	16.8
Rhentu cymdeithasol	60	17.1
Heb ateb	2	0.6
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>100.0</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ “ar wahân”.

Tabl 6: Cam 1 – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	150	42.7
Fflat neu maisonette	62	17.7
Semi	92	26.2
Teras	33	9.4
Byngalo	6	1.7
Arall	6	1.7
Heb ateb	2	0.6
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>100.0</b>

Roedd mwyafrif y tai newydd a gawsom ymateb ganddynt â 2 neu 3 ystafell wely.

Tabl 7: Cam 1 – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
1	24	6.8
2	97	27.6
3	146	41.6
4	70	19.9
5	10	2.8
7	3	0.9
Heb ateb	1	0.3
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>100.0</b>

Yn y 351 o dai atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 891 o bobl yn byw ynddynt; sef tua 2.5 person i bob tŷ.

Tabl 8: Cam 1 – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	69	69
2	132	264
3	66	198
4	67	268
5	13	65
6	1	6
7	3	21
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>891</b>

Mae mwyafrif y bobl sydd wedi symud i dŷ newydd yn y grŵp oedran 25-44 oed. O'r sampl oedd gennym, dim ond un person dros 85 oed oedd wedi symud i dŷ newydd yng Ngwynedd.

Tabl 9: Cam 1 – Oedran yr ymatebwyr

Oedran	Nifer	%
0-2	47	5.3
3-11	146	16.4
12-17	45	5.1
18-24	85	9.5
25-44	304	34.1
45-64	167	18.7
65-84	88	9.9
85+	1	0.1
Heb ateb	8	0.9
<b>Cyfanswm</b>	<b>891</b>	<b>100.0</b>

## Iaith yr unigolion

O'r 891 o bobl, nododd 613 (69%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 10: Cam 1 – Nifer yn gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	% gallu siarad Cymraeg
Nac ydi	269	30.2
Ydi	613	68.8
Heb ateb	9	1.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>891</b>	<b>100.0</b>



O'r bobl 3 oed a throsodd roedd 68% yn gallu siarad Cymraeg (577 allan o 844), sy'n cymharu â chyfran o 65% ar gyfer Gwynedd yng Nghyfrifiad 2011. Felly roedd y cyfran o breswylwyr tai newydd oedd yn gallu siarad Cymraeg yn debyg iawn i'r cyfran ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol.

Mae'r patrwm fesul grŵp oedran (tabl isod) yn awgrymu, o'r bobl sydd yn byw mewn tai newydd, fod pobl ieuengach yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr hŷn.

Tabl 11: Cam 1 – grŵp oedran

Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg		Heb ateb	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
0-2	36	77%	9	19%	2	4%
3-11	133	91%	13	9%	0	0%
12-17	38	84%	7	16%	0	0%
18-24	56	66%	29	34%	0	0%
25-44	207	68%	93	31%	4	1%
45-64	97	58%	70	42%	0	0%
65-84	41	47%	46	52%	1	1%
85+	1	100%	0	0%	0	0%
Heb ateb	4	50%	2	25%	2	25%
<b>Cyfanswm</b>	<b>613</b>	<b>69%</b>	<b>269</b>	<b>30%</b>	<b>9</b>	<b>1%</b>

## Iaith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 12: Cam 1 – Cartrefi un aelwyd - iaith gyntaf

Iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	22	31.9
Saesneg	39	56.5
Arall	7	10.1
Heb ateb	1	1.5
<b>Cyfanswm</b>	<b>69</b>	<b>100.0</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nag un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 13: Cam 1 – Cartrefi mwy nag un person – iaith yr aelwyd

Iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	120	42.6
Saesneg	140	49.6
Arall	19	6.7
Heb ateb	3	1.1
<b>Cyfanswm</b>	<b>282</b>	<b>100.0</b>

O gyfuno'r ddau set o ganlyniadau uchod, fe welir (isod) fod y Gymraeg yn iaith gyntaf / iaith yr aelwyd i tua 40% o'r tai newydd a holwyd, a'r Saesneg i tua 50% ohonynt. Yn anffodus nid oes ystadegau cyfatebol yn bodoli am y patrwm ymysg poblogaeth Gwynedd yn gyffredinol.

*Tabl 14: Cam 1: iaith yr aelwyd / iaith gyntaf*

<b>iaith</b>	<b>Nifer Cartrefi</b>	<b>%</b>
Cymraeg	142	40.5
Saesneg	179	51.0
Arall	26	7.4
Heb ateb	4	1.1
<b>Cyfanswm</b>	<b>351</b>	<b>100.0</b>

## 4. Ardal BANGOR

### Niferoedd ardal Bangor

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 418 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Bangor rhwng 2015 a 2017. Cawsom ymateb o 136 tŷ sef tua 33% o'r rhai gyrhaeddwyd.

Tabl 15: Ardal Bangor – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
418	408	136	33.3%

Mae'r 418 yma yn cynnwys datblygiadau:-

- 54 tŷ yn Stad Ger y Nant, Felinheli
- 53 tŷ yn Stad Llys Adda, Bangor
- 63 tŷ yn Stad Y Bae, Bangor
- 127 tŷ yn Stad Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd

Mae'r map isod o ardal Bangor yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 3: Ardal Bangor – Lleoliad tai newydd



## Poblogaeth ardal Bangor

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **21,757** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Bangor (sampl o 136)

O'r 136 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd 38% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 16: Ardal Bangor – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	82	60.3%
Rhentu preifat	28	20.6%
Rhentu cymdeithasol	23	16.9%
Rhan-berchnogi	2	1.5%
Heb ateb	1	0.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 17: Ardal Bangor – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	43	31.6%
Fflat neu maisonette	37	27.2%
Semi	34	25.0%
Teras	15	11.0%
Arall	6	4.4%
Heb ateb	1	0.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>100.0%</b>

Tair ystafell wely oedd y nifer mwyaf cyffredin yn y tai newydd y cawsom ymateb ganddynt.

Tabl 18: Ardal Bangor – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
1	11	8.1%
2	40	29.4%
3	49	36.0%
4	33	24.3%
5	1	0.7%
7	1	0.7%
Heb ateb	1	0.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 136 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 346 o bobl yn byw ynddynt; tua 2.5 person i bob tŷ.

Tabl 19: Ardal Bangor – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	29	29
2	41	82
3	35	105
4	27	108
5	3	15
6	0	0
7	1	7
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>346</b>

Tabl 20: Ardal Bangor – Nifer Ystafelloedd Gwely i faint o bobl sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl yn byw yno →							Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	5	6	7	
1	9	2						<b>11</b>
2	11	13	10	6				<b>40</b>
3	5	18	13	13				<b>49</b>
4	4	7	12	7	3			<b>33</b>
5				1				<b>1</b>
7							1	<b>1</b>
Heb ateb		1						<b>1</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>29</b>	<b>41</b>	<b>35</b>	<b>27</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>1</b>	<b>136</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble daeth y 346 person i'r 136 annedd newydd.

Ffigur 4: Ardal Bangor – Symud i ardal Bangor

### Symud i ardal Bangor



Fe welir, er enghraifft, fod dros hanner yr unigolion yn y sampl (177/346; 51%) wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yn ardal Bangor. Roedd nifer hefyd wedi symud o Ynys Môn (48/346; 14%). Roedd 13% wedi symud yno o ardaloedd eraill o Wynedd (ardal Caernarfon yn bennaf) ac 8% wedi symud o Loegr.

Mae rhan helaeth o'r bobl sydd wedi symud i dŷ newydd yn y grŵp oedran 25-44 oed, gyda nifer hefyd o blant yn byw yn y tai.

Tabl 21: Ardal Bangor - Oedran

Oedran	Nifer	%
0-2	19	5.5%
3-11	55	15.9%
12-17	17	4.9%
18-24	43	12.4%
25-44	136	39.3%
45-64	55	15.9%
65-84	19	5.5%
85+	0	0.0%
Heb ateb	2	0.6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>346</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Bangor fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

Tabl 22: Ardal Bangor – Oedran ac ardaloedd (symud i Fangor)

Wedi symud o	0-2	3-11	12-17	18-24	25-44	45-64	65-84	85+	Heb ateb	Cyfanswm
Bangor	5%	17%	6%	14%	36%	17%	4%		1%	177
Caernarfon	10%	21%	10%	8%	45%	3%	3%			29
Dyffryn Nantlle		25%		25%	25%	25%				4
Dyffryn Ogwen	9%	9%			36%	46%				11
Porthmadog		33%			50%	17%				6
Geni yn y tŷ newydd	100%									2
Ynys Môn	4%	13%	8%	4%	52%	15%	4%			48
Conwy	17%				33%	33%	17%			6
Gweddill Cymru				50%		50%				4
Lloegr		8%		14%	32%	21%	25%			28
Yr Alban					100%					1
Ewrop				50%	50%					6
Asia		20%		20%	60%					10
Heb ateb	7%	36%		14%	43%					14
										<b>346</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 346 o bobl, nododd 205 (59.2%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 23: Ardal Bangor – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Heb ateb	4	1.2%
Nac ydi	137	39.6%
Ydi	205	59.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>346</b>	<b>100.0%</b>

O'r rhai 3 oed a throsodd roedd **58%** yn gallu siarad Cymraeg. (191/327)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd **42%** yn ardal Bangor dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 24: Ardal Bangor – Gallu siarad Cymraeg ac oedran

Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg		Heb Ateb	
0-2	14	74%	4	21%	1	5%
3-11	43	78%	12	22%	0	0%
12-17	13	76%	4	24%	0	0%
18-24	20	47%	23	53%	0	0%
25-44	69	51%	64	47%	3	2%
45-64	34	62%	21	38%	0	0%
65-84	11	58%	8	42%	0	0%
85+	0	0%	0	0%	0	0%
Heb ateb	1	50%	1	50%	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>205</b>	<b>59%</b>	<b>137</b>	<b>40%</b>	<b>4</b>	<b>1%</b>

Gwelwn mai oedran 18-24 sydd gyda'r % isaf o siaradwyr Cymraeg ac mai'r grŵp oedran 3-11 oed sydd gyda'r % uchaf yn gallu siarad Cymraeg gyda 78%. (43/55)

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion wedi symud i ardal Bangor a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai sydd wedi symud oddi fewn i ardal Bangor 58% (102/177) ohonynt ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.


Gwelwn fod 14% (4/28) o'r rhai sydd wedi symud o Loegr yn gallu siarad Cymraeg.



Ffigur 5: Ardal Bangor – symud i’r ardal a gallu i siarad Cymraeg

### Symud i ardal Bangor (59.2%) yn gallu siarad Cymraeg

177 o fewn Bangor eisoes  
(57.6%)  
14 heb ymateb  
(42.9%)  
2 geni yn y ty newydd  
(100.0%)



## Iaith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 25: Ardal Bangor – iaith gyntaf (cartrefi un person)

iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	9	31.0%
Saesneg	13	44.8%
Arall	7	24.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>29</b>	<b>100.0%</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nac un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 26: Ardal Bangor – iaith y cartref (cartrefi mwy nag un person)

iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	26	24.3%
Saesneg	67	62.6%
Arall	14	13.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>107</b>	<b>100.0%</b>

## Cyfuno'r cartrefi o'r ddau dabl uchod

Tabl 27: Ardal Bangor – iaith y cartref / iaith gyntaf (cyfanswm)

iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	35	25.7%
Saesneg	80	58.8%
Arall	21	15.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>136</b>	<b>100.0%</b>

## Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Nodir isod y prif ymatebion i'r cwestiwn mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Nododd 40% o'r ymatebwyr mai lleoliad y tŷ newydd oedd y rheswm dros symud, gyda tua 10% yn nodi eu bod eisiau tŷ mwy, 8% yn meddwl fod tŷ newydd o safon uchel ac yn werth am arian, 8% arall yn dymuno cael eiddo llai o faint a tua 6% eisiau prynu eu cartref cyntaf.

Tabl 28: Ardal Bangor – Rhesymau dros symud

	Nifer	%
Lleoliad y tŷ	62	39.7%
Angen eiddo mwy	16	10.3%
Tŷ o safon / gwerth am arian	13	8.3%
Angen eiddo llai	12	7.7%
Isio eiddo ei hun / eu hunain	10	6.4%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefel trosedd a sŵn	8	5.1%
Addasrwydd y tŷ i anghenion personol	5	3.2%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	5	3.2%
Ar gyfer ein ymddeoliad	5	3.2%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	5	3.2%
Rhent/prisiau fforddiadwy	4	2.6%
Angen mwy o le parcio/garej	3	1.9%
Wedi hoffi'r tŷ	3	1.9%
Wedi cael ein gorfodi o'r tŷ blaenorol	2	1.3%
Nabod y person oedd yn rhentu'r tŷ	1	0.6%
Isio ail gartref	1	0.6%
Ddim isio dweud	1	0.6%
	<b>156</b>	

\*allan o 136 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

## Pam symud i'r ardal yma?

O'r 136 tŷ newydd roedd 67 ohonynt ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw yn ardal Bangor yn barod. Roedd 22% o'r ymatebwyr wedi nodi mai symud i fod yn agosach at waith yr oeddynt. Roedd 12% yn symud er mwyn eu dewis o ysgol i'w plant, 11% oherwydd y cyfleusterau/cysylltiadau trafniadaeth yn yr ardal a 10% er mwyn mynychu'r Brifysgol/parhau fel ôl-raddedigion.

Tabl 29: Ardal Bangor – Pam symud i'r ardal yma?

	Nifer	%
Byw yn ardal Bangor yn barod – aros o fewn yr ardal	67	32.7%
Lleoliad gwaith / agosach at gwaith	44	21.5%
Er mwyn ysgol i'r plant - safon addysgu / clybiau cyn ac ar ôl ysgol	24	11.7%
Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal	22	10.7%
I fynychu'r brifysgol	21	10.2%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	12	5.8%
I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd brafiach	6	2.9%
Rhywle lle roedd yn gallu fforddio'r rhent	3	1.5%
Heb ateb	2	1.0%
Llai o drosedd yn yr ardal	2	1.0%
Arfer rhentu - wedi gallu prynu tŷ	1	0.5%
Ardal Gymreig	1	0.5%
	<b>205</b>	

\*allan o 136 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

## Pam dewis tŷ newydd?

Yr ateb mwyaf cyffredin oedd oherwydd nad oes gwaith ar dŷ newydd a'r warant sydd yn dod gyda thŷ newydd – ymateb 42% o'r ymatebwyr. Nododd 16% mai wedi cael eu lleoli yn yr ardal gan Gymdeithas Tai yr oeddent a 12% yn nodi mai cost y rhent oedd y rheswm ac nid o reidrwydd ei fod yn dŷ newydd. Roedd 10% yn nodi eu bod wedi dewis tŷ newydd oherwydd eu bod wedi gallu prynu drwy'r Cynllun Cymorth i Brynu.

Tabl 30: Ardal Bangor – Pam dewis tŷ newydd

	Nifer	%
Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / Gwarant tŷ newydd	60	42.3%
Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai	22	15.5%
Cost y rhent oedd y rheswm a dim oherwydd mai tŷ newydd oedd o	17	12.0%
Cynllun Cymorth i Brynu Cymru	14	9.9%
Lleoliad, a dim tŷ newydd oedd y rheswm	11	7.7%
Heb ateb	9	6.3%
Tŷ y gallem fforddio	4	2.8%
Wedi medru cael plot i adeiladu arno	3	2.1%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	2	1.4%
	<b>142</b>	

\*allan o 136 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

O'r rhai oedd eisoes yn byw o fewn ardal Bangor nododd 54 ohonynt y byddent wedi chwilio am dŷ arall o fewn yr un ardal. Byddai 3 ohonynt wedi symud allan o'r ardal i du allan i Wynedd ac 1 wedi symud i ardal Gaernarfon. Roedd 2 o'r ymatebwyr yn credu na fyddent wedi symud o gwbl.

Tabl 31: Ardal Bangor – Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Bangor yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Bangor yn barod	Nifer	%
Dal symud i rywle o fewn pellter rhesymol i ardal Bangor	54	80.7%
Heb ateb	6	9.0%
Llandudno	2	2.9%
Heb symud ac aros yn ardal Bangor	2	2.9%
Ddim yn siŵr	1	1.5%
Ynys Môn	1	1.5%
Dal symud ond i rywle o fewn pellter rhesymol i ardal Gaernarfon	1	1.5%
	<b>67</b>	

\*allan o 67 ymateb

O'r rhai nad oedd yn byw yn ardal Bangor o'r blaen nododd tua'u hanner y byddent wedi chwilio am dŷ arall yn ardal Bangor per bai'r tŷ newydd heb fod ar gael. Nododd 7 na fyddent wedi symud pe na fyddai'r tai newydd ar gael. Byddai 4 arall wedi symud i ardaloedd tu allan i Wynedd.

Tabl 32: Ardal Bangor – Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Bangor yn barod)

Y rhai <u>NAD</u> oedd yn byw yn ardal Bangor yn barod	Nifer	%
Byddent yn dal wedi symud i ardal Bangor	34	49.2%
Heb ateb	15	21.7%
Chwilio am dŷ rhent addas yn ardal Bangor	5	7.2%
Heb symud ac wedi aros yn ardal Gaernarfon	3	4.3%
Ynys Môn	3	4.3%
Ddim yn siŵr	2	2.9%
Heb symud ac wedi aros yn Conwy	2	2.9%
Wedi symud i ardal Porthmadog	1	1.5%
Heb symud ac wedi aros yn Lloegr	1	1.5%
Heb symud ac wedi aros yn ardal Porthmadog	1	1.5%
Llandudno	1	1.5%
Wedi symud i ardal Caernarfon	1	1.5%
	<b>69</b>	

\*allan o 69 ymateb

### Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

Fel nodwyd uchod roedd 67 o'r ymatebwyr ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw yn ardal Bangor eisoes; roedd 11 o'r 67 yma oherwydd eu bod wedi bod yn fyfyrwyr yn y Brifysgol. Nid oedd gan 13% o'r teuluoedd symudodd i'r ardal gysylltiad blaenorol gyda'r ardal. Roedd gan 10% deulu neu ffrindiau agos yn byw yn yr ardal.

Tabl 33: Ardal Bangor – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal

Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?	Nifer	%
O leiaf un person yn byw yn ardal Bangor yn barod	56	41.2%
Dim cysylltiad blaenorol	17	12.5%
Heb ateb	14	10.3%
Teulu / Ffrindiau agos yn yr ardal	14	10.3%
Yn yr ardal oherwydd wedi bod yn astudio yn y Brifysgol	11	8.1%
O leiaf un person byw mewn ardal gyfagos yn barod	10	7.4%
Gweithio yn yr ardal	7	5.1%
Dychwelyd yn ôl ar ôl bod i ffwrdd yn y Brifysgol/gweithio	5	3.7%
Wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd	1	0.7%
Yn enedigol o Wynedd, ond wedi byw yn Lloegr erioed	1	0.7%
	<b>136</b>	

\*allan o 136 ymateb

## Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen


Lle 'roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i'r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y 'gadwyn' tai yn ei hôl.

Mae'r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi'r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Fe welir, yn gyffredinol, fod symudiadau eraill y 'gadwyn' o fewn Gwynedd yn tueddu i fod o fewn yr un ardaloedd.

Er enghraifft, ar gyfer y nifer sylweddol o ymatebwyr oedd wedi symud i'r tai newydd o ardal Bangor ei hun – ymddengys, ar sail ein sampl ni, fod y tai lle roeddent yn byw o'r blaen, yn eu tro, wedi cael eu prynu / rhentu gan bobl eraill o ardal Bangor ei hun. Ac mae hyn yn wir ar gyfer cam nesaf y 'gadwyn' hefyd.

Ffigur 6: Ardal Bangor – Camau 2, 3 a 4



## Prif gasgliadau am ardal Bangor

- Roedd tua 40% o breswylwyr y tai newydd rhwng 25-44 oed.
- Roedd dros hanner preswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall o fewn ardal Bangor ei hun.
- Y prif lefydd eraill roedd pobl yn symud ohonynt oedd Ynys Môn (14%), ardaloedd eraill o Wynedd (13%) – ardal Caernarfon yn bennaf, a Lloegr (8%).
- Roedd tua 60% o breswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sy'n uwch na'r cyfran yn ardal Bangor yn gyffredinol. Roedd mwyafrif y rhai symudodd yno o fewn ardal Bangor ei hun, o ardaloedd eraill yng Ngwynedd, ac o siroedd eraill yng Nghymru, yn siarad Cymraeg.
- Y lleoliad (yn cynnwys bod yn agos at leoliad gwaith) oedd y prif reswm pam bod pobl wedi dewis symud i dŷ newydd yn yr ardal. Roedd yr awydd i fyw yn ardal Bangor yn gryf ymysg y rhai oedd yn byw yn yr ardal eisoes ac ymysg y rhai oedd wedi symud o ardaloedd eraill.
- Roedd cyfran sylweddol (40%) o'r ymatebwyr wedi dewis byw yn ardal Bangor achos eu bod yn yr ardal eisoes (neu eu bod yn ffurfio "aelwyd" newydd ac un / rhai o'r rheiny yn byw yn ardal Bangor eisoes (e.e. pâr yn symud at ei gilydd i fyw)).
- Roedd cyfran uchel (40%) wedi nodi diffyg costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd, fel rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol.
- Ymddengys (er fod y niferoedd yn rhy fychan i ddod at gasgliad pendant) fod mwyafrif y symudiadau eraill yn y "gadwyn" tai yng Ngwynedd wedi bod o fewn yr un ardaloedd. Er enghraifft, lle roedd pobl wedi symud i'r tai newydd o ardal Bangor ei hun, fod mwyafrif y tai roeddent yn byw ynddynt o'r blaen wedi'u prynu / rhentu gan bobl oedd hefyd yn byw yn ardal Bangor o'r blaen.

## 5. Ardal CAERNARFON

### Niferoedd ardal Caernarfon

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 129 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Caernarfon rhwng 2015 a 2017. Cawsom ymateb o 58 tŷ sef tua 47% o'r rhai gyrhaeddwyd.

Tabl 34: Ardal Caernarfon – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
129	124	58	46.8%

Mae'r 129 yma yn cynnwys datblygiad:-

- 46 tŷ newydd yn stad Gwêl y Llan, Caernarfon

Mae'r map isod o ardal Caernarfon yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 7: Ardal Caernarfon – Lleoliad tai newydd





## Poblogaeth ardal Caernarfon

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **25,246** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Caernarfon (sampl o 58)

O'r 58 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd 26% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 35: Ardal Caernarfon – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	43	74.1%
Rhentu preifat	8	13.8%
Rhentu cymdeithasol	7	12.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 36: Ardal Caernarfon – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	27	46.6%
Fflat neu maisonette	7	12.1%
Semi	18	31.0%
Teras	5	8.6%
Byngalo	1	1.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100.0%</b>

Tair ystafell wely oedd y nifer mwyaf cyffredin yn y tai newydd y cawsom ymateb ganddynt.

Tabl 37: Ardal Caernarfon – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
1	4	6.9%
2	13	22.4%
3	34	58.6%
4	7	12.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 58 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 128 o bobl yn byw ynddynt; tua 2.2 person i bob tŷ.

Tabl 38: Ardal Caernarfon – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	11	11
2	32	64
3	7	21
4	8	32
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>128</b>


Tabl 39: Ardal Caernarfon – Nifer ystafelloedd gwely i faint o bobl sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl byw yno →				Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	
1	4				<b>4</b>
2	3	10			<b>13</b>
3	3	20	4	7	<b>34</b>
4	1	2	3	1	<b>7</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>11</b>	<b>64</b>	<b>21</b>	<b>32</b>	<b>58</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble ddaeth y 128 person i'r 58 annedd newydd.

Ffigur 8: Ardal Caernarfon – Symud i ardal Caernarfon



Fe welir bod y mwyafrif llethol (85/128; 66%) o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yn ardal Caernarfon. Roedd tua 15% wedi symud o ardaloedd cyfagos yng Ngwynedd a tua 9% o Ynys Môn. Prin iawn oedd symudiadau o ardaloedd pellach na hynny.

Mae rhan helaeth o'r bobl sydd wedi symud i dŷ newydd yn y grŵp oedran 25-44 oed, gyda nifer arwyddocaol hefyd rhwng 45-64 oed.

Tabl 40: Ardal Caernarfon - Oedran

Oedran	Nifer	%
0-2	7	5.5%
3-11	15	11.7%
12-17	4	3.1%
18-24	15	11.7%
25-44	47	36.7%
45-64	26	20.3%
65-84	13	10.2%
85+	0	0.0%
Heb ateb	1	0.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>128</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Caernarfon fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

Tabl 41: Ardal Caernarfon – Oedran ac ardaloedd (symud i Gaernarfon)

Wedi symud o	0-2	3-11	12-17	18-24	25-44	45-64	65-84	85+	Heb ateb	Cyfanswm
Bangor	17%				66%		17%			6
Caernarfon	6%	15%	5%	12%	33%	21%	8%			85
Dyffryn Nantlle					40%	60%				5
Dyffryn Ogwen		50%			50%					2
Llŷn						100%				2
Porthmadog				25%	75%					4
Geni yn y tŷ newydd	100%									1
Ynys Môn		9%			45%	18%	18%			11
Conwy					50%	50%				2
Lloegr				25%			75%			4
Heb ateb				50%	50%					6
										<b>128</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 128 o bobl, nododd 116 (91%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 42: Ardal Caernarfon – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Heb ateb	1	1%
Nac ydi	11	8%
Ydi	116	91%
<b>Cyfanswm</b>	<b>128</b>	<b>100%</b>

O'r rhai 3 oed a throsodd roedd **91%** yn gallu siarad Cymraeg. (110/121)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd **81%** yn ardal Caernarfon dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 43: Ardal Caernarfon – Gallu siarad Cymraeg ac oedran

Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg		Heb Ateb	
0-2	6	86%	1	14%	0	0%
3-11	15	100%	0	0%	0	0%
12-17	4	100%	0	0%	0	0%
18-24	15	100%	0	0%	0	0%
25-44	42	89%	5	11%	0	0%
45-64	23	88%	3	12%	0	0%
65-84	11	84%	1	8%	1	8%
85+	0	0%	0	0%	0	0%
Heb ateb	0	0%	1	100%	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>116</b>	<b>91%</b>	<b>11</b>	<b>8%</b>	<b>1</b>	<b>1%</b>

Gwelwn mai oedran 65-84 sydd gyda'r % isaf o siaradwyr Cymraeg ac bod y grwpiau oedran 3-11, 12-17 a 18-24 oed i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion wedi symud i ardal Caernarfon a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai sydd wedi symud oddi fewn i ardal Caernarfon 94% (80/85) ohonynt ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Gwelwn fod 75% (3/4) o'r rhai sydd wedi symud o Loegr yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 9: Ardal Caernarfon – symud i'r ardal a gallu siarad Cymraeg


**Symud i ardal Caernarfon**

(91%) yn gallu siarad Cymraeg

85 o fewn Caernarfon eisoes  
(94%)

6 heb ymateb  
(100%)

1 geni yn y tŷ newydd  
(100%)



## laith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 44: Ardal Caernarfon – iaith gyntaf (cartrefi un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	8	72.7%
Saesneg	3	27.3%
Arall	0	0.0%
Heb ateb	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>11</b>	<b>100.0%</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nac un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 45: Ardal Caernarfon – iaith y cartref (cartrefi mwy nag un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	35	74.5%
Saesneg	10	21.3%
Arall	1	2.1%
Heb ateb	1	2.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>47</b>	<b>100.0%</b>

## Cyfuno'r cartrefi o'r ddau dabl uchod

Tabl 46: Ardal Caernarfon – iaith y cartref / iaith gyntaf (cyfanswm)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	43	74.2%
Saesneg	13	22.4%
Arall	1	1.7%
Heb ateb	1	1.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100.0%</b>

## Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Nodir isod y prif ymatebion i'r cwestiwn mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Nododd 15% o'r ymatebwyr mai wedi hoffi'r tŷ newydd oeddynt, gyda tua 14% yn nodi mai lleoliad y tŷ oedd eu rheswm dros symud, 9% eisiau prynu eu cartref cyntaf. Doedd 12% o'r ymatebwyr heb roi rheswm o gwbl.

Tabl 47: Ardal Caernarfon – Rhesymau dros symud

Pam wnaethoch chi symud yma?	Nifer	%
Wedi hoffi'r tŷ	13	14.9%
Lleoliad y tŷ	12	13.8%
Heb ateb	10	11.5%
Isio eiddo ei hun / eu hunain	8	9.2%
Tŷ o safon / gwerth am arian	6	6.9%
Angen eiddo llai	6	6.9%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefelau trosedd a sŵn	5	5.7%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	5	5.7%
Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd	5	5.7%
Angen eiddo mwy	3	3.4%
Nabod y person oedd yn rhentu'r tŷ	2	2.3%
Rhent/prisiau fforddiadwy	2	2.3%
Angen mwy o le parcio/garej	2	2.3%
Addaswydd y tŷ i anghenion personol	2	2.3%
Wedi cael ein gorfodi o'r tŷ blaenorol	2	2.3%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	2	2.3%
Isio ail gartref	1	1.1%
Ar gyfer ein ymddeoliad	1	1.1%
	<b>87</b>	

\*allan o 58 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam symud i'r ardal yma?

O'r 58 tŷ newydd roedd 36 ohonynt ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw o fewn ardal Caernarfon yn barod. Roedd 16% yn symud er mwyn bod yn agosach at deulu / ffrindiau agos. Roedd 14% o'r ymatebwyr wedi nodi mai symud i fod yn agosach at waith yr oeddynt.



Tabl 48: Ardal Caernarfon – Pam symud i'r ardal yma?

Pam symud i'r ardal yma?	Nifer	%
Un aelod yn byw yn yr ardal yn barod	36	40.0%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	14	15.6%
Lleoliad gwaith / agosach at gwaith	13	14.4%
Heb ateb	9	10.0%
Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal	6	6.7%
Er mwyn ysgol i'r plant - safon addysgu / clybiau cyn ac ar ôl ysgol	5	5.6%
Ardal Gymreig	3	3.3%
Rhywle lle roedd yn gallu fforddio	2	2.2%
I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd braf	2	2.2%
	<b>90</b>	

\*allan o 58 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam dewis tŷ newydd?

Yr ateb mwyaf cyffredin oedd oherwydd nad oes gwaith ar dŷ newydd a'r warant sydd yn dod gyda thŷ newydd – ymateb 36% o'r ymatebwyr. Nododd 12% mai wedi cael eu lleoli yn yr ardal gan Gymdeithas Tai yr oeddynt a 11% yn nodi mai lleoliad y tŷ oedd y rheswm ac nid o reidrwydd ei fod yn dŷ newydd. Roedd 9% yn nodi eu bod wedi dewis tŷ newydd oherwydd eu bod wedi gallu prynu drwy'r Cynllun Cymorth i brynu Cymru.

Tabl 49: Ardal Caernarfon – Pam dewis tŷ newydd?

Pam dewis tŷ newydd?	Nifer	%
Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd	24	36.4%
Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai	8	12.1%
Lleoliad a dim tŷ newydd oedd y prif reswm	7	10.6%
Cynllun Cymorth i brynu Cymru	6	9.1%
Heb ateb	6	9.1%
Tŷ y gallem fforddio	5	7.6%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	5	7.6%
Wedi medru cael plot i adeiladu arno	4	6.1%
Cost y rhent oedd y rheswm a dim oherwydd mai tŷ newydd oedd o	1	1.5%
	<b>66</b>	

\*allan o 58 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

O'r rhai oedd eisoes yn byw o fewn ardal Caernarfon nododd 19 ohonynt y byddent wedi chwilio am dŷ arall o fewn yr un ardal.

Tabl 50: Ardal Caernarfon – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Caernarfon yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Caernarfon yn barod	Nifer	%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Caernarfon	19	52.8%
Heb ateb	10	27.8%
Heb symud ac aros yn Ardal Caernarfon	4	11.1%
Symud i Ynys Môn	1	2.8%
Ddim yn siŵr	1	2.8%
Chwilio am dŷ rhent addas yn ardal Caernarfon	1	2.8%
	<b>36</b>	

\*allan o 36 ymateb

O'r rhai nad oedd yn byw o fewn ardal Caernarfon o'r blaen ni gafwyd ateb gan 10 ohonynt. Nododd 6 y byddent wedi chwilio am dŷ arall o fewn yr un ardal ac 1 yn nodi na fyddent wedi symud pe na fyddai'r tŷ newydd ar gael. Byddai 3 arall wedi symud i ardal Bangor pe na fyddai'r tai newydd ar gael.

Tabl 51: Ardal Caernarfon – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Caernarfon yn barod)

Y rhai NAD oedd yn byw yn ardal Caernarfon yn barod	Nifer	%
Heb ateb	10	45.5%
Dal wedi symud i ardal Caernarfon	6	27.3%
Wedi symud i ardal Bangor yn lle	3	13.6%
Ddim yn siŵr	2	9.1%
Rhywle yng Ngogledd Cymru	1	4.5%
	<b>22</b>	

\*allan o 22 ymateb

### Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

Fel nodwyd uchod roedd 36 o'r ymatebwyr ble roedd o leiaf un aelod o'r teulu yn byw yn ardal Caernarfon eisoes. Roedd 11 arall yn byw yn yr ardaloedd cyfagos yn barod. Nid oedd gan 7% o'r teuluoedd symudodd i'r ardal gysylltiad blaenorol gyda'r ardal. Ni atebodd 5% y cwestiwn hwn.

Tabl 52: Ardal Caernarfon – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal

Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?	Nifer	%
O leiaf un person byw yn yr ardal yn barod	36	62.1%
O leiaf un person byw yn yr ardal gyfagos yn barod	11	19.0%
Dim cysylltiad blaenorol	4	6.9%
Heb ateb	3	5.2%
Yn enedigol o Wynedd, ond wedi byw yn Lloegr erioed	2	3.4%
Teulu / Ffrindiau agos yn yr ardal	2	3.4%
	<b>58</b>	

\*allan o 58 ymateb

## Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen


Lle 'roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i'r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y 'gadwyn' tai yn ei hôl.

Mae'r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi'r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Fel y gwelwyd, roedd cyfran sylweddol o'r bobl a symudodd i dŷ newydd yn symud yno o rywle arall yn ardal Caernarfon; o'r rhain roedd cyfran (17/85; 20%) yn symud o dŷ'u rhieni (ac felly dim tŷ yn dod yn wag).

Ble roedd tŷ yn ardal Caernarfon wedi dod yn wag, daeth mwyafrif preswylwyr newydd y tai hynny (15 allan o 26 yn yr ymatebion a gawsom, sef 58%) o ardal Caernarfon ei hun. Daeth tua 20% o Ynys Môn a tua 20% o Loegr.

*Ffigur 10: Ardal Caernarfon – Cam 2, 3 a 4*



## Prif gasgliadau am ardal Caernarfon

- Roedd tua 35% o breswylwyr y tai newydd rhwng 25-44 oed a tua 20% rhwng 45-64 oed.
- Roedd dau-draean preswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall o fewn ardal Caernarfon ei hun.
- Y prif lefydd eraill roedd pobl yn symud ohonynt oedd ardaloedd cyfagos o Wynedd (15%) ac Ynys Môn (9%). Prin oedd y symudiadau o ardaloedd eraill.
- Roedd dros 90% o breswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sy'n uwch na'r cyfran yn ardal Caernarfon yn gyffredinol. Heblaw am y rhai symudodd o ardal Bangor, roedd mwyafrif y rhai symudodd o bob ardal arall (yn cynnwys y rhai symudodd o Loegr) yn siarad Cymraeg.
- Roedd y rhesymau dros symud i dŷ newydd yn yr ardal yn weddol gymysg, gyda nifer yn nodi eu bod yn "hoffi'r tŷ" neu wedi symud oherwydd y lleoliad. Roedd yr awydd i fyw yn ardal Caernarfon yn gryf ymysg y rhai oedd yn byw yn yr ardal eisoes, ac yn weddol bwysig ymhlith y rhai oedd wedi symud o ardaloedd eraill hefyd er bod rhai wedi nodi y byddent wedi symud i ardal Bangor pe na bai'r tŷ newydd wedi bod ar gael.
- Roedd y mwyafrif llethol (60%) eisoes yn byw yn ardal Caernarfon gyda dros 19% pellach yn nodi eu bod eisoes yn byw mewn ardal gyfagos i Gaernarfon.
- Roedd cyfran uchel (36%) wedi nodi diffyg costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd, fel rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol.
- Er fod y niferoedd yn rhy fychan i ddod at gasgliad pendant ymddengys, ble roedd tŷ yn ardal Caernarfon wedi dod yn wag achos bod pobl yn symud i'r tai newydd, bod mwyafrif (tua 60%) preswylwyr newydd y tai hynny yn eu tro yn symud o fewn ardal Caernarfon ei hun. Daeth tua 20% o Ynys Môn a tua 20% o Loegr.

## 6. Ardal DOLGELLAU

### Niferoedd ardal Dolgellau

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 78 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Dolgellau rhwng 2012 a 2017. Cawsom ymateb o 23 tŷ sef tua 32% o'r rhai gyrhaeddwyd.

Tabl 53: Ardal Dolgellau – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
78	73	23	31.5%

Mae'r 78 yma yn cynnwys datblygiadau:-

- 12 tŷ newydd yn stad Wenallt Uchaf, Dolgellau
- 11 tŷ newydd yn stad Sŵn y Dail, Abermaw

Mae'r map isod o ardal Dolgellau yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 11: Ardal Dolgellau – Lleoliad tai newydd



## Poblogaeth ardal Dolgellau

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **10,488** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Dolgellau (sampl o 23)

O'r 23 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd 17% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 54: Ardal Dolgellau – Perchen neu rentu tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	18	78.4%
Rhan-berchnogi	1	4.3%
Rhentu preifat	1	4.3%
Rhentu cymdeithasol	3	13.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 55: Ardal Dolgellau – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	13	56.5%
Fflat neu maisonette	3	13.0%
Semi	4	17.4%
Teras	2	8.7%
Heb ateb	1	4.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Tair ystafell wely oedd y nifer mwyaf cyffredin yn y tai newydd y cawsom ymateb ganddynt.

Tabl 56: Ardal Dolgellau – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
1	1	4.4%
2	5	21.7%
3	9	39.1%
4	5	21.7%
5	2	8.7%
7	1	4.4%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 23 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 53 o bobl yn byw ynddynt; tua 2.3 person i bob tŷ.

Tabl 57: Ardal Dolgellau – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	4	4
2	13	26
3	2	6
4	3	12
5	1	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>53</b>

Tabl 58: Ardal Dolgellau – Nifer ystafelloedd gwely i faint o bobl sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl yn byw yno →					Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	5	
1		1				<b>1</b>
2	2	2	1			<b>5</b>
3	1	6		2		<b>9</b>
4		3		1	1	<b>5</b>
5	1		1			<b>2</b>
7		1				<b>1</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	<b>13</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>1</b>	<b>23</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble daeth y 53 person i'r 23 annedd newydd.



Ffigur 12: Ardal Dolgellau – Symud i ardal Dolgellau

### Symud i ardal Dolgellau

18 o fewn Dolgellau eisoes

5 heb ymateb



Fe welir felly fod bron hanner (25/53; 47%) yr unigolion yn y sampl wedi symud i'r tŷ newydd o Loegr. Roedd traean (18/53; 34%) wedi symud o dŷ arall yn ardal Dolgellau a 5% wedi symud o ardal gyfagos Tywyn.

Mae rhan helaeth o'r bobl sydd wedi symud i dŷ newydd yn y grwpiau oedran 45-64 oed a 65-84 oed. Er hynny, roedd tua 20% o drigolion y tai newydd yn blant dan 11 oed.

Tabl 59: Ardal Dolgellau - Oedran

Oedran	Nifer	%
0-2	1	1.9%
3-11	10	18.9%
12-17	0	0.0%
18-24	2	3.8%
25-44	11	20.8%
45-64	14	26.4%
65-84	15	28.3%
85+	0	0.0%
Heb ateb	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>53</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Dolgellau fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

*Tabl 60: Ardal Dolgellau – Oedran ac ardaloedd (symud i Dolgellau)*

<b>Wedi symud o</b>	<b>0-2</b>	<b>3-11</b>	<b>12-17</b>	<b>18-24</b>	<b>25-44</b>	<b>45-64</b>	<b>65-84</b>	<b>85+</b>	<b>Heb ateb</b>	<b>Cyfanswm</b>
Dolgellau		44%		6%	33%	17%				18
Tywyn							100%			3
Lloegr		8%			8%	40%	44%			25
Ewrop					50%	50%				2
Heb ateb	20%			20%	40%		20%			5
										<b>53</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 53 o bobl, nododd 27 (51%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 61: Ardal Dolgellau – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Nac ydi	26	49%
Ydi	27	51%
<b>Cyfanswm</b>	<b>53</b>	<b>100%</b>

O'r rhai 3 oed a throsodd roedd **52%** yn gallu siarad Cymraeg. (27/52)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd **54%** yn ardal Dolgellau dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 62: Ardal Dolgellau – Gallu siarad Cymraeg ac oedran

Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg	
0-2	0	0%	1	100%
3-11	10	100%	0	0%
12-17	0	0%	0	0%
18-24	2	100%	0	0%
25-44	7	64%	4	36%
45-64	2	14%	12	86%
65-84	6	40%	9	60%
85+	0	0%	0	0%
Heb ateb	0	0%	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>27</b>	<b>51%</b>	<b>26</b>	<b>49%</b>


Gwelwn mai oedran 45-64 sydd gyda'r % isaf o siaradwyr Cymraeg ac bod y grwpiau oedran 3-11 a 18-24 oed i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion wedi symud i ardal Dolgellau a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai sydd wedi symud oddi fewn i ardal Dolgellau 89% (16/18) ohonynt ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Gwelwn fod 28% (7/25) o'r rhai sydd wedi symud o Loegr yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 13: Ardal Dolgellau – symud i'r ardal a gallu siarad Cymraeg



## Iaith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu iaith gyntaf.

Tabl 63: Ardal Dolgellau – iaith gyntaf (cartrefi un person)

Iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	1	25.0%
Saesneg	3	75.0%
Arall	0	0.0%
Heb ateb	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>4</b>	<b>100.0%</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nac un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 64: Ardal Dolgellau – iaith y cartref (cartrefi mwy nag un person)

Iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	2	10.5%
Saesneg	15	78.9%
Arall	1	5.3%
Heb ateb	1	5.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>100.0%</b>

## Cyfuno'r cartrefi o'r ddau dabl uchod

Tabl 65: Ardal Dolgellau – iaith y cartref / iaith gyntaf (cyfanswm)

iaith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	3	13.0%
Saesneg	18	78.4%
Arall	1	4.3%
Heb ateb	1	4.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

## Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Nodir isod y prif ymatebion i'r cwestiwn mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Nododd 22% o'r ymatebwyr mai wedi symud ar gyfer eu hymddeoliad oeddynt, gyda 9% yn nodi mai'r ffaith eu bod wedi hoffi'r tŷ oedd eu rheswm dros symud, 9% yn symud oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau bywyd ac eisiau dechrau newydd a 9% arall oherwydd y golygfeydd a'r amgylchedd naturiol. Doedd 13% o'r ymatebwyr heb roi rheswm o gwbl.

Tabl 66: Ardal Dolgellau – Rhesymau dros symud

Pam wnaethoch chi symud yma?	Nifer	%
Ar gyfer ein ymddeoliad	7	21.9%
Heb ateb	4	12.5%
Wedi hoffi'r tŷ	3	9.4%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	3	9.4%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	3	9.4%
Tŷ o safon / gwerth am arian	2	6.3%
Lleoliad y tŷ	2	6.3%
Angen eiddo mwy	2	6.3%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefelau trosedd a sŵn	2	6.3%
Angen mwy o le parcio/garej	1	3.1%
Addasrwydd y tŷ i anghenion personol	1	3.1%
Angen eiddo llai	1	3.1%
Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd	1	3.1%
	<b>32</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam symud i'r ardal yma?

O'r 23 tŷ newydd roedd 5 ohonynt ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw o fewn ardal Dolgellau yn barod. Roedd 20% yn symud er mwyn bod yn agosach at deulu / ffrindiau agos. Roedd 12% o'r ymatebwyr wedi nodi mai i gael bywyd distawach yr oeddynt.

Tabl 67: Ardal Dolgellau – Pam symud i'r ardal yma?

Pam symud i'r ardal yma?	Nifer	%
Heb ateb	6	24.0%
Un aelod yn byw yn yr ardal yn barod	5	20.0%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	5	20.0%
I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd braf	3	12.0%
Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal	2	8.0%
Rhywle lle roedd yn gallu fforddio	2	8.0%
Llai o drosedd yn yr ardal	1	4.0%
Lleoliad gwaith / agosach at gwaith	1	4.0%
	<b>25</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam dewis tŷ newydd?

Yr ateb mwyaf cyffredin oedd mai'r lleoliad ac nid o reidrwydd tŷ newydd oedd y rheswm. Nododd 14% mai cyfleustra tŷ newydd – dim gwaith neu warant tŷ newydd oedd y rheswm. Roedd 14% wedi nodi mai wedi gallu trosi adeilad oedd yn bodoli yn barod oeddynt. Roedd 11% pellach wedi medru gallu cael plot i adeiladu eu hunain arno, ac 11% arall wedi cael y tŷ gan y Cyngor/Gymdeithas dai.

Tabl 68: Ardal Dolgellau – Pam dewis tŷ newydd

Pam dewis tŷ newydd?	Nifer	%
Lleoliad a dim tŷ newydd oedd y prif reswm	8	28.6%
Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd	4	14.3%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	4	14.3%
Heb ateb	4	14.3%
Wedi medru cael plot i adeiladu arno	3	10.7%
Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai	3	10.7%
Tŷ y gallem fforddio	2	7.1%
	<b>28</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

O'r rhai oedd eisoes yn byw o fewn ardal Dolgellau nododd 4 allan o'r 5 y byddent wedi aros yn ardal Dolgellau gyda 3 yn dal i chwilio am dŷ arall ac un yn meddwl na fyddai wedi symud.

Tabl 69: Ardal Dolgellau – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Dolgellau yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Dolgellau yn barod	Nifer	%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Dolgellau	3	60.0%
Heb symud ac aros yn ardal Dolgellau	1	20.0%
Heb ateb	1	20.0%
	<b>5</b>	

\*allan o 5 ymateb

O'r rhai nad oedd yn byw yn ardal Dolgellau o'r blaen nododd 9 y byddent wedi chwilio am dŷ arall o fewn yr un ardal. Nododd 2 na fyddent wedi symud pe na fyddai'r tŷ newydd ar gael a byddent wedi aros yn Lloegr. Byddai 1 arall wedi symud i ardal Llŷn pe na fyddai'r tŷ newydd wedi bod ar gael.

Tabl 70: Ardal Dolgellau – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Dolgellau yn barod)

Y rhai <u>NAD</u> oedd yn byw yn ardal Dolgellau yn barod	Nifer	%
Dal wedi symud i ardal Dolgellau	9	50.0%
Heb ateb	4	22.2%
Heb symud ac aros yn Lloegr	2	11.1%
Ddim yn siŵr	2	11.1%
Dal wedi symud ond i ardal Llŷn	1	5.6%
	<b>18</b>	

\*allan o 18 ymateb

### Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

Fel nodwyd uchod roedd 5 o'r ymatebwyr ble roedd o leiaf un aelod o'r teulu yn byw yn ardal Dolgellau eisoes. Roedd 2 ymatebwr arall yn byw yn yr ardaloedd cyfagos yn barod. Nododd 35% eu bod wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd.

Tabl 71: Ardal Dolgellau – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal

Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?	Nifer	%
Wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd	8	34.8%
O leiaf un person byw yn yr ardal yn barod	5	21.7%
Heb ateb	4	17.4%
O leiaf un person yn byw yn yr ardal gyfagos yn barod	2	8.7%
Teulu / Ffrindiau agos yn yr ardal	2	8.7%
Yn enedigol o Wynedd, ond wedi byw yn Lloegr erioed	1	4.3%
Dim cysylltiad blaenorol	1	4.3%
	<b>23</b>	

\*allan o 23 ymateb

## Y tai lle ‘roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o’r blaen

Lle ‘roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i’r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y ‘gadwyn’ tai yn ei hôl.


Mae’r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi’r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Fel y nodwyd uchod roedd tua hanner preswylwyr y tai newydd wedi symud yno o Loegr; nid oedd effaith ddilynol ar ardaloedd eraill o Wynedd yn yr achosion yma felly. Golyga hyn mai bychan yw nifer yr ymatebion posib ar gyfer dilyn y ‘gadwyn’ drwy ardaloedd Gwynedd.

Mae’r sampl sydd gennym yn awgrymu – lle ‘roedd pobl wedi symud i dŷ newydd o eiddo arall yn ardal Dolgellau, bod y tai hynny wedyn wedi cael eu prynu / rhentu gan bobl eraill o ardal Dolgellau. Tra os oedd pobl wedi symud o ardal Tywyn, bod eu cyn-eiddo yn Nhywyn wedi mynd wedyn i bobl yn symud o Loegr. Er hyn, bychan iawn yw’r sampl ar gyfer yr elfen yma a byddai’n annoeth cymryd ei fod yn gwbl gynrychioladol.

*Ffigur 14: Ardal Dolgellau – Cam 2, 3 a 4*





## Prif gasgliadau am ardal Dolgellau

- Roedd dros chwarter preswylwyr y tai newydd dros 65 oed gyda chwarter arall rhwng 45-64 oed.
- Roedd bron hanner preswylwyr y tai newydd wedi symud yno o Loegr a tua thraean wedi symud yno o eiddo arall o fewn ardal Dolgellau ei hun.
- Fe welir gwahaniaeth sylweddol rhwng proffil oedran y rhai symudodd o Loegr (oedd bron i gyd dros 45 oed a bron eu hanner dros 65 oed) a'r rhai symudodd yno o eiddo arall yn ardal Dolgellau (dros 80% ohonynt dan 44 oed, a bron eu hanner yn blant).
- Roedd tua hanner preswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sy'n eithaf tebyg i'r cyfran yn ardal Dolgellau yn gyffredinol.
- Fe welir gwahaniaeth sylweddol yng ngallu preswylwyr y tai newydd i siarad Cymraeg rhwng grwpiau oedran – yn enwedig rhwng plant (oedd i gyd yn gallu siarad Cymraeg) a 45-64 oed (dros 85% ohonynt ddim yn siarad Cymraeg).
- Roedd gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng y rhai symudodd o wahanol ardaloedd, gyda 90% o'r rhai symudodd o eiddo arall yn ardal Dolgellau yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â tua chwarter y rhai symudodd o Loegr.
- Roedd y rhesymau dros symud i dŷ newydd yn yr ardal yn weddol gymysg, gyda nifer yn nodi eu bod yn symud yno ar gyfer ymddeoliad, yn "hoffi'r tŷ" neu eisiau "dechrau newydd" mewn ardal wahanol / wledig. Nododd bron y cyfan o'r bobl oedd yn byw yn ardal Dolgellau eisoes eu bod eisiau aros yn yr ardal, ac roedd tua hanner y rhai symudodd o ardaloedd eraill hefyd wedi nodi y byddent wedi symud i eiddo arall yn ardal Dolgellau pe na bai'r tŷ newydd wedi bod ar gael.
- Roedd tua traean yr ymatebwyr wedi bod yn dod i'r ardal ar wyliau dros y blynyddoedd.
- Roedd y rhesymau dros ddewis tŷ newydd yn eitha' amrywiol ond nododd dros chwarter y sampl mai'r lleoliad oedd wedi gwneud iddynt ddewis byw yno yn hytrach na'u bod yn chwilio am dŷ newydd fel y cyfryw.

## 7. Ardal DYFFRYN NANTLLE

### Niferoedd ardal Dyffryn Nantlle

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 35 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Dyffryn Nantlle rhwng 2015 a 2017. Cawsom ymateb o 21 tŷ sef tua 64% o'r rhai gyrhaeddwyd.

Tabl 72: Ardal Dyffryn Nantlle – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
35	33	21	63.6%

Mae'r 35 yma yn cynnwys datblygiad:-

- 5 tŷ newydd yn stad Cae Capel Bach, Penygroes

Mae'r map isod o ardal Dyffryn Nantlle yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 15: Ardal Dyffryn Nantlle – Lleoliad tai newydd



## Poblogaeth ardal Dyffryn Nantlle

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **7,847** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Dyffryn Nantlle (sampl o 21)

O'r 21 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd tua 19% ohonynt yn cael eu rhentu yn breifat.

Tabl 73: Ardal Dyffryn Nantlle – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	16	76.2%
Rhentu preifat	4	19.0%
Heb ateb	1	4.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 74: Ardal Dyffryn Nantlle – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	16	76.2%
Fflat neu maisonette	4	19.0%
Semi	1	4.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 75: Ardal Dyffryn Nantlle – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
2	7	33.3%
3	6	28.6%
4	7	33.3%
5	1	4.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 21 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 58 o bobl yn byw ynddynt; tua 2.8 person i bob tŷ.

Tabl 76: Ardal Dyffryn Nantlle – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	3	3
2	8	16
3	4	12
4	4	16
5	1	5
6	1	6
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	<b>58</b>

Tabl 77: Ardal Dyffryn Nantlle – Nifer ystafelloedd gwely i faint o bobl sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl yn byw yno →						Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	5	6	
2	2	4	1				7
3	1	1	1	3			6
4		3	2	1	1		7
5						1	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	<b>8</b>	<b>4</b>	<b>4</b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>21</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble ddaeth y 58 person i'r 21 annedd newydd.

Ffigur 16: Ardal Dyffryn Nantlle – Symud i ardal Dyffryn Nantlle

### Symud i ardal Dyffryn Nantlle



Fe welir bod cyfran sylweddol (21/58; 36%) o'r unigolion wedi symud i'r tai newydd o eiddo arall yn ardal Dyffryn Nantlle. Roedd nifer hefyd wedi symud o ardal gyfagos Caernarfon (18/58; 31%). Fel arall roedd yr ardaloedd symudodd pobl ohonynt yn amrywiol gyda tua 7% yn symud o ardal gyfagos Porthmadog a tua 7% arall o Ewrop y tu allan i'r DU.

Roedd oedranau'r bobl symudodd i dŷ newydd yn eithaf amrywiol hefyd gyda tua chwarter yn y grŵp oedran 25-44 oed, tua chwarter dros 45 oed a tua chwarter yn blant.

Tabl 78: Ardal Dyffryn Nantlle - Oedran

Oedran	Nifer	%
0-2	2	3.4%
3-11	9	15.5%
12-17	4	6.9%
18-24	7	12.1%
25-44	16	27.6%
45-64	7	12.1%
65-84	8	13.8%
85+	1	1.7%
Heb ateb	4	6.9%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Dyffryn Nantlle fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

Tabl 79: Ardal Dyffryn Nantlle – Oedran ac ardaloedd (symud i Dyffryn Nantlle)

Wedi symud o	0-2	3-11	12-17	18-24	25-44	45-64	65-84	85+	Heb ateb	Cyfanswm
Caernarfon		17%	11%	17%	33%	17%	6%			18
Dyffryn Nantlle	10%	19%	10%	5%	33%	10%	10%		5%	21
Porthmadog		25%			50%			25%		4
Geni yn y tŷ newydd		100%								1
Ynys Môn				33%	33%				33%	3
Conwy				100%						2
Lloegr						100%				2
Ewrop							100%			4
Asia							100%			1
Heb ateb									100%	2
										<b>58</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 58 o bobl, nododd 48 (83%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 80: Ardal Dyffryn Nantlle – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Heb ateb	3	5.2%
Nac ydi	7	12.1%
Ydi	48	82.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>58</b>	<b>100%</b>

O'r rhai 3 oed a throsodd roedd 82% yn gallu siarad Cymraeg. (46/56)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 78% yn ardal Dyffryn Nantlle dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 81: Ardal Dyffryn Nantlle – Gallu siarad Cymraeg ac Oedran


Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg		Heb ateb	
0-2	2	100%	0	0%	0	0%
3-11	9	100%	0	0%	0	0%
12-17	4	100%	0	0%	0	0%
18-24	7	100%	0	0%	0	0%
25-44	14	88%	1	6%	1	6%
45-64	5	71%	2	29%	0	0%
65-84	4	50%	4	50%	0	0%
85+	1	100%	0	0%	0	0%
Heb ateb	2	50%	0	0%	2	50%
<b>Cyfanswm</b>	<b>48</b>	<b>83%</b>	<b>7</b>	<b>12%</b>	<b>3</b>	<b>5%</b>

Gwelwn mai oedran 65-84 sydd gyda'r % isaf o siaradwyr Cymraeg ac bod y grwpiau oedran 0-2, 3-11, 12-17 a 18-24 oed i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion a symudodd i ardal Dyffryn Nantlle a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai a symudodd oddi fewn i ardal Dyffryn Nantlle dywedodd 100% (21/21) ohonynt eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 17: Ardal Dyffryn Nantlle – symud i'r ardal a gallu siarad Cymraeg





## laith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 82: Ardal Dyffryn Nantlle – iaith gyntaf (cartrefi un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	1	33.0%
Saesneg	2	67.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>3</b>	<b>100.0%</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nag un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 83: Ardal Dyffryn Nantlle – iaith y cartref (cartrefi mwy nag un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	14	77.8%
Saesneg	4	22.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>18</b>	<b>100.0%</b>

## Cyfuno'r cartrefi o'r ddau dabl uchod

Tabl 84: Ardal Dyffryn Nantlle – iaith y cartref / iaith gyntaf (cyfanswm)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	15	71.4%
Saesneg	6	28.6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>21</b>	

## Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Nodir isod y prif ymatebion i'r cwestiwn mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Nododd 19% o'r ymatebwyr mai wedi symud er mwyn cael eu eiddo eu hunain roeddynt, gyda 14% yn nodi mai'r ffaith eu bod wedi hoffi'r tŷ oedd eu rheswm dros symud, 11% yn credu bod tŷ newydd yn cynnig gwerth am arian/tŷ o safon a 11% arall eisiau tŷ mwy.

Tabl 85: Ardal Dyffryn Nantlle – Rhesymau dros symud

Pam wnaethoch chi symud yma?	Nifer	%
Isio eiddo ei hun / eu hunain	7	19.4%
Wedi hoffi'r tŷ	5	13.9%
Tŷ o safon / gwerth am arian	4	11.1%
Angen eiddo mwy	4	11.1%
Addasrwydd y tŷ i anghenion personol	3	8.3%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	3	8.3%
Lleoliad y tŷ	2	5.6%
Angen mwy o le parcio/garej	2	5.6%
Heb ateb	2	5.6%
Angen eiddo llai	1	2.8%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefelau trosedd a sŵn	1	2.8%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	1	2.8%
Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd	1	2.8%
	<b>36</b>	

\*allan o 21 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam symud i'r ardal yma?

O'r 21 tŷ newydd roedd 5 ohonynt ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw o fewn ardal Dyffryn Nantlle yn barod. Roedd 25% yn symud er mwyn bod yn agosach at eu lleoliad gwaith. Roedd 21% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi symud i fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos.

Tabl 86: Ardal Dyffryn Nantlle – Pam symud i'r ardal yma?

Pam symud i'r ardal yma?	Nifer	%
Lleoliad gwaith / agosach at waith	6	25.0%
Un aelod yn byw yn yr ardal yn barod	5	20.8%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	5	20.8%
Heb ateb	4	16.7%
Er mwyn ysgol i'r plant - safon addysgu / clybiau cyn ac ar ôl ysgol	2	8.3%
Lle addas i fagu plant	1	4.2%
Rhywle lle roedd yn gallu fforddio	1	4.2%
	<b>24</b>	

\*allan o 21 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

## Pam dewis tŷ newydd?

Nododd 41% mai oherwydd cyfleustra tŷ newydd – dim gwaith neu warant tŷ newydd oedd y rheswm. Roedd 22% wedi nodi mai wedi gallu trosi adeilad oedd yn bodoli yn barod oeddynt. Roedd 11% pellach wedi medru gallu cael plot i adeiladu eu hunain arno. Roedd 11% yn nodi mai lleoliad ac nid y ffaith mai tŷ newydd oedd y rheswm dros brynu.

Tabl 87: Ardal Dyffryn Nantlle – Pam dewis tŷ newydd?

Pam dewis tŷ newydd?	Nifer	%
Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd	11	40.7%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	6	22.2%
Wedi medru cael plot i adeiladu arno	3	11.1%
Lleoliad a dim tŷ newydd oedd y prif reswm	3	11.1%
Tŷ y gallem fforddio	2	7.4%
Heb ateb	1	3.7%
Cost y rhent oedd y rheswm ac nid oherwydd tŷ newydd	1	3.7%
	<b>27</b>	

\*allan o 21 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

## Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

O'r rhai oedd eisoes yn byw o fewn ardal Dyffryn Nantlle nododd eu hanner byddent wedi aros yn ardal Dyffryn Nantlle gyda 2 yn meddwl y byddent wedi symud i ardal Caernarfon ac 1 yn meddwl na fyddai wedi symud.

Tabl 88: Ardal Dyffryn Nantlle – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Dyffryn Nantlle yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Dyffryn Nantlle yn barod	Nifer	%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Dyffryn Nantlle	4	50.0%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Gaernarfon	2	25.0%
Heb symud ac aros yn Nyffryn Nantlle	1	12.5%
Heb ateb	1	12.5%
	<b>8</b>	

\*allan o 8 ymateb

O'r rhai nad oedd yn byw o fewn ardal Dyffryn Nantlle nododd 2 y byddent wedi chwilio am dŷ arall o fewn yr un ardal. Nododd 2 na fyddent wedi symud pe na fyddai'r tŷ newydd ar gael. Byddai 3 arall wedi chwilio am dŷ newydd o fewn Gwynedd, 1 wedi symud i Ynys Môn ac 1 arall i rywle yng nngogledd Cymru.

Tabl 89: Ardal Dyffryn Nantlle – Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Dyffryn Nantlle yn barod)

Y rhai <u>NAD</u> oedd yn byw yn ardal Dyffryn Nantlle yn barod	Nifer	%
Dal wedi symud i ardal Dyffryn Nantlle	2	15.4%
Wedi symud i ardal Caernarfon yn lle	2	15.4%
Ddim yn siŵr	2	15.4%

Heb ateb	2	15.4%
Wedi symud i ardal Bangor yn lle	1	7.7%
Wedi symud i ardal Ynys Môn yn lle	1	7.7%
Heb symud ac aros yn Ardal Porthmadog	1	7.7%
Heb symud ac aros yn Ynys Môn	1	7.7%
Rhywle yng Ngogledd Cymru	1	7.7%
	<b>13</b>	

*\*allan o 13 ymateb*

### **Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?**

Fel nodwyd yn barod roedd 8 o'r ymatebwyr ble roedd o leiaf un aelod o'r teulu yn byw yn ardal Dyffryn Nantlle eisoes. Roedd 3 ymatebwr arall yn byw yn yr ardaloedd cyfagos yn barod. Nododd 24% nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiad blaenorol gyda'r ardal.

*Tabl 90: Ardal Dyffryn Nantlle – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal*

<b>Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?</b>	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
O leiaf un person byw yn yr ardal yn barod	8	38.1%
Dim cysylltiad blaenorol	5	23.8%
O leiaf un person byw yn yr ardal gyfagos yn barod	3	14.3%
Wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd	1	4.8%
Dychwelyd yn ôl ar ôl bod ffwrdd yn brifysgol/gweithio	1	4.8%
Teulu / Ffrindiau agos yn yr ardal	1	4.8%
Gweithio yn yr ardal	1	4.8%
Heb ateb	1	4.8%
	<b>21</b>	

*\*allan o 21 ymateb*


## Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen

Lle 'roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i'r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y 'gadwyn' tai yn ei hôl.

Mae'r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi'r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Yn anffodus mae'r niferoedd bychan o ymatebion ar gyfer y camau pellach yma yn ei gwneud yn anodd dod at gasgliadau; ble roedd tŷ yn ardal Dyffryn Nantlle wedi dod yn wag, roedd preswylwyr y tai hynny wedi dod o'r tu allan i Brydain neu'r tŷ wedi'i droi yn lety. Lle roedd tai yn ardal Caernarfon wedi dod yn wag oherwydd bod y preswylwyr wedi symud i dŷ newydd yn Nyffryn Nantlle, roedd y preswylwyr newydd wedi dod o ardaloedd eraill o Wynedd / Cymru. Ond byddai'n annoeth rhoi llawer o bwys ar y canlyniadau yma oherwydd mai un neu ddau dŷ yn unig sy'n sail iddynt.

*Ffigur 18: Ardal Dyffryn Nantlle – Cam 2, 3 a 4*



## Prif gasgliadau am ardal Dyffryn Nantlle

- Roedd y bobl symudodd i'r tai newydd yn eithaf cymysg o ran grŵp oedran.
- Roedd dau-draean preswylwyr y tai newydd wedi symud yno un ai o dŷ arall o fewn ardal Dyffryn Nantlle neu o ardal gyfagos Caernarfon. Fel arall roedd yr ardaloedd y symudodd pobl ohonynt yn amrywiol.
- Roedd dros 80% o breswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sy'n eithaf tebyg i'r cyfran yn ardal Dyffryn Nantlle yn gyffredinol.
- Roedd y rhesymau dros symud i dŷ newydd yn yr ardal yn weddol gymysg, gyda nifer yn nodi eu bod eisiau "lle eu hunain", yn "hoffi'r tŷ" neu'n teimlo bod y tŷ newydd yn cynnig safon / gwerth am arian. Roedd bron y cyfan o'r rhai oedd yn byw yn yr ardal eisoes wedi bod eisiau eiddo yn ardal Dyffryn Nantlle neu Gaernarfon, tra ymysg y rhai oedd wedi symud o ardaloedd eraill 'roedd y teimlad yma'n llai cryf – nifer yn nodi y byddent wedi symud i ardaloedd eraill o Wynedd neu siroedd cyfagos pe na bai'r tŷ newydd wedi bod ar gael.
- O'r bobl symudodd i ardal Dyffryn Nantlle, doedd gan tua'u chwarter ddim cysylltiad blaenorol gyda'r ardal.
- Roedd cyfran uchel (40%) wedi nodi diffyg costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd, fel rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol.

## 8. Ardal DYFFRYN OGWEN

### Niferoedd ardal Dyffryn Ogwen

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 47 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Dyffryn Ogwen rhwng 2015 a 2017. Cawsom ymateb o 19 tŷ sef 40% o'r cyfanswm.

Tabl 91: Ardal Dyffryn Ogwen – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
47	47	19	40.4%

Mae'r 47 yma yn cynnwys datblygiad:-

- 15 tŷ newydd yn stad Plas y Coed, Porth Penrhyn

Mae'r map isod o ardal Dyffryn Ogwen yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 19: Ardal Dyffryn Ogwen – Lleoliad tai newydd





## Poblogaeth ardal Dyffryn Ogwen

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **8,436** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Dyffryn Ogwen (sampl o 19)

O'r 19 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd bron i 37% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 92: Ardal Dyffryn Ogwen – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	12	63.2%
Rhentu preifat	4	21.1%
Rhentu Cymdeithasol	3	15.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 93: Ardal Dyffryn Ogwen – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Ar wahân	11	57.9%
Fflat neu maisonette	1	5.3%
Teras	2	10.5%
Semi	5	26.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>100.0%</b>

Tair ystafell wely oedd y nifer mwyaf cyffredin yn y tai newydd y cawsom ymateb ganddynt.

Tabl 94: Ardal Dyffryn Ogwen – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
2	5	26.3%
3	10	52.6%
4	4	21.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 19 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 65 o bobl yn byw ynddynt; tua 3.4 person i bob tŷ.

Tabl 95: Ardal Dyffryn Ogwen – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	2	2
2	2	4
3	3	9
4	10	40
5	2	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>65</b>


Tabl 96: Ardal Dyffryn Ogwen – Nifer ystafelloedd gwely i faint sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl yn byw yno →					Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	5	
2		2	1	2		5
3	2		2	5	1	10
4				3	1	4
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>10</b>	<b>2</b>	<b>19</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble daeth y 65 person i'r 19 annedd newydd.

Ffigur 20: Ardal Dyffryn Ogwen – Symud i ardal Dyffryn Ogwen



Fe welir bod cyfran sylweddol (40/65; 62%) o'r unigolion yn y sampl wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yn ardal Dyffryn Ogwen. Roedd nifer (13/65; 20%) wedi symud o ardal gyfagos Bangor hefyd.

Fel arall 'roedd yr ardaloedd y symudodd pobl ohonynt yn eithaf cymysg, gyda phrin neb yn symud o weddill Gwynedd a tua 6% yn symud o Ynys Môn.

Roedd cyfran helaeth o'r bobl symudodd i dŷ newydd yn y grŵp oedran 25-44 oed, gyda chyfran sylweddol o blant hefyd. Doedd neb dros 65 oed wedi symud i ardal Dyffryn Ogwen ymhlith y rhai atebodd.

*Tabl 97: Ardal Dyffryn Ogwen - Oedran*

Oedran	Nifer	%
0-2	9	13.8%
3-11	13	20.0%
12-17	2	3.1%
18-24	7	10.8%
25-44	25	38.5%
45-64	8	12.3%
65-84	0	0.0%
85+	0	0.0%
Heb ateb	1	1.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>65</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Dyffryn Ogwen fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

*Tabl 98: Ardal Dyffryn Ogwen – Oedran ac ardaloedd (symud i ardal Dyffryn Ogwen)*

Wedi symud o	0-2	3-11	12-17	18-24	25-44	45-64	65-84	85+	Heb ateb	Cyfanswm
Bangor	15%	8%		31%	31%	15%				13
Caernarfon		50%			50%					2
Dyffryn Ogwen	13%	20%	5%	8%	40%	13%			3%	40
Geni yn y tŷ newydd	100%									2
Ynys Môn		50%			25%	25%				4
Lloegr		33%			67%					3
Asia					100%					1
										<b>65</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 65 o bobl, nododd 56 (86%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 99: Ardal Dyffryn Ogwen – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Heb ateb	1	1.5%
Nac ydi	8	12.3%
Ydi	56	86.2%
<b>Cyfanswm</b>	<b>65</b>	<b>100%</b>

O'r rhai 3 oed a throsodd roedd 89% yn gallu siarad Cymraeg. (50/56)

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 73% yn ardal Dyffryn Ogwen dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 100: Ardal Dyffryn Ogwen – Gallu siarad Cymraeg ac oedran

Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg		Heb ateb	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
0-2	6	67%	2	22%	1	11%
3-11	13	100%	0	0%	0	0%
12-17	2	100%	0	0%	0	0%
18-24	5	71%	2	29%	0	0%
25-44	23	92%	2	8%	0	0%
45-64	6	75%	2	25%	0	0%
65-84	0	0%	0	0%	0	0%
85+	0	0%	0	0%	0	0%
Heb ateb	1	100%	0	0%	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>56</b>	<b>86%</b>	<b>8</b>	<b>12%</b>	<b>1</b>	<b>2%</b>

Gwelwn bod y grwpiau oedran 3-11 a 12-17 oed i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion wedi symud i ardal Dyffryn Ogwen a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai sydd wedi symud oddi fewn i ardal Dyffryn Ogwen dywedodd 98% (39/40) ohonynt eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 21: Ardal Dyffryn Ogwen – symud i'r ardal a gallu i siarad Cymraeg

### Symud i ardal Dyffryn Ogwen

(86% yn gallu siarad Cymraeg

40 o fewn Dyffryn Ogwen eisoes  
(98%)

2 geni yn y tŷ newydd  
(50%)

Ynys Môn 4  
(100%)

13  
(86%)

2  
(100%)

3 Lloegr  
(67%)

1 Asia  
(0%)



## laith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 101: Ardal Dyffryn Ogwen – iaith gyntaf (cartrefi un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	0	0.0%
Saesneg	2	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 180: Ardal Porthmadog - Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Porthmadog yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Porthmadog yn barod	Nifer	%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i Porthmadog	8	38.1%
Heb symud ac aros yn Ardal Porthmadog	8	38.1%
Ddim yn siŵr	2	9.5%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Bangor	1	4.8%
Symud i rywle yn Lloegr	1	4.8%
Heb ateb	1	4.8%
	<b>21</b>	

\*allan o 21 ymateb

O'r rhai nad oeddent yn byw yn yr ardal o'r blaen, byddai 60% o'r aelwydydd yn dal wedi symud i ardal Porthmadog ac 1 aelwyd yn meddwl y buasant wedi aros yn ardal Ffestiniog.

Tabl 181: Ardal Porthmadog - Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Porthmadog yn barod)

Y rhai NAD oedd yn byw yn ardal Porthmadog yn barod	Nifer	%
Dal wedi symud i ardal Porthmadog	6	60.0%
Ddim yn siŵr	2	20.0%
Heb symud ac aros yn ardal Ffestiniog	1	10.0%
Heb ateb	1	10.0%
	<b>10</b>	

\*allan o 10 ymateb

### Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

Fel nodwyd yn barod roedd 21 o'r ymatebwyr ble roedd o leiaf un aelod o'r teulu yn byw yn ardal Porthmadog eisoes. Roedd 23% pellach yn byw mewn ardal gyfagos yn barod. Roedd 7% wedi bod yn dod ar wyliau dros y blynyddoedd i'r ardal.

Tabl 182: Ardal Porthmadog – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal

Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?	Nifer	%
O leiaf un person byw yn yr ardal yn barod	21	67.7%
O leiaf un person byw yn yr ardal gyfagos yn barod	7	22.6%
Wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd	2	6.5%
Heb ateb	1	3.2%
	<b>31</b>	

\*allan o 31 ymateb


## Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen

Lle 'roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i'r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y 'gadwyn' tai yn ei hôl.

Mae'r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi'r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Mae'r niferoedd ymatebion yn rhy fach i allu dweud unrhyw beth pendant am y symudiadau sydd ymhellach yn ôl yn y 'gadwyn' ond fe welir, er enghraifft, o'r 19 tŷ yn ardal Porthmadog ddaeth yn wag wrth i bobl symud i'r tai newydd, bod 2 wedi'u prynu / rhentu gan bobl eraill o ardal Porthmadog ac 1 gan bobl yn symud o Loegr (ond nid ydym wedi cael ymateb o'r 16 tŷ arall). Mae hyn yn awgrymu, efallai, fod y symudiadau blaenorol yn tueddu i fod o fewn yr un ardal leol gan mwyaf, ond mae'n anodd bod yn bendant.

*Ffigur 37: Ardal Porthmadog – Camau 2, 3 a 4*



## Prif gasgliadau am ardal Porthmadog

- Roedd proffil oedran y bobl symudodd i dŷ newydd yn gymharol ifanc, gyda tua 38% rhwng 25-44 oed a tua chwarter rhwng 3-11 oed.
- Roedd bron 80% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o eiddo arall yn ardal Porthmadog. Fel arall roedd 7% wedi symud o ardal Ffestiniog a 6% yr un o ardal Ffestiniog ac o Loegr.
- Roedd proffil oedran y rhai a symudodd o wahanol ardaloedd yn wahanol iawn; roedd dros 40% o'r rhai oedd yn byw yn ardal Porthmadog gynt rhwng 25-44 oed, tra bod 80% o'r rhai symudodd o Loegr rhwng 65-84 oed.
- Roedd tua 80% o breswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sydd yn uwch na'r cyfran yn ardal Porthmadog yn gyffredinol.
- Roedd gallu y preswylwyr newydd i siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol fesul grŵp oedran – roedd mwyaf pob grŵp oedran yn siarad Cymraeg ac eithrio rhwng 65-84 oed, lle mai tua 20% ohonynt oedd yn siarad Cymraeg.
- Roedd dros 80% o'r rhai oedd yn byw yn ardal Porthmadog gynt ac a symudodd i dŷ newydd yn gallu siarad Cymraeg, ond doedd neb a symudodd o Loegr yn gallu'i siarad.
- Y rhesymau a nodwyd amlaf dros symud i dŷ newydd yn yr ardal oedd eu bod eisiau symud i eiddo'u hunain, mai'r eiddo yma oedd ar gael ar y pryd, a'r syniad fod y tŷ newydd o safon / yn rhoi gwerth am arian.
- O'r ymatebwyr oedd wedi symud o eiddo arall yn ardal Porthmadog, roedd y mwyafrif llethol yn nodi y byddent fel arall wedi aros yn yr ardal p'run bynnag (un ai drwy gael tŷ arall yn yr un ardal neu beidio symud o gwbl). Hyd yn oed ymhlith y rhai symudodd o ardaloedd eraill, roedd 60% yn nodi y byddent wedi symud i ardal Porthmadog p'run bynnag pe bai'r tŷ newydd heb fod ar gael.
- O'r ymatebwyr oedd wedi symud i ardal Porthmadog o ardaloedd eraill, roedd y rhan fwyaf â chysylltiad blaenorol â'r ardal drwy aelodau'r teulu yn byw mewn ardaloedd cyfagos.
- O ran y rhesymau dros ddewis tŷ newydd yn benodol, y rhai mwyaf cyffredin oedd cael eu lleoli yno gan y Cyngor / cymdeithas dai, cyfleustra (dim gwaith / costau cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd), a gallu cael tir i adeiladu arno.



## 13. Ardal TYWYN

### Niferoedd ardal Tywyn

Mewn cyfanswm roedd gennym gyfeiriad 63 tŷ newydd oedd wedi eu cwblhau yn ardal Tywyn rhwng 2012 a 2017. Cawsom ymateb o 23 tŷ sef 40% o'r rhai gyrhaeddwyd.

Tabl 183: Ardal Tywyn – Nifer tai a holwyd


Nifer	Nifer gyrhaeddwyd	Nifer atebodd	% atebodd o'r rhai gyrhaeddwyd
63	58	23	39.7%

Mae'r 63 yma yn cynnwys datblygiad:-

- 13 tŷ newydd yn stad Tai Pendre, Tywyn

Mae'r map isod o ardal Tywyn yn dangos lleoliad y tai newydd.

Ffigur 38: Ardal Tywyn – Lleoliad tai newydd



## Poblogaeth ardal Tywyn

Poblogaeth yr ardal dan sylw yw **7,337** (amcangyfrifon canol blwyddyn 2017, Swyddfa Ystadegau Gwladol)

## Yr anheddau newydd yn ardal Tywyn (sampl o 23)

O'r 23 annedd newydd lle cawsom ymateb roedd 61% ohonynt yn cael eu rhentu un ai yn breifat neu gan gymdeithas dai.

Tabl 184: Ardal Tywyn – Perchen neu rentu y tŷ

Perchen neu rentu y tŷ	Nifer	%
Perchen	9	39.1%
Rhentu preifat	6	26.1%
Rhentu Cymdeithasol	8	34.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Y math mwyaf cyffredin o dŷ newydd a gawsom ymateb ganddynt oedd tŷ ar wahân.

Tabl 185: Ardal Tywyn – Math o dŷ

Math o dŷ	Nifer	%
Byngalo	2	8.7%
Semi	6	26.1%
Teras	1	4.3%
Ar wahân	8	34.8%
Fflat neu maisonette	6	26.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 186: Ardal Tywyn – Nifer ystafelloedd gwely

Nifer ystafelloedd gwely	Nifer	%
1	4	17.4%
2	8	34.8%
3	8	34.8%
5	3	13.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

Yn y 23 tŷ atebodd yr holiadur roedd cyfanswm o 48 o bobl yn byw ynddynt; tua 2.1 person i bob tŷ.

Tabl 187: Ardal Tywyn – Nifer pobl yn y tŷ

Nifer pobl yn y tŷ	Nifer cartrefi	Cyfanswm Pobl
1	8	8
2	9	18
3	3	9
4	2	8
5	1	5
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>48</b>

Tabl 188: Ardal Tywyn – Nifer ystafelloedd gwely i faint o bobl sy'n byw yno

Nifer Ystafelloedd Gwely ↓	Nifer o bobl yn byw yno →					Cyfanswm Cartrefi
	1	2	3	4	5	
1	4					4
2	1	6	1			8
3	2	3	1	2		8
5	1		1		1	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>9</b>	<b>3</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>23</b>

## Y bobl symudodd i'r tai newydd

Mae'r map isod yn dangos o ble daeth y 48 person i'r 23 annedd newydd.

Ffigur 39: Ardal Tywyn – Symud i ardal Tywyn

### Symud i ardal Tywyn

28 o fewn Tywyn eisoes



Fe welir bod mwyafrif (28/48; 58%) o'r unigolion yn y sampl wedi symud i'r tŷ newydd o rywle arall yn ardal Tywyn. Roedd cyfran sylweddol (17/48; 35%) wedi symud yno o Loegr. Prin oedd y symudiadau o lefydd eraill.

Roedd grŵp oedran y bobl symudodd i'r tai newydd yn weddol gymysg, gyda bron 30% yn blant, dros chwarter rhwng 45-64 oed a bron 20% dros 65 oed.

Tabl 189: Ardal Tywyn - Oedran

Oedran	Nifer	%
0-2	0	0.0%
3-11	7	14.6%
12-17	7	14.6%
18-24	2	4.2%
25-44	10	20.8%
45-64	13	27.1%
65-84	9	18.8%
85+	0	0.0%
Heb ateb	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>48</b>	<b>100.0%</b>

Mae'r tabl nesaf yn dadansoddi'r nifer ddaeth i fyw i annedd newydd yn ardal Tywyn fesul y cyfran ym mhob grŵp oedran.

Tabl 190: Ardal Tywyn – Oedran ac ardaloedd (symud i ardal Tywyn)

Wedi symud o	0-2	3-11	12-17	18-24	25-44	45-64	65-84	85+	Heb ateb	Cyfanswm
Dolgellau		33%				67%				3
Tywyn		21%	18%	4%	32%	11%	14%			28
Lloegr			12%	6%	6%	47%	29%			17
										<b>48</b>

## Iaith y bobl symudodd i'r tai newydd

O'r 48 o bobl, nododd 24 (50%) eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

### Iaith yr unigolion

Tabl 191: Ardal Tywyn – Gallu siarad Cymraeg

	Gallu siarad Cymraeg	%
Nac ydi	24	50.0%
Ydi	24	50.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>48</b>	<b>100.0%</b>

Nid oedd neb o dan 3 oed wedi symud i ardal Tywyn.

Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 39% yn ardal Tywyn dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Tabl 192: Ardal Tywyn – Gallu siarad Cymraeg ac oedran


Oedran	Gallu siarad Cymraeg		Ddim yn gallu siarad Cymraeg	
	Nifer	Procent	Nifer	Procent
0-2	0	0%	0	0%
3-11	7	100%	0	0%
12-17	5	71%	2	29%
18-24	2	100%	0	0%
25-44	7	70%	3	30%
45-64	3	23%	10	77%
65-84	0	0%	9	100%
85+	0	0%	0	0%
Heb ateb	0	0%	0	0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>	<b>50%</b>	<b>24</b>	<b>50%</b>

Doedd neb o'r oedran 65-84 yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y grwpiau oedran 3-11 a 18-24 oed i gyd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r map isod yn dangos nifer yr unigolion wedi symud i ardal Tywyn a'r ganran ohonynt sydd yn gallu siarad Cymraeg.

O'r rhai sydd wedi symud oddi fewn i ardal Tywyn dywedodd 68% (19/28) ohonynt eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 40: Ardal Tywyn – symud i'r ardal a gallu i siarad Cymraeg



## laith y cartref

Ar gyfer y cartrefi un person – holwyd beth oedd eu hiaith gyntaf.

Tabl 193: Ardal Tywyn – laith gyntaf (cartrefi un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	0	0.0%
Saesneg	8	100.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>8</b>	<b>100.0%</b>

Ar gyfer y cartrefi mwy nac un person – holwyd pa iaith oedd yn cael ei siarad fwyaf ar yr aelwyd.

Tabl 194: Ardal Tywyn – laith y cartref (cartrefi mwy nag un person)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	1	6.7%
Saesneg	14	93.3%
<b>Cyfanswm</b>	<b>15</b>	<b>100.0%</b>

## Cyfuno'r cartrefi o'r ddau dabl uchod

Tabl 195: Ardal Tywyn – laith y cartref / iaith gyntaf (cyfanswm)

laith	Nifer Cartrefi	%
Cymraeg	1	4.3%
Saesneg	22	95.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>100.0%</b>

## Rhesymau dros symud i dŷ newydd

Nodir isod y prif ymatebion i'r cwestiwn mwy 'penagored' oedd yn ceisio cael "stori" preswylwyr y tai newydd i gael at y rhesymau pam roeddynt wedi symud i eiddo newydd yn yr ardal.

### Pam wnaethoch chi symud yma?

Nododd 23% mai'r eiddo yma oedd ar gael pan oeddynt yn chwilio am dŷ. Roedd 15% wedi symud oherwydd harddwch naturiol yr ardal. Roedd 13% wedi symud oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau bywyd ac eisiau dechrau newydd, a 10% yn nodi nad oeddynt yn hoffi lle roeddynt yn byw cynt oherwydd lefelau trosedd/sŵn.

Tabl 196: Ardal Tywyn – Rhesymau dros symud

Pam wnaethoch chi symud yma?	Nifer	%
Yr eiddo yma oedd ar gael ar y pryd	9	22.5%
Golygfeydd / Amgylchedd naturiol / Cefn gwlad	6	15.0%
Newid mewn amgylchiadau bywyd - dechrau newydd	5	12.5%
Ddim yn hoffi lle roeddem yn byw e.e. lefelau trosedd a sŵn	4	10.0%
Isio eiddo ei hun / eu hunain	3	7.5%
Lleoliad y tŷ	3	7.5%
Addasrwydd y tŷ i anghenion personol	3	7.5%
Angen eiddo mwy	2	5.0%
Angen eiddo llai	2	5.0%
Wedi cael ein gorfodi o'r tŷ blaenorol	1	2.5%
Isio ail gartref	1	2.5%
Ar gyfer ein ymddeoliad	1	2.5%
	<b>40</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam symud i'r ardal yma?

O'r 23 tŷ newydd roedd 9 ohonynt ble roedd y teulu (neu rai ohonynt) yn byw o fewn ardal Tywyn yn barod. Roedd 23% wedi symud i fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos. Roedd 23% yn symud i gael bywyd distawach.

Tabl 197: Ardal Tywyn – Pam symud i'r ardal yma?

Pam symud i'r ardal yma?	Nifer	%
Un aelod yn byw yn yr ardal yn barod	9	34.6%
I fod yn agosach at deulu / ffrindiau agos	6	23.1%
I gael bywyd distawach / llai poblog / bywyd brafiach	6	23.1%
Lle addas i fagu plant	2	7.7%
Cyfleusterau / cysylltiadau yn yr ardal	2	7.7%
Lleoliad gwaith / agosach at gwaith	1	3.8%
	<b>26</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Pam dewis tŷ newydd?

Roedd 35% wedi nodi mai wedi cael eu lleoli gan y Cyngor/Cymdeithas dai roeddynt. I 30% y lleoliad oedd wedi eu denu ac nid o reidrwydd tŷ newydd. Roedd 17% wedi dewis tŷ newydd oherwydd ei fod yn opsiwn cyfleus.

Tabl 198: Ardal Tywyn – Pam dewis tŷ newydd

Pam dewis tŷ newydd?	Nifer	%
Wedi ei gael gan y Cyngor / Cymdeithas Tai	8	34.8%
Lleoliad a dim tŷ newydd oedd y prif reswm	7	30.4%
Cyfleustra - Dim gwaith ar dŷ newydd / llai o gostau cynnal / gwarant tŷ newydd	4	17.4%
Adeilad wedi ei drosi - h.y. dim tŷ newydd sbon	2	8.7%
Heb ateb	2	8.7%
	<b>23</b>	

\*allan o 23 ymateb (rhai wedi rhoi mwy nac un rheswm)

### Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

O'r rhai oedd eisoes yn byw o fewn ardal Tywyn byddai 100% ohonynt yn debygol o fod wedi aros yn ardal Tywyn drwy chwilio am dŷ arall yn yr ardal.

Tabl 199: Ardal Tywyn - Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai oedd yn byw yn ardal Tywyn yn barod)

Y rhai oedd yn byw yn ardal Tywyn yn barod	Nifer	%
Rhywle o fewn pellter rhesymol i ardal Tywyn	13	100.0%
	<b>13</b>	

\*allan o 13 ymateb

Roedd ymateb y 10 o du allan i ardal Tywyn yn amrywio.

Tabl 200: Ardal Tywyn - Lle fydddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael? (rhai nad oedd yn byw yn ardal Tywyn yn barod)

Y rhai <u>NAD</u> oedd yn byw yn ardal Tywyn yn barod	Nifer	%
Dal wedi symud i ardal Tywyn	2	20.0%
Wedi symud i Aberystwyth yn lle	2	20.0%
Ddim yn siŵr	2	20.0%
Wedi symud i ardal Porthmadog yn lle	1	10.0%
Heb symud ac aros yn Lloegr	1	10.0%
Rhywle yng Ngogledd Cymru	1	10.0%
Heb ateb	1	10.0%
	<b>10</b>	

\*allan o 10 ymateb



### Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?

Fel nodwyd yn barod roedd 13 o'r ymatebwyr ble roedd o leiaf un aelod o'r teulu yn byw yn ardal Tywyn eisoes. Roedd 22% wedi bod yn dod ar wyliau dros y blynyddoedd i'r ardal. Doedd gan 13% ddim cysylltiad blaenorol gyda'r ardal.

Tabl 201: Ardal Tywyn – Cysylltiad blaenorol efo'r ardal

Cysylltiad blaenorol efo'r ardal?	Nifer	%
O leiaf un person byw yn yr ardal yn barod	13	56.5%
Wedi bod yn dod ar wyliau i'r ardal dros y blynyddoedd	5	21.7%
Dim cysylltiad blaenorol	3	13.0%
Teulu / Ffrindiau agos yn yr ardal	2	8.7%
	<b>23</b>	

\*allan o 23 ymateb


## Y tai lle ‘roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o’r blaen

Lle ‘roedd ymatebwyr tai newydd (Cam 1) wedi nodi eu bod wedi symud yno o rywle yng Ngwynedd, fe wnaethom wedyn geisio mynd i’r tŷ blaenorol er mwyn dilyn y ‘gadwyn’ tai yn ei hôl.

Mae’r diagram **ar y dudalen nesaf** yn crynhoi’r canlyniadau, gan ddangos, ar gyfer yr achosion lle cawsom ymateb, yr ardaloedd (yn y blychau) lle roedd tai blaenorol y preswylwyr, ac (ar y saethau) y nifer o bobl symudodd o ardal i ardal ar bob cam.

Mae’r niferoedd ymatebion yn rhy fach i allu dweud unrhyw beth pendant am y symudiadau sydd ymhellach yn ôl yn y ‘gadwyn’ ond fe welir, er enghraifft, o’r 10 tŷ yn ardal Tywyn ddaeth yn wag wrth i bobl symud i’r tai newydd, bod 2 wedi’u prynu / rhentu gan bobl eraill o ardal Tywyn ac 1 gan bobl yn symud o Loegr (ond nid ydym wedi cael ymateb o’r 7 tŷ arall). Mae hyn yn awgrymu, efallai, fod y symudiadau blaenorol yn tueddu i fod o fewn yr un ardal leol gan mwyaf, ond mae’n anodd bod yn bendant.

*Ffigur 41: Ardal Tywyn – Camau 2, 3 a 4*



## Prif gasgliadau am ardal Tywyn

- Roedd proffil oedran y bobl symudodd i'r tai newydd yn weddol gymysg, gyda bron 30% yn blant, dros chwarter rhwng 45-64 oed a bron 20% dros 65 oed.
- Roedd bron 60% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o eiddo arall yn ardal Tywyn, a 35% wedi symud yno o Loegr.
- Roedd proffil oedran y rhai a symudodd o wahanol ardaloedd yn wahanol iawn; roedd tua tri-chwarter y rhai oedd yn byw yn ardal Tywyn gynt o dan 44 oed tra roedd tri-chwarter y rhai symudodd o Loegr dros 45 oed.
- Roedd 50% o breswylwyr y tai newydd yn siarad Cymraeg, sydd yn uwch na'r cyfran yn ardal Tywyn yn gyffredinol.
- Roedd gallu y preswylwyr newydd i siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol fesul grŵp oedran – roedd mwyafrif y grwpiau oedran ieuengaf yn gallu siarad Cymraeg ond dim ond tua chwarter y rhai oed 45-64, a neb dros 65 oed.
- Roedd tua hanner y rhai oedd yn byw yn ardal Tywyn gynt ac a symudodd i dŷ newydd yn gallu siarad Cymraeg, ond llai nag 20% o'r rhai symudodd o Loegr.
- Y rhesymau a nodwyd amlaf dros symud i dŷ newydd yn yr ardal oedd mai'r tŷ hwnnw oedd wedi bod ar gael ar y pryd, golygfeydd / amgylchedd naturiol / cefn gwlad, ac amgylchiadau personol / eisiau “dechrau newydd”.
- O'r ymatebwyr oedd wedi symud o eiddo arall yn ardal Tywyn, roedd pawb wedi nodi y byddent wedi aros o fewn pellter rhesymol i'r ardal pe bai'r tŷ hwnnw heb fod ar gael. Ymhlith y rhai symudodd o ardaloedd eraill, roedd y darlun yn llai eglur gyda mwyafrif yn nodi y byddent wedi symud i amrywiol ardaloedd cyfagos eraill pe bai'r tŷ newydd heb fod ar gael.
- O'r ymatebwyr oedd wedi symud i ardal Tywyn o ardaloedd eraill, roedd y rhan fwyaf wedi ymweld â'r ardal ar wyliau dros y blynyddoedd.
- O ran y rhesymau dros ddewis tŷ newydd yn benodol, roedd tua traean wedi nodi'u bod wedi cael eu lleoli yno gan y Cyngor / cymdeithas dai, a traean arall wedi nodi mai'r lleoliad yn hytrach na chael tŷ newydd fel y cyfryw, oedd y ffactor bwysig iddyn nhw.

## 14. Mathau o ddatblygiadau

Mae'r bennod yma yn dadansoddi'r canlyniadau uchod yn ôl math y datblygiad dan sylw (p'run ai oedd y datblygiad yn un mawr / bychan, a hefyd p'run ai oedd y tai dan sylw yn rhai rhent cymdeithasol) er mwyn gweld a oedd hynny yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar y canlyniadau.

### Ymatebion gan breswylwyr tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 238 (68%) ohonynt yn rhan o ddatblygiad 'mawr' sef 5 tŷ neu fwy (nodyn: defnyddir trothwy o 5 tŷ neu fwy yma er mwyn cysondeb â'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar Gymunedau Nodedig a Chynaliadwy).

Roedd 604 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 66% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg (noder na fu datblygiad o 5 tŷ neu fwy yn ardal Ffestiniog yn ystod y cyfnod).

Tabl 2022: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy

Ardal	Nifer Tai	Nifer Pobl	% pobl gallu siarad Cymraeg
Bangor	124	312	60%
Caernarfon	39	89	97%
Dolgellau	11	23	43%
Dyffryn Nantlle	6	16	88%
Dyffryn Ogwen	8	27	81%
Ffestiniog	0	0	0%
Llŷn	17	42	57%
Penllyn	4	9	22%
Porthmadog	14	51	73%
Tywyn	15	35	54%
<b>Cyfanswm</b>	<b>238</b>	<b>604</b>	<b>66%</b>

Mewn cyfanswm roedd 72% o breswylwyr y tai newydd yma wedi symud yno o fewn Gwynedd, a tua 10% wedi dod o Loegr. Mae'r patrwm yn amrywio rywfaint rhwng ardaloedd (Tabl 203).

Mae'r ganran o bobl wedi symud o rywle arall yng Ngwynedd ar ei isaf yn ardal Dolgellau gyda 39%, ac ar ei uchaf yn ardal Porthmadog gyda 92%.

Gellir gweld patrymau o ran y nifer sydd wedi symud o Loegr hefyd gyda dros draean y bobl yn ardaloedd Dolgellau, Penllyn a Thywyn wedi symud o Loegr. Nid oedd neb wedi symud o Loegr i ardal Dyffryn Nantlle a dim ond 1% i ardal Caernarfon.

O ran iaith y trigolion, er bod 66% o'r unigolion yn gallu siarad Cymraeg dim ond mewn 37% o'r cartrefi roedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref (tabl 205 i 210). Roedd hyn yn amrywio o ardal i ardal hefyd gyda'r ganran uchaf o gartrefi prif iaith yn Gymraeg yn ardal Caernarfon 85%, a'r ganran isaf yn ardal Tywyn gyda tua 7%.

Tabl 2033: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy fesul ardal – o lle mae pobl wedi symud

	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
O fewn yr un ardal	51.6%	68.5%	26.1%	31.3%	37.0%	0.0%	81.0%	55.6%	82.4%	68.6%	57.6%
Ardaloedd eraill o Wynedd	15.7%	14.6%	13.0%	37.5%	33.3%	0.0%	2.4%	0.0%	9.8%	0.0%	14.2%
Lloegr	7.7%	1.1%	39.1%	0.0%	11.1%	0.0%	7.1%	44.4%	7.8%	31.4%	9.8%
Conwy a Môn	16.0%	10.1%	0.0%	18.8%	14.8%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	10.9%
Gweddill Cymru	0.6%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.3%
Arall	8.3%	5.6%	21.7%	12.5%	3.7%	0.0%	9.5%	0.0%	0.0%	0.0%	7.1%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>
<b>O fewn Gwynedd</b>	<b>67.3%</b>	<b>83.1%</b>	<b>39.1%</b>	<b>68.8%</b>	<b>70.4%</b>	<b>0.0%</b>	<b>83.3%</b>	<b>55.6%</b>	<b>92.2%</b>	<b>68.6%</b>	<b>71.9%</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 2044: Tai newydd oedd ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy fesul ardal – o lle mae pobl wedi symud

	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
O fewn yr un ardal	47.1%	61.5%	40.0%	38.1%	78.9%	81.8%	60.0%	62.5%	73.0%	30.8%	57.1%
Ardaloedd eraill o Wynedd	2.9%	15.4%	0.0%	38.1%	15.8%	0.0%	2.9%	12.5%	24.3%	23.1%	15.0%
Lloegr	11.8%	7.7%	53.3%	4.8%	0.0%	0.0%	20.0%	25.0%	2.7%	46.2%	14.3%
Conwy a Môn	11.8%	10.3%	0.0%	4.8%	0.0%	0.0%	2.9%	0.0%	0.0%	0.0%	3.8%
Gweddill Cymru	5.9%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.7%
Arall	20.6%	5.1%	6.7%	14.3%	5.3%	18.2%	14.3%	0.0%	0.0%	0.0%	9.1%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>
<b>O fewn Gwynedd</b>	<b>50.0%</b>	<b>76.9%</b>	<b>40.0%</b>	<b>76.2%</b>	<b>94.7%</b>	<b>81.8%</b>	<b>62.9%</b>	<b>75.0%</b>	<b>97.3%</b>	<b>53.8%</b>	<b>72.1%</b>

Tabl 2055: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy fesul ardal – gallu siarad Cymraeg

Nifer	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	186	86	10	14	22	0	24	2	37	19	400
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	122	2	13	2	5	0	18	7	14	16	199
Heb ateb	4	1	0	0	0	0	0	0	0	0	5
	<b>312</b>	<b>89</b>	<b>23</b>	<b>16</b>	<b>27</b>	<b>0</b>	<b>42</b>	<b>9</b>	<b>51</b>	<b>35</b>	<b>604</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 2066: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy fesul ardal – gallu siarad Cymraeg

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	59.6%	96.6%	43.5%	87.5%	81.5%	0.0%	57.1%	22.2%	72.5%	54.3%	66.2%
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	39.1%	2.2%	56.5%	12.5%	18.5%	0.0%	42.9%	77.8%	27.5%	45.7%	32.9%
Heb ateb	1.3%	1.1%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.8%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 2077: Tai newydd sydd ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy fesul ardal – gallu siarad Cymraeg

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	55.9%	76.9%	56.7%	81.0%	89.5%	81.8%	80.0%	62.5%	86.5%	38.5%	74.2%
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	44.1%	23.1%	43.3%	11.9%	7.9%	18.2%	20.0%	37.5%	13.5%	61.5%	24.4%
Heb ateb	0.0%	0.0%	0.0%	7.1%	2.6%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	1.4%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 2088: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – Iaith y Cartref

Niferoedd	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	19	0	1	0	0	0	1	0	0	0	21
Cymraeg	32	33	1	5	4	0	7	0	5	1	88
Saesneg	73	5	8	1	3	0	9	4	9	14	126
Heb ateb	0	1	1	0	1	0	0	0	0	0	3
	<b>124</b>	<b>39</b>	<b>11</b>	<b>6</b>	<b>8</b>	<b>0</b>	<b>17</b>	<b>4</b>	<b>14</b>	<b>15</b>	<b>238</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 2099: Tai newydd yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – Iaith y Cartref

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	15.3%	0.0%	9.1%	0.0%	0.0%	0.0%	5.9%	0.0%	0.0%	0.0%	8.8%
Cymraeg	25.8%	84.6%	9.1%	83.3%	50.0%	0.0%	41.2%	0.0%	35.7%	6.7%	37.0%
Saesneg	58.9%	12.8%	72.7%	16.7%	37.5%	0.0%	52.9%	100.0%	64.3%	93.3%	52.9%
Heb ateb	0.0%	2.6%	9.1%	0.0%	12.5%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	1.3%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 210: Tai newydd sydd ddim yn rhan o ddatblygiad o 5 tŷ neu fwy – Iaith y Cartref

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	16.7%	5.3%	0.0%	0.0%	9.1%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	3.5%
Cymraeg	25.0%	52.6%	16.7%	66.7%	63.6%	25.0%	63.6%	50.0%	58.8%	0.0%	46.0%
Saesneg	58.3%	42.1%	83.3%	33.3%	27.3%	75.0%	36.4%	50.0%	35.3%	100.0%	49.6%
Heb ateb	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	5.9%	0.0%	0.9%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>



### Casgliadau: datblygiadau 'mawr' o'u cymharu â datblygiadau 'bychan'

- Prin iawn oedd y gwahaniaethau o ran lle roedd pobl yn byw cyn symud i'r tai newydd. Roedd 58% o breswylwyr datblygiadau 'mawr' wedi symud yno o fewn yr un ardal leol, o'i gymharu â 57% yn y tai newydd oedd yn rhan o ddatblygiadau 'bychan'. Yr un oedd y patrwm o ran y rhai symudodd o ardal arall yng Ngwynedd (14% mewn datblygiadau 'mawr', o'i gymharu â 15% mewn datblygiadau 'bychan'), a'r rhai symudodd o Loegr (10% mewn datblygiadau 'mawr', o'i gymharu ag 14% mewn datblygiadau 'bychan').
- O ran yr iaith Gymraeg, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau 'bychan' (74% yn gallu siarad Cymraeg) o'i gymharu â phreswylwyr datblygiadau 'mawr' (66% yn gallu siarad Cymraeg). Gellir gweld patrymau gwahanol ar draws yr ardaloedd (tabl 205 i 207) gyda patrwm ardal Bangor, Caernarfon, Dyffryn Nantlle a Thywyn yn groes i batrwm Gwynedd gyfan.
- O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd yng Ngwynedd mewn datblygiadau 'bychan' (46% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a'r rhai mewn datblygiadau 'mawr' (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref). Gellir gweld patrymau gwahanol ar draws yr ardaloedd (tabl 208 i 210) gyda phatrwm ardaloedd Bangor, Caernarfon, Dyffryn Nantlle a Thywyn yn groes i batrwm Gwynedd gyfan unwaith eto.

## Ymatebion gan breswylwyr tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol

O'r 351 annedd newydd lle cafwyd ymateb, roedd 60 (17%) ohonynt yn rhai Rhent Cymdeithasol. Roedd 177 o bobl wedi dod i fyw yn y tai yma ac o'r rhain roedd 74% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Ni fu datblygiad rhent cymdeithasol yn ardal Dyffryn Nantlle, Ffestiniog na Phenllyn yn ystod y cyfnod.

Tabl 211: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol

Ardal	Nifer Tai	Nifer Pobl	% pobl gallu siarad Cymraeg
Bangor	23	62	73%
Caernarfon	7	14	93%
Dolgellau	3	9	67%
Dyffryn Nantlle	0	0	0%
Dyffryn Ogwen	3	9	67%
Ffestiniog	0	0	0%
Llŷn	6	18	78%
Penllyn	0	0	0%
Porthmadog	10	43	77%
Tywyn	8	22	64%
<b>Cyfanswm</b>	<b>60</b>	<b>177</b>	<b>74%</b>

Mewn cyfanswm roedd 92% o breswylwyr y tai Rhent Cymdeithasol newydd yma wedi symud yno o Wunedd (80% o fewn yr un ardal leol a 12% o ardal arall yng Ngwunedd). Mae tua 2% wedi dod o Loegr. Mae'r patrwm ychydig yn wahanol ar draws ardaloedd o fewn Gwunedd (Tabl 212 i 213).

Mae'r ganran o bobl symudodd yno o fewn Gwunedd ar ei isaf yn ardal Dolgellau gyda 67%, a gyda 100% yn ardaloedd Caernarfon, Dyffryn Ogwen, Llŷn a Porthmadog.

Dim ond i ardal Tywyn mae pobl wedi symud o Loegr i dai Rhent Cymdeithasol gyda tua 18%.

O ran iaith y cartrefi, er bod 74% o'r unigolion yn gallu siarad Cymraeg dim ond mewn tua 37% o'r cartrefi roedd y Gymraeg yn brif iaith y cartref (Tabl 214 a 219). Roedd hyn yn amrywio o ardal i ardal hefyd gyda'r ganran uchaf o gartrefi prif iaith yn Gymraeg yn ardal Caernarfon sef 86%, a'r ganran isaf yn ardal Dolgellau lle nad oedd Cymraeg yn brif iaith o gwbl.

Tabl 212: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol – o lle wedi symud

	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle*	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn*	Porthmadog	Tywyn	Gwynedd
O fewn yr un ardal	75.8%	85.7%	66.7%	0.0%	11.1%	0.0%	100.0%	0.0%	93.0%	81.8%	80.2%
Ardaloedd eraill o Wunedd	11.3%	14.3%	0.0%	0.0%	88.9%	0.0%	0.0%	0.0%	7.0%	0.0%	11.3%
Lloegr	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	18.2%	2.3%
Conwy a Môn	12.9%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	4.5%
Gweddill Cymru	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
Arall	0.0%	0.0%	33.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	1.7%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>
<b>O fewn Gwynedd</b>	<b>87.1%</b>	<b>100.0%</b>	<b>66.7%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>81.8%</b>	<b>91.5%</b>

\*dim tai cymdeithasol newydd yn yr ardal yma

Tabl 213: Tai newydd oedd ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – o lle wedi symud

	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Gwynedd
O fewn yr un ardal	45.8%	64.0%	27.3%	36.2%	69.6%	81.8%	62.7%	58.8%	64.4%	38.5%	51.8%
Ardaloedd eraill o Wunedd	15.1%	14.9%	6.8%	37.9%	12.5%	0.0%	3.4%	5.9%	24.4%	11.5%	15.3%
Lloegr	9.9%	3.5%	56.8%	3.4%	5.4%	0.0%	16.9%	35.3%	11.1%	50.0%	13.4%
Conwy a Môn	16.2%	11.4%	0.0%	8.6%	7.1%	0.0%	1.7%	0.0%	0.0%	0.0%	9.7%
Gweddill Cymru	1.4%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.6%
Arall	11.6%	6.1%	9.1%	13.8%	5.4%	18.2%	15.3%	0.0%	0.0%	0.0%	9.2%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>
<b>O fewn Gwynedd</b>	<b>60.9%</b>	<b>78.9%</b>	<b>34.1%</b>	<b>74.1%</b>	<b>82.1%</b>	<b>81.8%</b>	<b>66.1%</b>	<b>64.7%</b>	<b>88.9%</b>	<b>50.0%</b>	<b>67.1%</b>

Tabl 2114: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol – gallu siarad Cymraeg

Nifer	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle*	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn*	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	45	13	6	0	6	0	14	0	33	14	131
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	16	1	3	0	3	0	4	0	10	8	45
Heb ateb	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1
	<b>62</b>	<b>14</b>	<b>9</b>	<b>0</b>	<b>9</b>	<b>0</b>	<b>18</b>	<b>0</b>	<b>43</b>	<b>22</b>	<b>177</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 21115: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol – gallu siarad Cymraeg

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle*	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn*	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	72.6%	92.9%	66.7%	0.0%	66.7%	0.0%	77.8%	0.0%	76.7%	63.6%	74.0%
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	25.8%	7.1%	33.3%	0.0%	33.3%	0.0%	22.2%	0.0%	23.3%	36.4%	25.4%
Heb ateb	1.6%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.6%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>0.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

\*dim datblygiad 5 tŷ neu fwy yn yr ardal yma

Tabl 21216: Tai newydd oedd ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – gallu siarad Cymraeg

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Gallu siarad Cymraeg	56.3%	90.4%	47.7%	82.8%	89.3%	81.8%	64.4%	41.2%	80.0%	38.5%	67.5%
Ddim yn gallu siarad Cymraeg	42.6%	8.8%	52.3%	12.1%	8.9%	18.2%	35.6%	58.8%	20.0%	61.5%	31.4%
Heb ateb	1.1%	0.9%	0.0%	5.2%	1.8%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	1.1%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Tabl 217: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol – Iaith y Cartref

Niferoedd	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle*	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn*	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	1	0	1	0	0	0	0	0	0	0	2
Cymraeg	6	6	0	0	1	0	4	0	4	1	22
Saesneg	16	1	2	0	2	0	2	0	6	7	36
Heb ateb	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
	<b>23</b>	<b>7</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>3</b>	<b>0</b>	<b>6</b>	<b>0</b>	<b>10</b>	<b>8</b>	<b>60</b>

\*dim tai cymdeithasol newydd yn yr ardal yma

Tabl 218: Tai newydd oedd yn rhai Rhent Cymdeithasol – Iaith y Cartref

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle*	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog*	Llŷn	Penllyn*	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	4.3%	0.0%	33.3%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	3.3%
Cymraeg	26.1%	85.7%	0.0%	0.0%	33.3%	0.0%	66.7%	0.0%	40.0%	12.5%	36.7%
Saesneg	69.6%	14.3%	66.7%	0.0%	66.7%	0.0%	33.3%	0.0%	60.0%	87.5%	60.0%
Heb ateb	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

\*dim tai cymdeithasol newydd yn yr ardal yma

Tabl 219: Tai newydd oedd ddim yn rhai Rhent Cymdeithasol – Iaith y Cartref

Fel %	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn	Cyfanswm
Arall	17.7%	2.0%	0.0%	0.0%	6.3%	25.0%	4.5%	0.0%	0.0%	0.0%	8.2%
Cymraeg	25.7%	72.5%	15.0%	71.4%	62.5%	75.0%	45.5%	25.0%	52.4%	0.0%	41.2%
Saesneg	56.6%	23.5%	80.0%	28.6%	25.0%	0.0%	50.0%	75.0%	42.9%	100.0%	49.1%
Heb ateb	0.0%	2.0%	5.0%	0.0%	6.3%	0.0%	0.0%	0.0%	4.8%	0.0%	1.4%
	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

## Casgliadau: tai newydd Rhent Cymdeithasol o'u cymharu â thai eraill

- Roedd y symudiadau i dai newydd rhent cymdeithasol yn fwy "lleol" eu natur, ar y cyfan, na symudiadau i dai newydd eraill. Roedd 80% o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol wedi symud yno o fewn yr un ardal leol (o'i gymharu â 52% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol), ac roedd 11% arall wedi symud yno o ardal arall yng Ngwynedd (15% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol). Tua 2% oedd wedi symud o Loegr (o'i gymharu ag 13% yn y tai newydd nad oeddynt yn dai cymdeithasol).
- Roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol ar draws Gwynedd yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (74% o'i gymharu â 68%). Gellir gweld patrymau gwahanol ar draws yr ardaloedd (tabl 214 i 216) gyda phatrwm ardal Dyffryn Ogwen a Porthmadog yn groes i batrwm Gwynedd gyfan.
- O ran prif iaith yr aelwyd, gwelwyd rhywfaint o wahaniaeth rhwng preswylwyr tai newydd yng Ngwynedd nad oedd yn rhai rhent cymdeithasol (41% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref) a'r rhai oedd mewn datblygiadau rhent cymdeithasol (37% yn dweud mai Cymraeg oedd prif iaith y cartref). Gellir gweld patrymau gwahanol ar draws yr ardaloedd (tabl 208 i 210) gyda phatrwm ardal Bangor, Caernarfon, a Llŷn yn groes i batrwm Gwynedd gyfan.

## 15. Prif gasgliadau

Yr hyn sy'n dod i'r amlwg wrth edrych ar ganlyniadau'r 10 ardal unigol yw y gall patrwm tai newydd, a'r sawl sy'n eu prynu, fod yn eithaf gwahanol o ardal i ardal. Gan hynny mae'n anodd cymryd yn ganiataol bod y patrwm cyffredinol, o reidrwydd, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar draws Gwynedd; dylid cyfeirio at benodau'r ardaloedd unigol am well syniad o'r canfyddiadau.

Er hynny mae yna rai prif negeseuon yn dod i'r amlwg wrth gymharu ar draws yr ardaloedd, un ai achos bod patrymau tebyg yn amlygu'u hunain mewn nifer o ardaloedd, neu fod ambell ardal yn dangos patrwm gwahanol i weddill Gwynedd:-

### Pwy sy'n symud i dai newydd, ac o lle

- Mewn cyfanswm, roedd 57% o breswylwyr y tai newydd wedi symud yno o dŷ arall yn yr un ardal leol, a 15% arall wedi symud o ardaloedd eraill yng Ngwynedd (ardaloedd cyfagos, fel arfer).
- Roedd 9% wedi symud o Ynys Môn / Conwy, 11% o Loegr, ac 8% o weddill Cymru neu wledydd eraill.
- Dyma'r patrwm manwl fesul ardal:

Tabl 220: Pwy sy'n symud i dai newydd, ac o lle

	Bangor	Caernarfon	Dolgellau	Dyffryn Nantlle	Dyffryn Ogwen
Symud o fewn yr un ardal	51%	66%	34%	36%	61%
Symud o ardal arall o Wunedd	14%	15%	6%	38%	23%
Symud o Ynys Môn / Conwy	16%	10%	0%	9%	6%
Symud o Loegr	8%	3%	47%	3%	5%
Symud o rywle arall	11%	6%	13%	14%	5%

	Ffestiniog	Llŷn	Penllyn	Porthmadog	Tywyn
Symud o fewn yr un ardal	82%	71%	59%	78%	58%
Symud o ardal arall o Wunedd	0%	3%	6%	16%	6%
Symud o Ynys Môn / Conwy	0%	1%	0%	0%	0%
Symud o Loegr	0%	13%	35%	6%	36%
Symud o rywle arall	18%	12%	0%	0%	0%

- Ym mron pob ardal felly, roedd mwyafrif preswylwyr tai newydd yr ardal wedi symud yno o dai eraill o fewn yr un ardal. Roedd hyn yn cynyddu i 70% neu uwch yn ardaloedd Ffestiniog, Llŷn a Phorthmadog. Y prif eithriad i hyn oedd ardal Dolgellau lle roedd bron hanner y preswylwyr wedi symud yno o Loegr o'i gymharu â thua thraean oedd wedi symud o fewn ardal Dolgellau.
- Cymharol ychydig oedd yn symud i dŷ newydd yng Ngwynedd o ardaloedd eraill o Wynedd. Roedd peth i'w weld yn ardal Bangor (symud o ardal Caernarfon gan mwyaf), Caernarfon (symud o ardaloedd Bangor a Dyffryn Nantlle gan mwyaf), Dyffryn Nantlle (symud o ardal Caernarfon gan mwyaf), Dyffryn Ogwen (symud o ardal Bangor gan mwyaf) a Phorthmadog (symud o ardal Ffestiniog). Ond – heblaw am y symudiadau o Fangor i Ddyffryn Ogwen, ac o Gaernarfon i Ddyffryn Nantlle – cymharol fach oedd y cyfan o'r symudiadau hyn.
- Roedd peth symudiad hefyd o Ynys Môn / Conwy i dai newydd yn ardaloedd Bangor a Caernarfon, ond roedd hyn eto yn gymharol fach.
- Heblaw am ardal Dolgellau (gweler uchod), roedd y cyfran o breswylwyr tai newydd a symudodd o Loegr yn amrywio o 35% (ardaloedd Penllyn a Tywyn), 15% (ardal Llŷn), tua 5-10% (ardaloedd Bangor a Phorthmadog), i brin dim yn y pedair ardal arall.
- Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng datblygiadau “mawr” (5 tŷ neu fwy) a “bach” (4 tŷ neu lai), o ran pa ardaloedd 'roedd y preswylwyr wedi symud i fyw ohonynt.
- Roedd y cyfran o breswylwyr tai cymdeithasol newydd symudodd yno o dŷ arall yng Ngwynedd (92%) yn sylweddol uwch na'r canran cyfatebol ar gyfer tai newydd eraill (67%).
- Roedd proffil oedran y rhai a symudodd i dai newydd yn amrywio fesul ardal, gyda phroffil oed cymharol “ifanc” yn ardaloedd Bangor, Caernarfon a Phorthmadog yn arbennig, a phroffil oedran “hŷn” yn ardaloedd Dolgellau, Llŷn a Phenllyn.

### **Y tai lle 'roedd preswylwyr y tai newydd yn byw o'r blaen**

- Mae'r dystiolaeth ynglŷn â symudiadau eraill yn y “gadwyn” tai – h.y. pwy oedd yn symud i dai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd – yn fwy amwys oherwydd nifer fychan y ymatebion.
- Ond at ei gilydd, mae yna awgrym fod y symudiadau hynny yn cael eu cadw yn lleol gan mwyaf, gyda tua 60% o'r rhain (ar draws pob ardal) yn cael eu cadw o fewn yr un ardal leol.
- Roedd tua 10% arall o'r symudiadau “pellach” yma o ardaloedd eraill o Wynedd, a tua 8% o Ynys Môn. Tua 13% oedd wedi symud o Loegr.
- At ei gilydd felly, mae yna awgrym bod y farchnad ar gyfer y tai yn y “gadwyn” (h.y. y tai ddaeth yn wag wrth i bobl symud i dai newydd) yn debyg i'r farchnad ar gyfer y tai newydd eu hunain, drwy bod cyfran uchel o'r tai yn mynd i bobl leol yn hytrach nag i bobl tu allan i'r ardal neu'r sir. Ond unwaith eto rhaid pwysleisio ei bod yn anodd dweud i sicrwydd oherwydd niferoedd isel y ymatebion.



## laith

- Heblaw am un ardal, roedd y cyfran o breswylwyr y tai newydd oedd yn siarad Cymraeg yn debyg neu rywfaint yn uwch na'r cyfran yn yr ardal yn gyffredinol yn y Cyfrifiad diwethaf. Yr eithriad oedd ardal Penllyn, lle 'roedd y cyfran yn sylweddol is (40% o'i gymharu ag 80%).
- Mae'r patrwm fesul grŵp oedran yn dangos fod preswylwyr ieuengach tai newydd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg na rhai hŷn, gyda 91% o blant 3 – 11 oed a 68% o bobl 25-44 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r cyfran isaf (sef 47%) ymhlith y grŵp oedran 65 – 84 oed.
- Roedd preswylwyr tai newydd mewn datblygiadau "bychan" (4 tŷ neu lai) ychydig yn fwy tebygol o fod yn gallu siarad Cymraeg na phreswylwyr datblygiadau mwy (74% o'i gymharu â 66%). Hefyd roedd cyfran fymryn uwch o breswylwyr tai newydd rhent cymdeithasol yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â phreswylwyr tai newydd eraill (74% o'i gymharu â 68%).

## Pam fod pobl yn symud i dŷ newydd

- Roedd y rhesymau pam roedd pobl wedi symud i dŷ newydd yn eithaf amrywiol – yn ardal Bangor lleoliad cyfleus a bod yn agos at waith oedd yr ystyriaeth bwysicaf, tra bod lleoliad yng nghefn gwlad / ger golygfeydd yn bwysig yn ardaloedd fel Llŷn, Penllyn a Thywyn.
- O ran y rheswm dros ddewis tŷ newydd yn benodol, cyfleustra (dim costau / gwaith cynnal a chadw, a gwarant ar dŷ newydd) oedd un o'r rhesymau pwysicaf. Yn rhai ardaloedd (fel Dyffryn Ogwen, Ffestiniog, Llŷn a Phorthmadog) roedd y ffaith bod tir ar gael i adeiladu arno yn rheswm pwysig.
- Roedd nifer sylweddol hefyd wedi dweud nad chwilio am dŷ newydd oeddent fel y cyfryw ond mai hwnnw oedd ar gael yn y lleoliad roeddent yn chwilio amdano.
- Yn gyffredinol, roedd pobl oedd yn byw yn yr ardal eisoes yn nodi y byddent wedi chwilio am dŷ arall yn yr ardal honno, neu heb symud tŷ o gwbl, pe na bai'r tŷ newydd wedi bod ar gael.
- Ymhlith pobl oedd wedi symud o ardaloedd eraill roedd y darlun yn fwy cymysg – roedd rhai ardaloedd (Bangor, Caernarfon, Dolgellau, Llŷn, Porthmadog) lle roedd awydd penodol i symud i'r ardal honno, ond mewn ardaloedd eraill roedd yr ymatebwyr yn nodi y byddent wedi chwilio mewn ardaloedd / siroedd cyfagos fel arall.

I'r dyfodol, byddai'n ddefnyddiol cadw llygad ar dueddiadau prynu a rhentu tai newydd i weld a fydd y patrymau uchod yn parhau'n gyson neu a fyddent yn newid mewn ymateb i ffactorau fel newid ym math / lleoliad y tai fydd ar gael, tueddiadau yn y farchnad dai yn lleol ac yn genedlaethol, newid yn y boblogaeth ac yn nyheadau prynwyr, ayb. I'r perwyl yma efallai fod lle i edrych ar y posibiladau ar gyfer cydweithio efo datblygwyr tai, cymdeithasau tai ayb i geisio casglu gwybodaeth o'r math yma wrth i dai newydd gael eu prynu a'u rhentu.

## Atodiad – Cwestiynau a holwyd

### Am y tŷ

1. Chi ydi perchennog/tenant cyntaf y tŷ?  
- Ia / Na
2. Perchen neu rentu y tŷ?  
- Perchen / Rhentu preifat / Rhentu cymdeithasol / Rhan-berchnogi
3. Blwyddyn prynu/rhentu i ddechrau?  
\_\_\_\_\_
4. Math o dŷ?  
- Ar wahân / Semi / Teras / Byngalo / Fflat neu maisonette / Arall
5. Sawl ystafell wely?  
\_\_\_\_\_

### Amdanoch chi + eraill sy'n byw yn y tŷ

1. Faint o bobl sy'n byw yma fel arfer?  
\_\_\_\_\_

Am y bobl sy'n byw yma fel arfer:

	2. Oedran (0-2)(3-11)(12-17) (18-24)(25-44)(45-64)(65-84)(85+)	3. Gallu siarad Cymraeg?	4. Lle yn byw fel arfer cyn symud i'r tŷ yma? (+ manylion e.e. gwerthu? symud o adref?)
Person 1		Ydi / Nac ydi	
Person 2		Ydi / Nac ydi	
Person 3		Ydi / Nac ydi	
Person 4		Ydi / Nac ydi	
Person 5		Ydi / Nac ydi	
Person 6		Ydi / Nac ydi	
Person 7		Ydi / Nac ydi	
Person 8		Ydi / Nac ydi	

*laith y cartref*

Os oes 2+ o bobl yn byw yn y tŷ:

Pa iaith sy'n cael ei siarad fwyaf yn y cartref? - Cymraeg / Saesneg / Arall (bocs i sgwennu pa un) / Mwy nag un iaith yn gyfartal (bocs i sgwennu pa rai)

Os oes 1 person yn byw yn y tŷ:

Pa iaith yw eich iaith gyntaf? – Cymraeg / Saesneg / Arall (*bocs i sgwennu pa un*)

*Rheswm dros symud yma*

Pam wnaethoch chi symud yma?

Pam symud i'r ardal yma?

Pam dewis tŷ newydd?

Lle fyddech chi'n debygol o fod wedi symud (os o gwbl) pe bai'r tŷ newydd yma heb fod ar gael?

Os wedi symud o ardal arall – cysylltiad blaenorol efo'r ardal?